Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
44/2022
Dyddiad Cyhoeddi:
23/06/2022

# Gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020-2021

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-80364-288-8

Gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020-2021

Awdur(on): Andy Parkinson, Declan Turner, Paula Gallagher, Sarah Usher, Sam Grunhut, Olivia Heath

Adroddiad Ymchwil Llawn: Parkinson A, Turner D, Gallagher P, Usher S, Grunhut S, a Heath O. (2022) Gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020-2021.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 44/2022
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Yr Is-adran Diwylliant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Diwylliant@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 4
2. Methodoleg ..... 8
3. Effaith COVID-19 ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru ..... 13
4. Dyluniad y gronfa a dulliau cyflawni ..... 22
5. Proffil yr ymgeiswyr a derbynwyr grantiau ..... 42
6. Ymateb derbynwyr grantiau i'r pandemig ..... 57
7. Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr grantiau ..... 70
8. Gwersi allweddol ..... 99
9. Casgliadau ..... 102
10. Ystyriaethau polisi ..... 107

Atodiad A: Dulliau ymchwil ..... 111
Atodiad B: Canllaw Trafod y Rhanddeiliaid ..... 114
Atodiad C: Rhestr o'r sefydliadau sy'n rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ..... 116
Atodiad D: Arolwg Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol ..... 117
Atodiad E: Arolwg Derbynwyr Grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ..... 165
Atodiad F: Canllaw Trafod Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol ..... 165
Atodiad G: Canllaw Trafod Derbynwyr Grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ..... 193
Atodiad H: Meini prawf cymhwysedd ar gyfer Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad ..... 196

**Rhestr o dablau**

Tabl 4.1 Cyfran yr ymgeiswyr a wnaeth gais i gronfeydd eraill ........................................... 36
Tabl 5.1 Cyfanswm nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn ôl Cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol ........................................... 42
Tabl 5.2 Nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn ôl Cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a maint y grant ........................................... 43
Tabl 5.3 Swm y grant yr ymgeisiwyd amdano ac a ddyfarnwyd yn ôl cylch ........................................... 43
Tabl 5.4 Yr arian a ddyfarnwyd yn ôl maint y busnes ........................................... 44
Tabl 5.5 Ceisiadau a dyfarniadau yn ôl sector ........................................... 45
Tabl 5.6 Cyfanswm dyfarniadau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ôl awdurdod lleol .......... 47
Tabl 5.7 Statws gweithredol derbynnydd y grant adeg y dyfarniad ........................................... 48
Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru ........................................... 48
Tabl 5.8 Dosbarthiad dyfarniadau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn ôl awdurdod lleol ......... 52
Tabl 5.9 Proffil dyfarniadau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn ôl is-sector ........................... 53
Tabl 7.1 Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd yn ôl cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a sector ........................................... 77
Tabl 7.2 Lefelau cyflogaeth cyfartalog ymysg y sefydliadau a arolygwyd ........................... 79
Tabl 7.3 Newidiadau yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn rhwng cylchoedd .............. 80
Tabl 7.4 Cefnogi rolau llawrydd ........................................... 80

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 4.1 Sgôr sefydliadau i broses ymgeisio'r gronfa ........ 27
Ffigur 4.2 Sgôr gweithwyr llawrydd i brosesau ymgeisio'r gronfa........ 29
Ffigur 4.3 Awgrymiadau o welliannau i broses ymgeisio'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ....... 30
Ffigur 4.4 Sut oedd y gronfa'n cymharu â grantiau neu gronfeydd eraill oedd ar gael ......... 34
Ffigur 5.1 Ceisiadau i gronfeydd rhyddhad COVID-19 eraill ........ 50
Ffigur 5.2 Proffil oedran derbynwyr grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ........ 54
Ffigur 5.3 Y gyfran sy'n derbyn cymorth o'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig fesul is-sector ........ 55
Ffigur 6.1 Y defnydd o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol ........ 57
Ffigur 6.2 Y defnydd o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ôl sector........ 58
Ffigur 6.3 Ffactorau'n effeithio ar allu'r gronfa i gynorthwyo goroesiad yn y dyfodol agos ... 59
Ffigur 6.4 Y defnydd o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ........ 60
Ffigur 6.5 Camau a gymerwyd gan sefydliadau mewn ymateb i'r pandemig ........ 61
Ffigur 6.6 A wnaeth yr arian alluogi sefydliadau i barhau i weithredu drwy'r pandemig ....... 62
Ffigur 6.7 Camau a gymerwyd gan Weithwyr Llawrydd ........ 63
Ffigur 6.8 Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn cynorthwyo gweithrediad drwy'r pandemig ..... 64
Ffigur 6.9 Effaith weithredol yn absenoldeb y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ........ 64
Ffigur 6.10 Cadw newidiadau sefydliadol a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig........ 67
Ffigur 6.11 Cadw modelau gweithio newydd yn y sector llawrydd ........ 69
Ffigur 7.1 Statws gweithredol ymgeiswyr y Gronfa (sefydliadau)........ 70
Ffigur 7.2 Statws gweithredol ymgeiswyr y Gronfa (sefydliadau) yn ôl sector ........ 71
Ffigur 7.3 Effaith ddisgwyliedig ar dderbynwyr y Gronfa pe na baent wedi derbyn grant..... 73
Ffigur 7.4 Effaith ddisgwyliedig pe na baent wedi derbyn grant (yn ôl sector) ........ 74
Ffigur 7.5 Effaith y pandemig ar drosiant ........ 76
Ffigur 7.6 Effeithiau a ragwelir yn absenoldeb y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ........ 83
Ffigur 7.7 Hyder yn y gallu i oroesi'r 12 mis nesaf (yn ôl sector)........ 90
Ffigur 7.8 Ffactorau sy'n effeithio ar ragolygon a hyder ar gyfer yr 1-3 blynedd nesaf......... 91
Ffigur 7.9 Anghenion cymorth sefydliadau diwylliannol yn y dyfodol........ 94

# 1. Cyflwyniad

1.0 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canfyddiadau'r gwerthusiad o broses ac effaith Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020-2021. Mae'r gwerthusiad yn archwilio gweithrediad ac effaith y grantiau a weinyddwyd ac yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau a brofwyd gan sefydliadau ac unigolion yn uniongyrchol i'r grant. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried a wireddwyd effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd.

**Cefndir ac amcanion y gwerthusiad**

1.1 Ers cychwyn y cyfnod clo ar 23ain Mawrth 2020, mae effeithiau COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y sector diwylliant. Caeodd lleoliadau a busnesau ledled Cymru yn ddisymwth a chafodd digwyddiadau eu canslo neu'u gohirio, a rhoddwyd staff ar ffyrlo, gan olygu colli incwm ar unwaith. Ynghyd â'r sector twristiaeth, mae'r sectorau diwylliannol a chreadigol ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng presennol.[1] Mae ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gan Gaerdydd Creadigol wedi amlygu'r ffaith bod y sefyllfa yr un mor negyddol i'r hunangyflogedig. Yn ôl eu harolwg o weithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru mae 60 y cant o'r ymatebwyr yn dweud bod eu gwaith wedi sychu'n llwyr.[2]

1.2 Ar 5ed Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn o £1.57 biliwn i ddiogelu sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth ledled y DU. Yn dilyn hyn, ar 30ain Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Adferiad Diwylliannol, cronfa gwerth £53m i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ymdrin ag effaith pandemig y coronafeirws. Ar 11eg Tachwedd 2020, oherwydd y galw mawr am y cymorth ariannol ar draws sector y celfyddydau a diwylliant, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £10.7m arall ar gael i gefnogi sefydliadau ac unigolion.[3] Roedd y cyhoeddiad hwn yn golygu bod y pecyn ariannu a oedd ar gael drwy'r gronfa ar y pryd yn gyfanswm o £63.7m.[4]

---

[1] OECD (2020)- 'Culture shock: COVID-19 and the Cultural and Creative Sectors'. Ymatebion Polisi yr OECD i'r Coronafeirws (COVID-19). 7 Medi 2020.
[2] Caerdydd Creadigol (2020)- 'Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19: Sut fydd hyn yn helpu gweithwyr llawrydd y diwydiannau creadigol yng Nghymru?'
[3] Llywodraeth Cymru (2020)- 'Datganiad Ysgrifenedig: Y Gronfa Adferiad Diwylliannol – cyllid ychwanegol'. 11 Tachwedd 2020.
[4] Gan nad yw'r rhaglen wedi cau yn llwyr, gallai'r ffigurau ariannol newid, ac mae'r ffigurau a roddir yn seiliedig ar ddadansoddiad o System Cyfrifon Busnes ar bwynt penodol (Rhagfyr 21).

1.3 I gydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu llawer o sefydliadau, ym mis Ionawr 2022 cyhoeddwyd cronfa o £15.4 miliwn i gefnogi sectorau celfyddydol a diwylliannol Cymru fel rhan o drydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

1.4 Comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o broses ac effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Yn y pen draw, ceisiodd y gwerthusiad roi barn ar i ba raddau y mae'r cymorth grant wedi cefnogi'r sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru i oroesi'r effeithiau economaidd negyddol sy'n deillio o COVID-19. Ymhlith yr amcanion penodol y byddai'r gwerthusiad yn mynd i'r afael â hwy roedd:

- Archwilio effaith y gronfa ar wella gallu busnesau i oroesi a lleihau nifer y diswyddiadau mewn sefydliadau diwylliannol a chreadigol a gefnogwyd.
- Asesu effeithiau'r pandemig ar drosiant a lefelau cyflogaeth sefydliadau diwylliannol a chreadigol ac effaith cymorth ariannol o ran lliniaru effeithiau negyddol y pandemig.
- Ystyried a yw'r gronfa'n targedu'r sefydliadau a'r sectorau sydd fwyaf mewn perygl yn effeithiol, ac a oes grwpiau sydd wedi methu â chael cymorth.
- Archwilio amrywiadau yn yr effeithiau a wireddwyd rhwng gwahanol ranbarthau Cymru, darparwyr celfyddydol (e.e. theatrau, lleoliadau cerddoriaeth ac ati) a maint sefydliadau.
- Archwilio effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach yr arian sy'n deillio o ymrwymiadau'r Contract Diwylliannol.
- Archwilio sut mae'r rhai a gafodd gymorth ariannol yn cymharu â sefydliadau tebyg a wnaeth gais, ond na chawsant gymorth, ac ystyried a ellir priodoli unrhyw wahaniaethau i'r cymorth a gafwyd.
- Archwilio prosesau rheoli a monitro'r Rhaglen a darparu asesiad i weld a ydynt yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen yn ddigonol.
- Gwerthuso canfyddiadau a boddhad derbynwyr grant a rhanddeiliaid o briodoldeb ac effeithiolrwydd cyflwyno'r Rhaglen.
- Nodi unrhyw wersi allweddol a ddysgwyd sy'n berthnasol i'r Rhaglen hon a Rhaglenni cymorth COVID-19 posibl yn y dyfodol.

- Archwilio nodweddion gweithwyr llawrydd creadigol a gynorthwywyd ac ystyried sut y gall Adduned y Gweithwyr Llawrydd gael ei defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r grŵp hwn.

1.5 Wrth gyfleu canfyddiadau'r gwerthusiad ac wrth ystyried eu goblygiadau ar gyfer polisi, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys cyfyngiadau cydnabyddedig.
- Mae Pennod 3 yn rhoi trosolwg o effaith COVID-19 ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys profiad uniongyrchol derbynwyr grantiau.
- Mae Pennod 4 yn adolygu dulliau dylunio a chyflawni'r Gronfa, gan ddefnyddio adborth gan staff cyflenwi, rhanddeiliaid y sector a derbynwyr grantiau ar draws y tri maes.
- Mae Pennod 5 yn rhoi manylion am broffil ymgeiswyr a derbynwyr grantiau ar gyfer dau gylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd.
- Mae Pennod 6 yn archwilio ymateb derbynwyr grantiau i'r pandemig, gan gynnwys sut y defnyddiwyd yr arian, newidiadau i wasanaethau a gweithgareddau sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd a thystiolaeth o arloesedd.
- Mae Pennod 7 yn cyflwyno asesiad o effaith cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr grantiau, yn benodol o ran perfformiad y rhaglen o ran cefnogi goroesiad sefydliadau diwylliannol a diogelu swyddi a rolau gwirfoddolwyr.
- Mae Pennod 8 yn dwyn ynghyd wersi allweddol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.
- Mae Pennod 9 yn darparu casgliadau terfynol y gwerthusiad.
- Mae Pennod 10 yn rhoi ffocws ar sawl ystyriaeth polisi.
- Mae Atodiad A yn cyflwyno’r dulliau ymchwil.
- Mae Atodiad B yn darparu'r canllaw trafod i randdeiliaid.
- Mae Atodiad C yn darparu'r rhestr o sefydliadau sy’n rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw.
- Mae Atodiad D yn darparu Arolwg Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

- Mae Atodiad E yn darparu Arolwg Derbynwyr Grantiau’r Gronfa Gweithwyr Llawrydd.
- Mae Atodiad F yn darparu’r Canllaw Trafod i Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol.
- Mae Atodiad G yn darparu’r Canllaw Trafod i Dderbynwyr Grantiau’r Gronfa Gweithwyr Llawrydd.
- Mae Atodiad H yn rhoi trosolwg o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

## 2. Methodoleg

2.0 Defnyddiodd y tîm gwerthuso ddulliau cymysg er mwyn adolygu agweddau ar broses a chyflawni'r gronfa yn ogystal â'i heffaith ar sefydliadau ac unigolion a gefnogwyd. Mae hyn wedi bod yn sail i asesiad o'r graddau y mae nodau craidd y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi'u bodloni, sef gwella gallu busnesau i oroesi a diogelu swyddi. Dyluniwyd y gwerthusiad hefyd i nodi unrhyw effeithiau, arloesi a newid trawsnewidiol ehangach ac annisgwyl.

2.1 Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng Ebrill 2021 ac Ebrill 2022 ac roedd yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol, wedi'u cytuno â Llywodraeth Cymru ac wedi'u dewis ar sail eu gallu i roi sylwadau ar gyflawni'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a darparu cyd-destun ehangach i’r heriau sy'n wynebu'r sector diwylliannol ledled Cymru oherwydd y pandemig.
- Adolygiad o ddogfennau polisi a chanllawiau allweddol sy'n sail i gyflawni'r Gronfa a thystiolaeth ehangach a gyhoeddwyd ar effaith y pandemig ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru.
- Dadansoddiad o ddata gweinyddol a monitro sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, gan gynnwys data System Cyfrifon Busnes Gweinyddol Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o holl dderbynwyr grantiau’r Gronfa Gweithwyr Llawrydd a gwybodaeth o System Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Arolwg ar-lein o ymgeiswyr Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, a ddenodd 159 o ymatebion.
- Cyfweliadau manwl â sampl o 213 o dderbynwyr grantiau Cylch 1 a Chylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol.
- Arolwg ar-lein o dderbynwyr grantiau Cylch 1 a Chylch 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, a ddenodd 435 o ymatebion.
- Cyfweliadau manwl â 97 o weithwyr llawrydd a dderbyniodd arian drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, o blith yr ymatebion i'r arolwg ar-lein.

2.2 Caiff trosolwg o'r fethodoleg ei chyflwyno yn yr adran hon ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad A.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

2.3 Cynigiwyd cyfweliadau lled-strwythuredig i 40 o randdeiliaid a chynhaliwyd y rhain ym mis Gorffennaf ac Awst 2021. Roedd modd i 23 o unigolion a sefydliadau roi sylwadau ar gyflawniad ac effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Cyfarwyddwyd y cyfweliadau hyn gan ganllaw trafod sy’n cael ei ddarparu yn Atodiad B a cheir y rhestr o sefydliadau sy’n rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn Atodiad C.

2.4 Oherwydd pandemig COVID-19, cynhaliwyd yr holl weithgarwch ymchwil a chyflwyniadau o bell. Lle cynhaliwyd ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid, gwnaed hyn gan ddefnyddio Microsoft Teams.

**Data gweinyddol a monitro**

2.5 Darparwyd data monitro drwy dair prif ffynhonnell. Mae data sy'n ymwneud â'r gronfa a weinyddir gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru wedi'i gyrchu drwy’r System Cyfrifon Busnes a’r data olrhain achosion sy’n cael ei reoli gan arweinwyr y sector. Daw'r data hwn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr yn y ffurflenni cais. Yn achos y gronfa a weinyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, darparwyd data drwy eu System Rheoli Grantiau. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu gwybodaeth am y dyfarniadau a wnaed gan awdurdodau lleol ar gyfer y Gronfa Gweithwyr Llawrydd gan ddefnyddio templed monitro safonol, a darparwyd hyn i'r tîm gwerthuso.

2.6 Roedd y meysydd data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn ffurflenni cais y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cyd-fynd ond nid oeddent yn gwbl gyson. Mae hyn wedi cyfyngu ar y gallu i gyflwyno sefyllfa ar draws y gronfa yn achos nifer fach o feysydd. Caiff hyn ei gydnabod yn y dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

**Ymatebion i'r arolygon**

2.7 Datblygwyd offer arolygu ar-lein mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Darperir copïau yn Atodiad D ac E.

2.8 Cafodd yr arolwg ar-lein o ymgeiswyr grant y Gronfa Adferiad Diwylliannol ei ddosbarthu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i bob ymgeisydd. Lansiwyd yr arolwg, a anfonwyd i ymgeiswyr Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, ar 29ain Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 1af Medi 2021.

2.9 Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 159 o ymatebion, gan gynnwys 144 o sefydliadau a oedd wedi derbyn dyfarniad a 15 nad oeddent. I roi cyd-destun, gwnaeth 1,195 o sefydliadau gais am gyllid yng Nghylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol; o’r rhain, roedd 59 y cant yn llwyddiannus ac roedd 41 y cant yn aflwyddiannus. Mae'n bwysig nodi bod yr ymatebion i'r arolwg yn cynrychioli cyfran uwch o fusnesau o'r sector Creadigol a’r Celfyddydau o gymharu â’r ceisiadau yn gyffredinol (48 y cant o’r ymatebion i'r arolwg o gymharu â 26 y cant o’r ymgeiswyr) a daeth cyfran lai o’r ymatebion i'r arolwg gan Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (10 y cant o’r ymatebion i’r arolwg o gymharu â 33 y cant o’r ceisiadau). Fel arall, mae'r sampl ar y cyfan yn gynrychioliadol o ran sectorau a daearyddiaeth.

2.10 Cafodd yr arolwg ar-lein o dderbynwyr cyllid y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ei ddosbarthu gan y sawl sy’n arwain o fewn yr awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Lansiwyd yr arolwg, a anfonwyd at dderbynwyr Cylch 1 a Chylch 2, ar 21$^{ain}$ Tachwedd 2021 a daeth i ben ar 4$^{ydd}$ Ionawr 2022. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 435 o ymatebion. Ar sail cyfanswm y nifer unigryw o weithwyr llawrydd sy'n derbyn arian grant, mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 12 y cant yn seiliedig ar 3,783 o weithwyr llawrydd unigryw a gefnogwyd, a derbyniwyd ymatebion o bob ardal awdurdod lleol ar wahân i un (Ynys Môn). Ar wahân i'r diffyg ymatebion o Ynys Môn, roedd pobl 50–64 oed wedi'u gorgynrychioli yn sampl yr arolwg (37 y cant o’r ymatebion i'r arolwg o gymharu â 23 y cant o’r ymgeiswyr) yn ogystal â gweithwyr llawrydd ag anabledd (16 y cant o’r ymatebion i'r arolwg o gymharu â 4.4 y cant o’r ymgeiswyr). Roedd yr arolwg yn gynrychioliadol ar y cyfan o ran sectorau a daearyddiaeth.

2.11 O ystyried y broses weinyddol a ddefnyddiwyd i ledaenu'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd, sef dyrannu arian ar sail y cyntaf i'r felin, ni fu'n bosibl ymgysylltu â gweithwyr llawrydd a oedd yn gymwys i gael cyllid ond na wnaethant dderbyn grant gan nad oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm gwerthuso.

**Cyfweliadau manwl â derbynwyr cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

2.12 Cynhaliodd y tîm gwerthuso gyfweliadau manwl â sampl o 213 o ymgeiswyr llwyddiannus Cylch 1 a Chylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, a chafwyd y manylion cyswllt o ddata'r System Cyfrifon Busnes a system rheoli grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y cyfweliadau hyn yn cael eu llywio gan ganllaw trafod a ddarperir yn Atodiad F.

**Cyfweliadau manwl â derbynwyr cyllid y Gronfa Gweithwyr Llawrydd**

2.13 Defnyddiodd y tîm gwerthuso yr arolwg ar-lein i gael caniatâd gan dderbynwyr cyllid y gronfa i gymryd rhan mewn cyfweliadau manwl. Cysylltodd y tîm gwerthuso â phob unigolyn a roddodd ganiatâd. Cynhaliwyd cyfanswm o 97 o gyfweliadau manwl. O'r herwydd, mae elfen o duedd hunanddewisiad yn sampl y cyfweliadau manwl. Roedd y cyfweliadau hyn yn cael eu llywio gan ganllaw trafod a ddarperir yn Atodiad G.

**Cwmpas a chyfyngiadau'r gwerthusiad**

2.14 Y prif gyfyngiad cydnabyddedig ar y gwerthusiad yw absenoldeb grŵp rheoli o sefydliadau diwylliannol neu weithwyr llawrydd a oedd naill ai heb wneud cais am gyllid drwy'r naill gylch na'r llall o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, neu a oedd heb dderbyn cyllid.

2.15 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau GDPR sy'n llywodraethu'r modd y caiff y gronfa ei gweinyddu, nid yw'r tîm gwerthuso wedi cael mynediad at fanylion cyswllt sefydliadau a wnaeth gais am gyllid ond na dderbyniodd ddyfarniad. O ganlyniad, mae'r sefyllfa wrthffeithiol wedi'i llunio yn seiliedig ar yr adborth gan ymgeiswyr a derbynwyr grantiau a ymatebodd i'r arolygon a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

2.16 O ystyried yr ystod o gronfeydd rhyddhad a chymorth COVID-19 gwahanol sy'n weithredol dros gyfnod y Gronfa Adferiad Diwylliannol, byddai sefydlu gwir sefyllfa wrthffeithiol wedi bod yn heriol iawn a thu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.

2.17 Mae cyfyngiad pellach yn ymwneud â dealltwriaeth o statws sefydliadau a wnaeth gais am gyllid ond na chawsant ddyfarniad, yn enwedig y rheswm dros beidio â dyfarnu grant iddynt. Nid yw'r rheswm hwn wedi'i nodi'n gyson o fewn y system olrhain achosion sy'n cael ei goruchwylio gan arweinwyr sectorau o fewn Llywodraeth Cymru na chan Gyngor Celfyddydau Cymru. O'r herwydd, nid yw'n

bosibl pennu'n union lefel yr angen am gymorth sydd heb ei ddiwallu ar draws y sector diwylliannol yng Nghymru.

2.18 Fodd bynnag, mae adborth gan arweinwyr sectorau wedi nodi y barnwyd bod y sefydliadau hynny na roddwyd dyfarniad iddynt yn anghymwys, a bod rhai wedi'u cyfeirio at gronfeydd eraill fel Cronfa Cadernid Economaidd COVID-19 a oedd yn rhoi cymorth ar ffurf grantiau arian parod i fusnesau, mentrau cymdeithasol, elusennau a busnesau cysylltiedig y gadwyn gyflenwi a wynebodd effaith negyddol sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau parhaus COVID-19.

2.19 Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd gan arweinwyr sectorau o fewn Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod sefydliadau na dderbyniodd ddyfarniad, yn y rhan fwyaf o achosion, heb dderbyn dyfarniad am nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd neu oherwydd materion diwydrwydd dyladwy a amlygwyd yn y broses asesu.

## 3. Effaith COVID-19 ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru

3.0 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o effaith y pandemig ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru. Gan ddefnyddio tystiolaeth ymchwil, adborth gan dderbynwyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ac adolygiad o ffynonellau tystiolaeth eilaidd, mae'n amlinellu'r effeithiau uniongyrchol a thymor canolig ar sefydliadau ac unigolion ar draws y sectorau. Mae hyn yn darparu cyd-destun perthnasol ar gyfer lansio a chyflawni'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ar draws 2020 a 2021.

**Crynodeb o'r llenyddiaeth ar effaith y pandemig**

3.1 Un o nodweddion llechwraidd niferus pandemig COVID-19 fu'r effaith anghymesur ar grwpiau a sectorau penodol yn yr economi. Mae gweithgareddau amrywiol, o berfformiadau byw a chynyrchiadau theatr i arddangosfeydd ac orielau, wedi gweld eu refeniw'n gostwng yn sylweddol wrth i leoliadau gau eu drysau ac wrth i bobl gael eu gwahardd rhag ymgynnull er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Yn ôl data swyddogol, gwelodd diwydiant y celfyddydau ac adloniant yn y DU ostyngiad o 44.5 y cant mewn allbwn cynnyrch domestig gros misol,[5] gan olygu mai dyma un o'r sectorau a gafodd eu taro waethaf gan yr argyfwng.[6]

3.2 Amcangyfrifwyd bod yr effaith ar y diwydiannau creadigol yn unig yng Nghymru yn £100 miliwn ar gyfer 2020.[7] Mae'r sectorau creadigol a diwylliannol hefyd wedi'u nodweddu gan gyfrannau cymharol uwch o ficrofusnesau a gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig, sef y grwpiau cyflogaeth sydd wedi'u taro waethaf gan effeithiau economaidd COVID-19.[8] Mae effaith COVID-19 yn dod wedi i dystiolaeth ddod i'r amlwg o ddibyniaeth gynyddol ar ffrydiau refeniw preifat a allai fod wedi golygu bod sefydliadau a lleoliadau creadigol a diwylliannol yn arbennig o agored i golli incwm yn sgil y pandemig.[9] Yng nghyd-destun Cymru, mae'r canfyddiadau hyn yn peri pryder. Mae'r diwydiannau creadigol a'r sectorau diwylliannol yn chwarae rhan

---

[5] Yn ôl y gwerth gros a ychwanegwyd yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2020 o gymharu â'r tri mis blaenorol.
[6] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Monthly gross domestic product by gross value added', 12 Awst 2020. Noder: Dylid darllen yr ystadegau yn unol â'r cafeatau a ddarperir yn y set ddata wreiddiol.
[7] Oxford Economics (16 Gorffennaf 2020) *The Projected Economic Impact of COVID-19 on the UK Creative Industries, tudalen 21.*
[8] Ibid.
[9] Arts Index (2020), cyhoeddwyd gan The National Campaign for the Arts (NCA).

gynyddol bwysig yn economi Cymru, gan gyfrannu tua £1.5 biliwn[10] a 85,000 o swyddi bob blwyddyn.[11]

3.3 Roedd adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith y pandemig ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru[12] yn cydnabod bod yr effeithiau sydyn a niweidiol wedi eu teimlo nid yn unig gan y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ond ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, fel trydanwyr, seiri coed, artistiaid gwallt a cholur ac eraill sy'n gweithio o brosiect i brosiect.

3.4 Mae cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar ffrydiau incwm masnachol ar draws y sector. Yn y sectorau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau, roedd adroddiad pellach gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu[13] yn amcangyfrif bod diffyg yn y gyllideb o £200 miliwn ar draws yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi colli tua £600,000 mewn incwm masnachol yn ystod 2020-2021 a bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi colli £1.8 miliwn. Mae'r adroddiad yn amlinellu bod llawer o gyllidwyr yn y sector wedi dewis blaenoriaethu sefydliadau nad ydynt yn derbyn cyllid gan y llywodraeth, gan waethygu'r pwysau ariannol ar lawer o sefydliadau diwylliannol cenedlaethol.

3.5 Mae adroddiad y Pwyllgor hefyd yn nodi bod yr argyfwng ynghylch llif arian sy'n deillio o'r pandemig wedi taro'n anghymesur ar sefydliadau sy'n dibynnu fwyaf ar incwm a enillir, sydd fel arfer yn sefydliadau llai, ac yn aml yn annibynnol, fel yn y sector amgueddfeydd.

3.6 Yn ôl arolwg yr Elusen Ffilm a Theledu, nid oedd 93 y cant o weithwyr llawrydd y diwydiant yng Nghymru yn gweithio oherwydd yr argyfwng ac nid oedd 74 y cant yn disgwyl cael unrhyw gymorth gan nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) a'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS).[14]

3.7 Mae effaith negyddol y pandemig wedi parhau y tu hwnt i godi cyfyngiadau'r cyfnod clo, gyda dylanwadau ar hyder defnyddwyr i ddychwelyd i leoliadau a

---

10 DCMS Sectors Economic Estimates 2018: Regional GVA.
11 DCMS Sectors Economic Estimates 2019: Employment.
12 Senedd Cymru (2020)- 'Effaith yr achosion COVID-19 ar y diwydiannau creadigol.' Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Gorffennaf 2020.
13 Senedd Cymru (2020)- 'Effaith yr achosion COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau.' Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Awst 2020.
14 Senedd Cymru (2020)- 'Effaith yr achosion COVID-19 ar y diwydiannau creadigol.' Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Gorffennaf 2020.

digwyddiadau, yn ogystal â chyfyngiadau ar gapasiti cynulleidfaoedd sy'n cyfyngu ar ffrydiau refeniw. Er enghraifft, nododd Sefydliad yr Ymgynghorwyr Theatr fod rheolau ymbellhau cymdeithasol wedi lleihau capasiti theatrau yn sylweddol, lawer is na'r lefelau a fyddai'n golygu y byddai ailagor theatrau yn hyfyw yn economaidd mewn llawer o achosion.[15]

3.8 Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Croeso Cymru ddiwedd 2020 a oedd yn archwilio effaith y pandemig ar y diwydiant digwyddiadau[16] roedd angen i 75 y cant o fusnesau a ymatebodd i arolwg o’r sector,[17] ac sy'n cyflogi staff, roi staff ar ffyrlo. Mae tua hanner (52 y cant) sy'n cyflogi staff naill ai wedi gwneud diswyddiadau, wedi rhoi rhybudd o ddiswyddiadau neu'n bwriadu gwneud diswyddiadau, neu'n rhagweld gorfod gwneud diswyddiadau. Mae tua 58 y cant heb gyflogi gweithwyr dros dro neu wedi cyflogi llai o weithwyr dros dro o gymharu â'r arfer, ac mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar fywoliaeth gweithwyr llawrydd creadigol. Mae tua hanner (48 y cant) y rhai sydd wedi colli refeniw wedi colli dros 80 y cant o'u trosiant blynyddol.

3.9 Mewn adroddiad gan The Audience Agency ar yr heriau sy'n wynebu sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru mewn ymateb i COVID-19, tynnwyd sylw at sawl her, sy'n awgrymu y gallai adferiad y sector fod yn arafach yng Nghymru nag ar draws y DU.[18] Maent yn seilio hyn ar y ffaith bod lefelau ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant wedi gostwng ymhellach yng Nghymru ers mis Mawrth 2020 na chyfartaledd y DU a bod cyfran is o bobl yn dweud eu bod yn barod i ddechrau mynychu'n bersonol na chyfartaledd y DU.[19]

3.10 Mewn cyhoeddiad diweddar gan y Ganolfan Gwerth Diwylliannol[20] nodwyd bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws yn hanfodol i ddiogelu swyddi a bod bron i 70 y cant o sefydliadau celfyddydau perfformio a gweledol wedi nodi bod

[15] Ibid.
[16] Croeso Cymru (2020)- ‘Arolwg o’r effeithiau ar y diwydiant digwyddiadau a busnesau yn y gadwyn gyflenwi COVID-19: 12 Tachwedd i 8 Rhagfyr’.
[17] Arolwg ar-lein gyda busnesau yng Nghymru sy’n gweithio yn y diwydiant digwyddiadau a’r gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer digwyddiadau, a gynhaliwyd rhwng 12 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2020.
[18] Gweler ymchwil The Audience Agency.
[19] Dim ond 21 y cant o bobl Cymru oedd wedi mynd i unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol/treftadaeth ers mis Mawrth 2020. Roedd hyn lawer yn is na chyfartaledd cyffredinol y DU o 34 y cant, gan adlewyrchu’r ffaith nad oedd cyfyngiadau wedi’u codi i’r un graddau yng Nghymru o gymharu ag â lleoedd eraill. Roedd yr ymgysylltiad is hwn yn arbennig o wir yn achos safleoedd treftadaeth.
[20] Brook, O. O’Brien, D. ac M. Taylor (2022)- ‘Covid, furlough and creative businesses.’ Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol.

ganddynt staff ar ffyrlo ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau allweddol ar draws y diwydiannau creadigol, lle mae gan sectorau fel cyhoeddi lefelau llawer is o weithwyr ar ffyrlo o gymharu â ffilm a theledu neu'r celfyddydau perfformio. Daw’r awduron i'r casgliad, er bod y nifer uchel o fusnesau creadigol a wnaeth fanteisio ar y cynllun ffyrlo yn awgrymu llwyddiant polisi, y bydd y cymhlethdodau o ran cyflogaeth a gwaith yn y sector creadigol, yn enwedig y niferoedd uchel o weithwyr llawrydd nad oeddent wedi'u diogelu gan y cynllun ffyrlo, yn galw am gymorth penodol wedi'i deilwra yn y dyfodol.

3.11 Roedd ymchwil a gyhoeddwyd gan Caerdydd Creadigol a oedd yn archwilio'r defnydd o'r Cynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig (SEISS) yn amcangyfrif bod 40,000 o weithwyr llawrydd yn gweithio yn niwydiannau creadigol Cymru. Gan ddefnyddio ymatebion i arolwg ar-lein o weithwyr llawrydd y diwydiant creadigol, mae awduron yr adroddiad yn dangos bod 85 y cant wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn busnes, a bod mwyafrif (60 y cant) yn dweud bod eu gwaith wedi sychu'n llwyr.[21]

3.12 Mae'r awduron yn nodi’r ffaith nad yw effaith y pandemig wedi'i chyfyngu i fusnesau llawrydd yr effeithiwyd arnynt, gyda llawer yn profi caledi sylweddol, ond bod effaith hefyd ar yr economi ehangach o nodi bod llawer o weithwyr llawrydd yn ystyried rhoi'r gorau i'r diwydiannau creadigol yn gyfan gwbl, sector a oedd, cyn y pandemig, yn un o'r rhai mwyaf bywiog a chyflymaf ei dwf yn y DU.

3.13 Gyda'i gilydd, mae'r sylfaen dystiolaeth gynyddol ynghylch effaith y pandemig yn amlygu'r effaith negyddol anghymesur y mae wedi'i chael ar y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar sector sydd wedi’i nodweddu gan gyfrannau uwch o ficrofusnesau a gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig, ond hefyd ar gadwyn gyflenwi lawer ehangach. Mae'r effeithiau negyddol hyn wedi parhau y tu hwnt i godi cyfyngiadau iechyd y cyhoedd ledled Cymru, gan amlygu nad yw pob sefydliad yn y sector wedi symud yn llawn i gyfnod adfer ac ailadeiladu, a bod llawer yn dal i wynebu bygythiadau uniongyrchol i'w goroesiad a'u hyfywedd hirdymor.

[21] Caerdydd Creadigol (2020)- ‘Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19: Sut fydd hyn yn helpu gweithwyr llawrydd y diwydiannau creadigol yng Nghymru?’.

**Adborth gan dderbynwyr grantiau**

3.14 Mae adborth gan sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd yr ymgysylltwyd â hwy drwy'r gwerthusiad yn cyflwyno tystiolaeth rymus am yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r sector diwylliannol o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau a bywoliaeth ledled Cymru.

*Sefydliadau diwylliannol*

3.15 Cyfeiriodd sefydliadau diwylliannol sy'n derbyn arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol at effeithiau uniongyrchol a chronnol y pandemig. Roedd yr effeithiau'n amrywio yn dibynnu ar ba sector yr oedd y sefydliad yn gweithredu ynddo a dylanwadwyd arnynt hefyd gan natur eu darpariaeth, strwythur y staff, y defnydd o wirfoddolwyr, sicrwydd y llyfr archebion a ffrydiau incwm.

3.16 Er enghraifft, roedd busnesau sydd â ffocws mwy tymhorol i'w gwaith a'u hincwm a rhai sy'n dibynnu ar ymwelwyr tramor yn profi pwysau gwahanol i fusnesau eraill.

3.17 Wrth i hyd y pandemig ymestyn, lleihaodd gallu llawer o sefydliadau i reoli'r argyfwng, wrth i bryderon gwirioneddol ynghylch goroesi gael eu gwaethygu gan y ffaith nad oedd modd rhagweld pa mor hir y gallai'r cyfyngiadau fod ar waith a'r effaith ar ffrydiau incwm yn y dyfodol. Mewn geiriau eraill, i lawer, nid yn unig yr oedd eu cynlluniau busnes wedi'u gohirio ond roeddent hefyd yn cael eu herio'n fwy sylfaenol o ran eu hyfywedd yn y dyfodol.

3.18 Effeithiodd y pandemig ar bob sefydliad diwylliannol, gan gynnwys y rhai a sefydlwyd yn ddiweddar a allai fod â llai o adnoddau a chronfeydd ariannol wrth gefn i oroesi heb gymorth ariannol.

3.19 Roedd llawer o sefydliadau eisoes wedi buddsoddi adnoddau i ddatblygu digwyddiadau a pherfformiadau ar yr adeg pan darodd y pandemig, a wnaeth gwtogi neu gau eu ffrydiau incwm yn sylweddol gan eu gadael mewn sefyllfa ariannol ansicr.

> 'Roedden ni newydd ddechrau ein gŵyl ffilm ym mis Mawrth ac yn llythrennol wedi cynnal y penwythnos agoriadol. Ar y dydd Mawrth roedd yn rhaid i ni ddod â'r digwyddiad cyfan i ben. Roedden ni wedi gwario'r holl arian ond doedd gennym ni ddim incwm. Roedd hynny'n ein rhoi ni'n ôl yn y man cychwyn, heb arian yn y banc. Gyda sinemâu'n cau ac am fod ar gau am gyfnod hir, doedd

> dim gobaith i ni symud i sefyllfa iachach.' (Derbynnydd cyllid Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Digwyddiadau).

3.20 Lle'r oedd sefydliadau diwylliannol yn defnyddio gweithwyr llawrydd yn rheolaidd (o fewn a thu allan i'r sector diwylliannol), cafodd y cyfleoedd hyn hefyd eu hatal, gan arwain at bryderon ynghylch lefel y cymorth a'r sicrwydd sydd ar gael i'r sector llawrydd a beth y gallai hyn olygu i'r gronfa o weithwyr llawrydd ledled Cymru y tu hwnt i'r pandemig.

> 'Gwnaeth y pandemig a'r cyfyngiadau symud atal y rhan fwyaf o'n hincwm. Rydym yn darparu gwersi cerddoriaeth preifat ac yn darparu gwasanaethau a chymorth cerddoriaeth i gynyrchiadau byw, a gwnaeth y rhain ddod i ben yn llwyr. Fi yw unig gyflogai'r busnes. Gweithwyr llawrydd yw'r rhan fwyaf o'n staff.' (Derbynnydd cyllid Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Diwylliant a Chreadigol: Y Gadwyn Gyflenwi)

3.21 Gwerthfawrogwyd y ffaith bod cyllid brys wedi'i ddarparu yn fuan ar ôl cyflwyno mesurau iechyd y cyhoedd ym mis Mawrth 2020, er bod ehangder y sector diwylliannol, sy'n cwmpasu ystod o is-sectorau ac yn cynnwys sefydliadau o wahanol feintiau a statws cyfreithiol, wedi creu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cymhwysedd. I lawer o sefydliadau, roedd hyn yn gwaethygu'r pryderon. Roedd cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, er ei fod yn cael ei groesawu, wedi creu rhai heriau cychwynnol o ran capasiti i sefydliadau a oedd yn ceisio cyflwyno ceisiadau i nifer o ffynonellau ariannu.

3.22 Yr hyn sy'n amlwg yn yr adborth gan sefydliadau diwylliannol yw gwir gost ddynol yr effaith. Y tu ôl i bob busnes a sefydliad roedd tîm o staff, contractwyr a gwirfoddolwyr a oedd yn ei chael yn anodd ymdrin â goblygiadau'r pandemig i'w gwaith tra hefyd yn cydbwyso hynny â'u bywydau personol.

3.23 Mae llywio'r gwahanol ganllawiau iechyd y cyhoedd, gofynion cyfreithiol, amodau ariannu ynghyd â rheoli ymrwymiadau nad ydynt yn ymwneud â gwaith fel gofal plant neu chynorthwyo perthnasau a warchodir wedi rhoi pwysau sylweddol ar y sector. Mae hyn yn gyd-destun pwysig i ddeall y sector a'r tirlun cymdeithasol y lansiwyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol iddo a lefel y gorflinder sy'n amlwg wrth i'r DU symud ymlaen yn araf o ran waethaf y pandemig i gyfnod o adfer.

*Gweithwyr llawrydd*

3.24 Arweiniodd y cyfyngiadau a gyflwynwyd ledled Cymru er mwyn rheoli lledaeniad ac effaith y pandemig naill ai at ganslo neu ohirio gwaith a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr llawrydd. Gyda lleoliadau ar gau, cyfyngiadau ar bobl yn ymgynnull ac ansicrwydd sylweddol ynghylch unrhyw amserlen ar gyfer ailagor yr economi a'r gymdeithas ehangach yn raddol, roedd llawer o weithwyr llawrydd yn wynebu gostyngiad trychinebus yn eu henillion a'u hincwm.

3.25 Mae'r amrywiaeth o waith a rolau llawrydd ar draws y sector diwylliannol wedi golygu bod yr effeithiau'n wahanol i weithwyr llawrydd unigol, yn aml yn dibynnu ar nifer y contractau a oedd ganddynt, yr is-sectorau penodol yr oeddent yn gweithredu ynddynt a'u sefyllfa fasnachu neu lif arian ar yr adeg y tarodd y pandemig.

3.26 Yn achos gweithwyr llawrydd sydd â gorbenion fel rhentu gofod stiwdio neu gytundebau prydlesu ar gyfer offer, roedd y gostyngiad yn eu hincwm yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod eu gwariant yn parhau, ac roedd hynny'n erydu eu cynilion ac yn gwthio llawer tuag at fethdaliad.

3.27 Siaradodd gweithwyr llawrydd am gymryd camau i fynd ati i chwilio am waith y tu allan i'r sector er mwyn sicrhau y gallent oroesi. Fodd bynnag, i'r rhai â chyfrifoldebau gofal, roedd y ffaith bod ysgolion wedi cau a bod angen addysgu gartref a bod llawer o wasanaethau seibiant wedi cau yn golygu eu bod yn gorfod ymdopi ag ymrwymiadau gofal yn ychwanegol at fod ar gael i weithio.

3.28 Gyda'i gilydd, mae'r adborth gan sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd ledled Cymru yn dangos difrifoldeb yr heriau a oedd yn wynebu'r sector. Gwnaeth y pandemig atal ffrydiau incwm ar unwaith, gan olygu hefyd bod llawer o sefydliadau a gweithwyr llawrydd yn cwestiynu hyfywedd eu gwaith o ystyried ansicrwydd ynghylch y galw yn y dyfodol a hyd unrhyw gyfnod adfer neu ailadeiladu. Roedd llawer yn ystyried bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn bont, ac yn helpu derbynwyr grantiau i lywio eu ffordd drwy gyfnod gwaethaf y pandemig i bwynt lle gallai amodau masnachu a gweithredu cymharol normal ailddechrau.

**Meysydd Cymorth y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

3.29 Mae'r sectorau diwylliannol a chreadigol yn ymestyn ar draws ac yn effeithio ar sawl agwedd ar fywyd Cymru. Mae'r rhannau o'r sector sy'n gymwys ar gyfer y gronfa wedi cynnwys lleoliadau cerddoriaeth, sefydliadau a safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, y celfyddydau, sinemâu annibynnol, a digwyddiadau a chyflenwyr. Mae'r sector yn bennaf yn cynnwys elusennau, cwmnïau buddiannau cymunedol, mentrau cymdeithasol a gweithwyr llawrydd sy'n cyflwyno deinameg ychwanegol o ran deall y pwysau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â rheoli'r pandemig.

3.30 Ar ddechrau'r pandemig ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth gwerth £18m. Roedd hyn yn cynnwys: Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau gwerth £7.1m dan arweiniad Cyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol; cronfa Cymru Greadigol gwerth £1.3m ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad a'r sector teledu; y Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol gwerth £1m ar gyfer amgueddfeydd, casgliadau, gwasanaethau cadwraeth a llyfrgelloedd; y Gronfa Cymorth Brys gwerth £750k i gynorthwyo sefydliadau dan arweiniad Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru a Chwaraeon Cymru; a'r £250k ar gyfer Adnoddau Llyfrgell Digidol. Mae'r cronfeydd hyn y tu allan i gwmpas y gwaith dadansoddi ar gyfer y gwerthusiad hwn.

3.31 Hyd at gyhoeddi'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, o Lywodraeth y DU y daeth y prif ffynonellau cymorth, ar ffurf y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS). Roed cyllid hefyd ar gael i gefnogi busnesau a sefydliadau, gan gynnwys ar gyfer rhannau o'r sector diwylliant, gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd.

3.32 Ar 5ed Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn o £1.57 biliwn i ddiogelu sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth ledled y DU. Yn dilyn hyn, ar 30ain Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Adferiad Diwylliannol, cronfa gwerth £53m i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ymdrin ag effaith pandemig y coronafeirws. Mae tair elfen o gymorth i'r gronfa:

- Cronfa Adferiad Diwylliannol sy'n cael ei chyflawni gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae'r cymorth hwn ar gael i sefydliadau creadigol, sefydliadau diwylliannol, digwyddiadau a'u cyflenwyr technegol, a sefydliadau treftadaeth.

- Derbyniodd Cyngor Celfyddydau Cymru arian i ddarparu cymorth tebyg i sefydliadau sy'n gweithredu yn nisgyblaethau cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfunol, a chelf ddigidol.
- Crëwyd Cronfa Gweithwyr Llawrydd bwrpasol hefyd i gynorthwyo unigolion yn y sector yr effeithiodd y pandemig arnynt. Mae'r gronfa'n agored i weithwyr llawrydd yn is-sectorau'r celfyddydau, y diwydiannau creadigol, digwyddiadau celfyddydol a threftadaeth, diwylliant a threftadaeth, y mae i’w gwaith ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol. Gweinyddwyd hyn drwy awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.33 Ar 11eg Tachwedd 2020, oherwydd y galw mawr am y cymorth ariannol ar draws y sector celfyddydol a diwylliannol a'r pwysau parhaus yn ymwneud â'r pandemig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £10.7m arall o gymorth ariannol i sefydliadau ac unigolion. Roedd y cyhoeddiad hwn yn golygu bod cyfanswm y pecyn ariannu a oedd ar gael drwy’r Gronfa Adferiad Diwylliannol ar y pryd yn £63.7m.

3.34 I gydnabod yr heriau parhaus a oedd yn wynebu llawer o sefydliadau, ym mis Ionawr 2022 cyhoeddwyd cronfa arall o £15.4 miliwn i gefnogi sectorau celfyddydol a diwylliannol Cymru, fel rhan o drydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Nod y gronfa yw cefnogi'n benodol y sefydliadau hynny yr effeithiwyd arnynt gan y mesurau Lefel Rhybudd 2 a gyflwynwyd gan Weinidogion ddiwedd Rhagfyr i helpu i reoli lledaeniad cyflym amrywiolyn omicron.[22]

3.35 Mae'r cyllid hefyd yn rhoi cymorth i fusnesau a sefydliadau cymwys nad ydynt wedi cael cymorth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol hyd yma ac sy'n bodloni meini prawf y gronfa.

[22] Gweler cyhoeddiad ariannu Llywodraeth Cymru.

# 4. Dyluniad y gronfa a dulliau cyflawni

4.0 Lansiwyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ym mis Gorffennaf 2020, tua phum mis ar ôl i ysgolion a rhai busnesau yng Nghymru gael eu cau[23] ac i'r achos cyntaf gael ei ganfod yng Nghymru. Roedd yr amserlen arferol ar gyfer dylunio a lansio cronfa bwrpasol i gynorthwyo sector wedi'i chywasgu'n sylweddol gan gydnabod y bygythiad uniongyrchol i swyddi a goroesiad sefydliadau ar draws y sector diwylliannol.

4.1 Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno trosolwg o'r dulliau dylunio a chyflawni a ddefnyddiwyd i weinyddu'r gronfa gan ddefnyddio safbwyntiau staff y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, cyrff sector ac ymgeiswyr grantiau ar draws tair elfen y rhaglen.

**Dyluniad a datblygiad y gronfa**

4.2 Un ystyriaeth wrth ddylunio, datblygu a chyflawni'r Gronfa Adferiad Diwylliannol oedd sicrhau bod cyllid cynorthwyol ar gael cyn gynted â phosibl i sefydliadau cymwys tra'n sicrhau llywodraethu effeithiol a diwydrwydd dyladwy i ddiogelu'r pwrs cyhoeddus ar yr un pryd.

4.3 Ni ddylid bychanu lefel y gwaith oedd ei angen i roi Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar waith ychydig fisoedd yn unig ar ôl dechrau'r pandemig ac mae cyflymder yr ymateb ar draws tair elfen y rhaglen wedi'i gydnabod a'i groesawu'n gyffredinol ar draws y sector. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig hefyd wedi effeithio ar staff sy'n ymwneud â dylunio a gweinyddu'r ffrydiau ariannu.

4.4 Cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth adolygiad mewnol llai manwl[24] o Gylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol i lywio'r gwaith o gyflawni a rheoli unrhyw gylchoedd ariannu'r Gronfa yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad, a oedd yn seiliedig ar weithdy gyda staff cyflawni Llywodraeth Cymru, holiadur a ddosbarthwyd i sampl o dderbynwyr grantiau, ac adborth ychwanegol gan staff cyflawni a rhanddeiliaid, yn canolbwyntio ar archwilio:

[23] Gweler Ymchwil y Senedd: Llinell amser coronafeirws.
[24] Llywodraeth Cymru (2021)- 'Adolygiad Mewnol: Gwersi a Ddysgwyd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol'. 9fed Mawrth 2021.

- A oedd angen i'r polisi aros yr un fath ac a oedd y cymorth yn targedu grwpiau mewn risg yn effeithiol
- A oedd angen diwygiadau i'r broses ymgeisio neu'r meini prawf cymhwysedd a dethol
- Pa agweddau ar y broses a'r llywodraethu sydd wedi gweithio'n dda hyd yma.

4.5 Canfu'r adolygiad fod consensws bod strwythur cyflawni'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn gweithio'n dda a'i fod yn cael ei nodi'n eang bod ymrwymiad ac ymroddiad y timau sy'n ymwneud â chyflawni'r Gronfa yn hanfodol i gyflawni'r cynllun yn effeithiol. Ni argymhellwyd unrhyw newidiadau nodedig er y nodwyd meysydd i'w gwella yn y broses er mwyn lleddfu'r pwysau yn sgil pa mor gyflym yr oedd angen gwneud penderfyniadau yn ogystal â chaniatáu amser i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid cyn i'r cynllun gael ei gyflawni.

4.6 O ystyried y ffrydiau ariannu cymorth a rhyddhad COVID-19 niferus a oedd yn gweithredu ar yr un pryd ar wahanol gamau drwy gydol y pandemig, un o'r heriau ar draws y tri maes oedd sicrhau bod cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cyd-fynd â chronfeydd eraill a bod dyblygu'n cael ei osgoi. Drwy'r broses ymgeisio, rhannwyd y cyfrifoldeb am hyn rhwng staff cyflawni a oedd yn ymwneud â'r broses asesu a'r sefydliadau a oedd yn ymgeisio yn eu datganiad (yn eu cais cychwynnol ac yna yn eu hadroddiadau cwblhau).

4.7 Mae adolygiad o'r system gwybodaeth reoli olrhain achosion a ddefnyddir gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Chyngor Celfyddydau Cymru yn dangos y gwiriadau gweinyddu, asesu a chymhwysedd aml-gam a ddefnyddir, gan gynnwys croesgyfeirio â Thŷ'r Cwmnïau a CIFAS,[25] cyn yr argymhelliad terfynol yn ystod y cam cymeradwyo a fyddai'n arwain at gynnig arian i'r ymgeiswyr.

4.8 O'r dadansoddiad o'r system gwybodaeth reoli a oedd wedi'i chyfuno ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, mae'n amlwg bod cyfran o'r ceisiadau heb gael eu symud ymlaen drwy'r broses asesu a chymeradwyo oherwydd eu bod yn anghymwys.

[25] CIFAS yw'r sefydliad rhannu twyll traws-sector mwyaf yn y DU.

4.9 Derbyniwyd cyfanswm o 2,103 o geisiadau ar draws y ddau gylch ariannu, ar gyfer meysydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a dyfarnwyd cyllid i 1,211 (60 y cant) ohonynt.

4.10 Mae hyn nid yn unig yn dangos effeithiolrwydd y prosesau gweinyddu ac asesu o ran sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at sefydliadau cymwys sydd â'r anghenion cymorth mwyaf, ond hefyd y nifer fawr o geisiadau yr oedd angen eu hadolygu fel rhan o'r broses asesu a diwydrwydd dyladwy aml-gam.

4.11 Er nad yw'r system gwybodaeth reoli olrhain achosion yn galluogi asesiad llawn a chyson i ble y cyfeiriwyd ceisiadau na ddyfarnwyd arian iddynt, mae adborth gan arweinwyr y sector yn awgrymu bod llawer wedi'u hailgyfeirio tuag at ffynonellau cyllid eraill y byddent yn gymwys ar eu cyfer gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd neu'r Grant Ardrethi Busnes. Digwyddodd y broses hon i'r gwrthwyneb hefyd, gyda rhai sefydliadau'n cael eu hailgyfeirio i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol o ffynonellau ariannu eraill, gan ddangos bod yno groesgyfeirio pwysig i gefnogi ymdrechion i gyfeirio'r adnoddau cywir i'r sefydliadau cywir mewn modd hwylus.

4.12 Mae'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r Gronfa wedi galw am sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwneud yn siŵr y gellir darparu cymorth yn gyflym o ystyried yr argyfwng ariannol sy'n wynebu llawer o sefydliadau tra'n diogelu'r pwrs cyhoeddus ar yr un pryd. Mae cyflawni hyn, ynghyd â sicrhau bod y ffurflen gais a'r broses yn parhau i fod mor ysgafn â phosibl, wedi golygu bod angen ymagwedd bragmatig gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Chyngor Celfyddydau Cymru.

4.13 Roedd ceisiadau'n cael eu cyfeirio at y timau sector perthnasol i'w hadolygu a'u hasesu. Roedd hyn yn galluogi i'r broses elwa o arbenigedd a gwybodaeth y tîm perthnasol am y sector, gan lywio'r camau penderfynu a dyfarnu dilynol.

4.14 Er y bu meysydd bach o anghysondeb yn y ffordd y mae'r broses asesu a chymeradwyo wedi gweithredu o fewn y timau sector a rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, priodolwyd y rhain yn bennaf i wahanol lefelau o gapasiti staff, nifer y ceisiadau a natur a chyfansoddiad y sefydliadau a oedd yn ymgeisio ar draws y gwahanol sectorau creadigol a diwylliannol.

4.15 Bu'r cronfeydd yn destun archwiliad mewnol ac nid oes unrhyw faterion wedi'u codi, er nad yw Llywodraeth Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r adroddiadau cwblhau a gyflwynwyd gan dderbynwyr grantiau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**Hyrwyddo’r gronfa a’i chyrhaeddiad**

*Sefydliadau diwylliannol*

4.16 Mae ymatebion i'r arolwg ar-lein o ymgeiswyr yn dangos bod y Gronfa wedi'i hyrwyddo drwy amrywiaeth o sianeli ac nad oedd yn dibynnu ar un llwybr. Er bod bron i draean (29 y cant) o'r ymgeiswyr wedi nodi eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r Gronfa drwy grŵp aelodaeth neu gysylltiad, sianelu allweddol eraill oedd cael gwybod ar lafar (26 y cant) a thrwy ohebiaeth gan eu hawdurdod lleol (25 y cant).

4.17 Mewn ymateb i ddatganiad ynghylch y Gronfa'n cael ei hyrwyddo'n dda a bod sefydliadau'n cael gwybod amdani'n brydlon, rhoddodd ymatebwyr yr arolwg gyfartaledd o 3.8 allan o 5 (lle mae 1 yn golygu anghytuno'n gryf a 5 yn golygu cytuno'n gryf). Dim ond cyfran fach (15 y cant) o ymatebwyr yr arolwg oedd yn anghytuno â'r datganiad (gan roi sgôr o 1 neu 2). Derbyniodd y gwiriwr cymhwysedd ar-lein, sy'n offeryn i helpu sefydliadau i ddarganfod a ydynt yn gymwys i gael cymorth, sgôr gyfartalog o 4 allan o 5, gan ddangos bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn teimlo ei fod yn glir ac yn ddefnyddiol.

4.18 O ystyried pwysigrwydd ymateb yn gyflym i'r pandemig a dosbarthu cyllid i gefnogi sefydliadau diwylliannol ledled Cymru, mae'r ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod y Gronfa'n cael ei hyrwyddo'n effeithiol drwy ddull cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, cyrff seilwaith diwylliannol neu grwpiau aelodaeth (e.e. Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru), awdurdodau lleol ac ar lafar ar draws y sector.

4.19 Mae hyn yn gyson â'r adborth a ddarparwyd drwy'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid gyda'r mwyafrif yn datgan eu bod yn teimlo bod y Gronfa wedi’i hyrwyddo'n dda ac o ganlyniad nid oedd unrhyw dystiolaeth bod nifer sylweddol o sefydliadau cymwys wedi colli allan. Er i randdeiliaid nodi bod pob ymdrech wedi'i gwneud i hyrwyddo'r Gronfa, roedd y pandemig wedi amharu ar rai sianeli cyfathrebu, er enghraifft gan fod staff sefydliadau cymwys wedi’u rhoi ar ffyrlo neu rai o staff awdurdodau lleol yn methu â chael mynediad i'w e-byst gwaith am gyfnod tra'n gweithio o bell.

*Gweithwyr llawrydd*

4.20 Yr ymateb mwyaf cyffredin gan weithwyr llawrydd a ymatebodd i'r arolwg ar-lein oedd eu bod wedi clywed am y gronfa ar lafar (pedwar o bob 10) neu drwy eu hawdurdod lleol (un o bob chwech). Roedd tua un o bob wyth wedi clywed drwy grŵp aelodaeth neu gysylltiad. Fodd bynnag, hyrwyddo'r Gronfa oedd yr agwedd ar y broses ymgeisio a dderbyniodd y sgôr isaf. Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, clywodd cyfran uwch o weithwyr llawrydd am y gronfa drwy gyswllt uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol, gan awgrymu bod yno linellau cyfathrebu eisoes yn eu lle gyda'u cymuned leol o weithwyr llawrydd.

4.21 Dangosodd adborth o gyfweliadau manwl â gweithwyr llawrydd fod tua chwarter (23 y cant) yn ymwybodol o gydweithwyr na allai gael cymorth drwy'r gronfa, naill ai am nad oeddent yn gymwys neu am fod yr arian wedi'i ymrwymo'n llawn erbyn iddynt ddod yn ymwybodol ohono.

4.22 O ganlyniad, roedd gweithwyr llawrydd a oedd wedi derbyn cymorth yn mynegi pryderon bod rhai cydweithwyr wedi wynebu caledi ariannol sylweddol neu wedi'u gorfodi i adael y sector er mwyn dod o hyd i gyflogaeth arall o ganlyniad i hynny.

> 'Doedd cryn dipyn ddim yn gwybod dim amdano... Cefais i wybod drwy e-bost gan Equity, ond roedd llawer yn dal heb gael gwybod amdano hyd yn oed yng Nghylch 3.' (Derbynnydd Grant y Gronfa Gweithwyr Llawrydd 2021)

4.23 Dylai awdurdodau lleol, grwpiau aelodaeth a chyrff sector ymchwilio ymhellach i hyn i ganfod faint o weithwyr llawrydd a allai fod wedi'u colli gan y Gronfa ac sydd wedi gadael y sector. Mae hyn yn bwysig ac mae'n effeithio'n uniongyrchol ar gapasiti gweithwyr llawrydd a gallu llawer o sefydliadau diwylliannol i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig.

### Adborth ar y broses ymgeisio

*Sefydliadau diwylliannol*

4.24 Gofynnwyd i ymgeiswyr y gronfa roi eu barn ar wahanol agweddau ar y broses ymgeisio drwy nodi i ba raddau'r oeddent yn cytuno ag ystod o ddatganiadau (Ffigur 4.1 dros y dudalen). Pa mor brydlon y trosglwyddwyd yr arian grant wnaeth dderbyn y sgôr uchaf, sef 4.3 allan o 5.

**Ffigur 4.1 Sgôr sefydliadau i broses ymgeisio'r gronfa**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2021. N=159

4.25 Y datganiad a dderbyniodd y sgôr isaf oedd y datganiad 'Roedd y rheswm pam nad oedd y cais yn llwyddiannus yn glir ac yn ddealladwy', sy'n awgrymu efallai nad oedd yr adborth gan y timau bob amser mor fanwl ag yr oedd ymgeiswyr aflwyddiannus yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhywfaint o ystumiad yn yr ymatebion gan sefydliadau na ddyfarnwyd arian iddynt ac mae'r sgôr hon yn seiliedig ar ymatebion gan 14 sefydliad yn unig (wyth y cant o gyfanswm yr ymatebion).

4.26 At hynny, mae'r broses adborth yn debygol o fod wedi cael ei heffeithio gan y nifer fawr o geisiadau i'r gronfa ac awydd staff i brosesu ceisiadau cyn gynted ag y gallent.

4.27 Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid yr un farn â'r ymgeiswyr, a'r teimlad yn gyffredinol oedd bod y Gronfa wedi'i dylunio'n dda, ac yn darparu eglurder a mynediad hwylus. Teimlwyd bod cyflymder darparu'r cyllid wedi bod yn gryfder allweddol. At hynny, credwyd bod yr ymgysylltu rhwng y sector, cyrff cyhoeddus a'r Llywodraeth wedi bod yn ganlyniad annisgwyl ond cadarnhaol arall.

> 'Dydw i erioed wedi gweld y sector cyhoeddus yn symud mor gyflym. Gall symud yn gyflym pan fydd yn rhaid iddo wneud hynny. Mae unrhyw lywodraeth neu gorff cyhoeddus yn gwybod bod atebolrwydd yn bwysig [ac o ganlyniad yn symud yn arafach]. Ond dydw i erioed wedi gweld corff cyhoeddus yn symud mor gyflym.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

> 'Rhan anhygoel y cais oedd y ddeialog agored a gawsom gyda'r bobl sy'n gweithio yng Nghronfa Adferiad Diwylliannol Cymru sy'n barod i'n helpu gyda'r ceisiadau yn hytrach na dim ond dweud ie neu na. Dyma fu'r rhan orau o'r profiad.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

4.28 Er bod consensws bod y Gronfa wedi cael ei hyrwyddo'n dda, derbyniodd rhai ymgeiswyr fanylion yn nes at y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau nag ymgeiswyr eraill, ac roedd hynny'n creu pwysau o ran capasiti. Roedd amrywiaeth yr ymgeiswyr hefyd yn golygu bod rhai yn fwy hyderus a phrofiadol wrth wneud cais am gyllid nag eraill. Roedd hyn, ynghyd â'r straen a'r pryder sy'n gysylltiedig â rheoli sefydliadau drwy'r pandemig, yn golygu bod y broses yn llethol i rai beth bynnag fo'u canlyniad.


> 'Roedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn gais heriol i ni fel amgueddfa annibynnol gyda thîm bach. Dim ond am un diwrnod yr wythnos y mae gennym Weinyddwr Cyfrifon, felly yn aml gwelsom nad oeddem yn gallu ymateb yn gyflym i ymholiadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gronfa. Roedd yn llethol iawn ar adegau, yn enwedig gan fy mod ond wedi ymgymryd â rôl reoli yn yr amgueddfa ar ddechrau'r cyfnod cau yn sgil COVID. (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

> 'Mae yna deimlad bod y gronfa wedi'i rhyddhau ychydig yn araf [mewn perthynas â'r] broses ymgeisio ac asesu, a bod angen gormod o wybodaeth, yn aml gan sefydliadau sydd heb lawer o brofiad o wneud cais am gyllid - mae hwn yn fater o ddatblygiad y sector.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

*Gweithwyr llawrydd*

4.29 Gofynnwyd i weithwyr llawrydd a ymatebodd i'r arolwg roi sgôr i agweddau ar y broses ymgeisio ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 5 yn golygu cytuno'n gryf ac 1 yn golygu anghytuno'n gryf). Mae'r canlyniadau'n dangos y gwnaeth gweithwyr llawrydd roi sgoriau uchel i elfennau allweddol o'r broses ymgeisio, gan gynnwys trosglwyddo arian yn brydlon ar ôl dyfarnu (sgôr o 4.5 allan o 5) a chyflymder y penderfyniadau (sgôr o 4.1 allan o 5). Tabl 4.2 isod.

**Ffigur 4.2 Sgôr gweithwyr llawrydd i brosesau ymgeisio'r gronfa**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021 n=435

4.30 Er na chafodd unrhyw agwedd ar y broses ymgeisio sgôr is na 3.3, hyrwyddo'r gronfa oedd y broses a dderbyniodd y sgôr isaf. Lle'r oedd gan weithwyr llawrydd brofiad o wneud cais am gronfeydd cymorth eraill, roeddent o'r farn bod y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn syml ac yn hygyrch o'i chymharu.

4.31 O ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu gweithwyr llawrydd oherwydd y pandemig, mae hyn yn darparu tystiolaeth bod y modd y gweinyddwyd yr arian yn ddigon ymatebol i fynd i'r afael â'r angen uniongyrchol hwn.

> 'Ni allaf ond siarad drosof fy hun, yn bersonol doeddwn i ddim wedi elwa o Grant y Llywodraeth i'r Hunangyflogedig. Roeddwn i'n meddwl bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn dda iawn. Roedd yn ddefnyddiol iawn ei fod wedi dod mewn cyfandaliad fel bod modd meddwl sut roeddech yn mynd i'w wario. Bu'n achubiaeth ym mhob ffordd. Roedd yn gwaredu ychydig o'r pwysau – roedd y straen a'r pryder bryd hynny'n enfawr. Roedd yn beth beiddgar iawn i Lywodraeth Cymru gefnogi gweithwyr llawrydd.' (Ffilm a Theledu, Theatr)

4.32 O ystyried y pwysau ariannol uniongyrchol sy'n wynebu gweithwyr llawrydd, mae trosglwyddo arian yn brydlon wedi bod yn hanfodol i gefnogi bywoliaeth ac amddiffyn unigolion rhag caledi.

4.33 Er bod proses ymgeisio'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn cael ei hystyried yn fwy syml na'r rhai ar gyfer cronfeydd cymorth eraill, nododd bron i un o bob pedwar gweithiwr llawrydd (23 y cant) fod cael ffurflen gais haws i'w chyflwyno yn un o'r


gwelliannau y byddent yn eu hawgrymu ar gyfer y broses ymgeisio (Ffigur 4.3 dros y dudalen). Awgrymodd un o bob 10 gweithiwr llawrydd hefyd y byddai cael meini prawf cymhwysedd cliriach wedi bod o gymorth.

4.34 Dywedodd sawl gweithiwr llawrydd fod angen iddynt ddwyn ynghyd ystod o wybodaeth ar gyfer eu cais ond nad oedd y system ar-lein yn eu galluogi i gadw cais wedi'i gwblhau'n rhannol a dychwelyd ato yn ddiweddarach. Effeithiodd hyn yn arbennig ar gylch cyntaf y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ac aed i'r afael â materion technegol erbyn yr ail gylch.

> 'Roedd angen dod o hyd i lawer o waith papur ac wrth wneud hynny doedd dim modd i chi gadw'r gwaith a dod yn ôl ato... felly byddai opsiwn cadw yn ddefnyddiol.' (Cerddoriaeth)

4.35 Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol nodi nad oedd gan un o bob pum gweithiwr llawrydd a dderbyniodd grant unrhyw welliannau i'w hawgrymu i'r gronfa gan eu bod yn fodlon ar y broses ymgeisio a gweinyddu.

**Ffigur 4.3 Awgrymiadau o welliannau i broses ymgeisio'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=160

## Cymhwysedd

*Sefydliadau diwylliannol*

4.36 Roedd y rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid yn canmol y gwiriwr cymhwysedd am ei hygyrchedd a'i hwylustod. Adlewyrchwyd hyn yn fras gan yr ymgeiswyr a oedd yn cytuno bod y meini prawf cymhwysedd yn glir ac yn hawdd eu deall. Roedd canllawiau pellach ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru a chyrff sector perthnasol yn ôl yr angen, a chydnabuwyd eu bod yn creu pwysau capasiti ar staff a oedd yn gweinyddu'r cynllun ac yn cefnogi sector penodol.

4.37 Awgrymodd y rhanddeiliaid fod y Gronfa yn ddigon hyblyg i alluogi sefydliadau i gael gafael ar yr arian yr oedd ei angen arnynt. Er hynny, cyfeiriodd sawl un at wendidau yn y sector a diffyg gallu gweinyddol a phrofiad llawer o sefydliadau o ran ymwneud â'r llywodraeth neu geisiadau am gyllid. Gallai hyn fod yn cael ei waethygu ymhellach hefyd gan y cyfrannau uchel o ficrofusnesau sydd yn y sector diwylliannol yng Nghymru.

4.38 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod angen meini prawf cymhwysedd cliriach, er bod y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â Chylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ac aed i’r afael â’r rhain wedyn erbyn Cylch 2 i gydnabod rhai is-sectorau nad oeddent yn gymwys i gael cymorth pan lansiwyd y gronfa i ddechrau. Er enghraifft, cafodd busnesau'r gadwyn gyflenwi yn y sectorau celfyddydol a chreadigol eu cynnwys yn ail gylch ariannu’r Gronfa Adferiad Diwylliannol a chafodd gweithwyr llawrydd o'r diwydiannau priodasau a digwyddiadau eu cynnwys yng Nghylch 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd (gweler Atodiad H i gael rhagor o fanylion am feini prawf cymhwysedd Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol).

4.39 Mae hyn, ynghyd ag adborth gan gyrff sector, yn awgrymu mai ychydig iawn o sefydliadau diwylliannol a fethodd â derbyn y cymorth a oedd ar gael drwy’r Gronfa Adferiad Diwylliannol ac, ar yr un pryd, bod y meini prawf cymhwysedd ynghyd â'r broses asesu wedi cyfyngu ar ddyblygu darpariaeth cynlluniau cymorth eraill a’r perygl bod y gronfa’n agored i dwyll.

4.40 Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr elfennau o gyd-ddibyniaeth sydd rhwng y sector diwylliannol a sectorau eraill y mae eu gwaith yn cynorthwyo ac yn galluogi llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol i fynd rhagddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, diogelwch, logisteg, trafnidiaeth a manwerthu.

> 'Mae’r pandemig a chyflawni’r Gronfa wedi amlygu’r rhyng-gysylltiadau sydd rhwng gwahanol sefydliadau diwylliannol yn ogystal â lle diwylliant yn yr economi, mewn cadwyni cyflenwi ac mewn cynlluniau adfywio.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

4.41 O'r herwydd, mae effeithiolrwydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol o ran galluogi'r sectorau creadigol a diwylliannol i oroesi ac adfer o'r pandemig yn dibynnu ar oroesiad ac adferiad ystod lawer ehangach o sefydliadau nad ydynt wedi bod yn gymwys i gael grantiau drwy'r Gronfa. Er bod cyflenwyr digwyddiadau yn gymwys i gael arian ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, nid oedd busnesau’r gadwyn gyflenwi ddiwylliannol a chreadigol yn gymwys yng Nghylch 1 y Gronfa. Nodwyd hyn fel bwlch yng Nghylch 1 y Gronfa a chymerwyd camau dilynol i ehangu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer busnesau'r gadwyn gyflenwi yng Nghylch 2.

4.42 Mae dadansoddiad o ddata’r System Cyfrifon Busnes a thaenlenni Olrhain Achosion arweinwyr sector yn dangos mai’r rheswm pam na ddyfarnwyd arian i’r rhan fwyaf (90 y cant) o’r ceisiadau aflwyddiannus oedd am nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Yn y set ddata, roedd rhesymau eraill dros wrthod ceisiadau yn cynnwys dyblygu, bod yr ymgeisydd wedi tynnu’r cais yn ôl, a bod yna amheuaeth o dwyll.

4.43 Yng Nghylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, roedd achosion hefyd lle aseswyd nad oedd angen yr arian, er enghraifft oherwydd bod gan y sefydliad sy'n ymgeisio lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, trosiant iach, gostyngiad cymharol lai yn eu trosiant oherwydd y pandemig neu am eu bod eisoes wedi derbyn cyllid grant sylweddol.

*Gweithwyr llawrydd*

4.44 Er bod ymatebion i'r arolwg a chyfweliadau'n dangos bod gweithwyr llawrydd yn fodlon ar y cyfan â'r meini prawf cymhwysedd, a llawer ohonynt heb awgrymu unrhyw newidiadau, y prif faes lle awgrymwyd newidiadau oedd dull y cyntaf i’r felin

a ddefnyddiwyd, dull yr ystyriwyd ei fod yn achosi straen ac o bosibl yn golygu nad oedd arian yn cael ei dargedu at weithwyr llawrydd a oedd â'r angen mwyaf am gymorth.

4.45 Er bod y Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi darparu cymorth i'w groesawu, mae dull y cyntaf i'r felin wedi golygu ei bod yn debygol nad yw rhai gweithwyr llawrydd wedi derbyn cymorth, gan waethygu heriau a oedd eisoes yn eu hwynebu yn ymwneud â'u cymhwysedd i gael cymorth drwy gynlluniau eraill gan gynnwys Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS).[26] Ymdriniwyd â'r mater hwn erbyn yr ail gylch ariannu gyda chyllidebau mwy yn cael eu darparu i'r awdurdodau lleol a oedd â'r galw mwyaf yn seiliedig ar y cylch ariannu cyntaf. Roedd hyn yn helpu i sicrhau nad oedd gweithwyr llawrydd yr oedd angen cymorth arnynt yn methu â chael cymorth.

4.46 Gan fod y gronfa'n gallu cefnogi gweithwyr llawrydd amser llawn a rhan-amser a bod yr un grant cyfartal o £2,500 yn cael ei roi yn y ddau achos, roedd rhai gweithwyr llawrydd yn dweud y dylai'r meini prawf cymhwysedd fod wedi ystyried incwm o rolau ar wahân i waith llawrydd.

4.47 Maes arall a godwyd gan nifer fach o weithwyr llawrydd oedd y wybodaeth ariannol oedd ei hangen. Roed rhai'n teimlo nad oedd yn adlewyrchu realiti gwaith yn y sector, ac nad oedd yn cyfrif am lefelau incwm sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn nac amgylchiadau personol unigolyn.

> 'Rwy'n adnabod cyplau priod sy'n gweithio yn y diwydiant felly gallai'r ddau ohonynt hawlio... Rwyf hefyd yn adnabod pobl nad oedd angen iddynt hawlio'r arian hwnnw, mwy na thebyg, gan golygu bod rhywun yr oedd wir angen yr arian arnynt ar eu colled. Rwy'n gwybod bod y cyfan wedi'i wneud yn eithaf cyflym ond efallai nad oes yno graffu i sicrhau ei fod yn mynd i bobl sydd wir ei angen.' (Ffilm a Theledu, Theatr)

4.48 Mae dadansoddiad o'r data monitro a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar draws dau gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn awgrymu na ddyfarnwyd arian i 18 y cant o'r ceisiadau. Fodd bynnag, nid yw'r manylion am y rheswm dros hyn wedi'u

---

[26] Mae llawer o weithwyr llawrydd, er eu bod yn gweithredu fel gweithwyr llawrydd hunangyflogedig, wedi cofrestru fel Cwmni Cyfyngedig, gan gynnwys Cwmnïau Gwasanaethau Personol, ac felly nid ydynt yn dod o dan Gynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Mae eraill wedi wynebu problemau cymhwysedd am eu bod wedi cychwyn ar yrfa lawrydd yn ddiweddar, neu, fel llawer yn y diwydiannau creadigol, roeddent wedi troi o swydd PAYE i weithio'n llawrydd yn ddiweddar.

cofnodi'n gyson. Byddai hyn yn werthfawr i'w gasglu yng nghyd-destun deall a oedd meini prawf cymhwysedd y gronfa wedi eithrio grwpiau penodol o weithwyr llawrydd rhag cael cymorth.


**Cydweddu â chronfeydd cymorth eraill**

4.49 Roedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn un o nifer o gronfeydd brys a chymorth a ddarparwyd mewn ymateb i'r pandemig. Gofynnwyd i sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd sut oedd rhaglen y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cymharu â grantiau neu gronfeydd eraill oedd ar gael.

*Sefydliadau diwylliannol*

4.50 Mae ymatebion gan sefydliadau diwylliannol a wnaeth dderbyn arian o’r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn amlygu nad oedd ychydig dros draean yn ymwybodol o ba grantiau neu gronfeydd eraill oedd ar gael iddynt ac felly nad oeddent yn gallu gwneud sylwadau (Ffigur 4.4 isod) a theimlai'r un gyfran o ymatebwyr nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y cronfeydd cymorth.

**Ffigur 4.4 Sut oedd y gronfa’n cymharu â grantiau neu gronfeydd eraill oedd ar gael**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=213

4.51 Lle nododd yr ymatebwyr wahaniaethau rhwng y Gronfa Adferiad Diwylliannol a grantiau neu gronfeydd eraill a oedd ar gael, roedd eu hadborth yn gadarnhaol ar y

cyfan. Roedd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr yn y cyfweliadau manwl (26 y cant) yn teimlo bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn symlach na grantiau neu gronfeydd eraill a/neu, fel y nodwyd mewn mannau eraill, bod y cais yn gyflym.

> 'Gyda'r rhan fwyaf o'r grantiau, mae llawer o ganlyniadau y mae'n rhaid i chi eu cyflawni, felly arian wedi’i ddyrannu yw hyn i bob pwrpas. Nid oedd gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol y strwythur cyflawni anhyblyg hwn o'r hyn yr oedd arnoch angen yr arian ei gyfer; roedd yn fwy cyffredinol, a oedd yn dda i ni.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Creadigol)

> 'Roedd yn hawdd cael gafael arno a'i gwblhau, ac roedd y sector cyffredinol yn derbyn gofal da iawn ac roedd hynny'n ei wneud yn wahanol iawn i unrhyw arian arall. Roedd yn llawer llai i wneud â’r agenda, ac yn edrych ar y sector yn ei gyfanrwydd a'r hyn roedd modd inni ei gynnwys yn y cais, er enghraifft, taliad yswiriant, na allech fod wedi'i gael gan gyllidwyr eraill.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant)

4.52 Roedd y derbynwyr grantiau hefyd yn croesawu lefel yr arian a oedd ar gael drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, gan gynnwys y rhai a gafodd gymorth drwy ffynonellau eraill gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS).

> 'Maen nhw [grantiau’r Gronfa Adferiad Diwylliannol] yn fwy o ran maint. Rydym wedi derbyn cyllid gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion, a rhywfaint o gymorth ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Cyn cyflwyno’r Gronfa Adferiad Diwylliannol, roeddem wedi defnyddi ffyrlo hefyd. Y Gronfa Adferiad Diwylliannol yw'r maes grant mwyaf i ni o bell ffordd. Rydym yn ddiolchgar iawn amdano, fyddem ni ddim yn bodoli hebddo.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant)

4.53 Mae dadansoddiad o ddata’r System Cyfrifon Busnes yn dangos bod bron i ddwy ran o dair (63 y cant) o dderbynwyr grant Cylch 1 wedi gwneud cais i gronfeydd eraill, gan godi ychydig ar gyfer Cylch 2 (68 y cant), wrth i sefydliadau diwylliannol gael cyfle pellach i ystyried tirlun y cymorth ariannol a cheisiadau am gymorth i ddiwallu eu hanghenion. I lawer o sefydliadau, y Gronfa Adferiad Diwylliannol oedd yr unig arian y gwnaethant gais amdano. Yn ôl dadansoddiad o ddata’r System Cyfrifon Busnes, roedd ychydig dros hanner ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi gwneud cais i gronfeydd eraill yn y ddau gylch (Tabl 4.1).

**Tabl 4.1 Cyfran yr ymgeiswyr a wnaeth gais i gronfeydd eraill**

| | Pawb a ymgeisiodd | | Pawb a oedd yn llwyddiannus | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol | 1085 | 94% | 400 | 63% |
| Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol | 556 | 64% | 328 | 68% |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

*Gweithwyr llawrydd*

4.54 Dywedodd ychydig dros draean (38 y cant) o'r gweithwyr llawrydd na chawsant unrhyw gymorth gan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (SEISS).[27] Nododd llawer o weithwyr llawrydd naill ai nad oeddent yn gymwys i dderbyn cyllid cymorth arall neu nad oeddent yn ymwybodol ohono. Yn hyn o beth, mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi cefnogi sector a allai fel arall fod wedi disgyn rhwng elfennau eraill o ddarpariaeth cyllid cymorth yn ogystal ag amlygu'r angen am fwy o gydgysylltu i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr llawrydd o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt.

'Dyma'r un gorau oedd ar gael. Dim ond am ddwy flynedd oeddwn i wedi bod yn hunangyflogedig ac nid oedd y cynllun hunangyflogedig yn briodol i mi.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2)

'Roedd yn ymddangos mai dyma'r unig un oedd yn cyfateb yn uniongyrchol i rywun fel fi nad yw'n gwneud rhywbeth sy'n amlwg yn werthadwy'. (Derbynnydd Grant Cylch 2)

4.55 Lle'r oedd gweithwyr llawrydd wedi cael cymorth drwy grantiau a chronfeydd eraill, croesawyd y cymorth ychwanegol a ddarparwyd drwy'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd, yn enwedig y ffaith bod hyn yn cael ei dalu fel grant cyfradd safonol yn hytrach na graddfa symudol yn seiliedig ar lefelau incwm ac elw. Roedd hyn yn helpu i leihau'r straen sy'n gysylltiedig â gwneud cais am gymorth yn ogystal â chyflymu'r broses gyfan. Nodwyd hefyd bod lefel yr arian yn hael a'i fod wedi'i osod ar lefel a fyddai'n helpu i ddiogelu bywoliaeth.

'Rhoddodd Help Musicians grant bach i mi, a rhoddodd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (SEISS) swm bach, ond y Gronfa Adferiad

[27] Ffynhonnell: Data Cronfa Gweithwyr Llawrydd Awdurdodau Lleol; n=1,298

Diwylliannol a roddodd swm hael o arian, ac roedd yn ddefnyddiol iawn.' (Derbynnydd Grant Cylch 1)

**Y Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd**

4.56 Anogwyd sefydliadau a oedd yn gwneud cais i'r Gronfa i ymrwymo i'r Contract Diwylliannol, er mwyn helpu i sicrhau bod y buddsoddiad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio â phwrpas diwylliannol a chymdeithasol. Nod y contract yw cefnogi twf cynhwysol a gwella lles yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol drwy adlewyrchu'r math o ymddygiadau y mae sefydliadau cyfrifol a llwyddiannus yn eu dangos.

4.57 Er enghraifft, mae'r contract wedi'i ddylunio i annog sefydliadau i drawsnewid cyrhaeddiad ac effaith eu gweithgareddau yn y dyfodol, gwella amrywiaeth eu bwrdd rheoli a'u gweithlu, darparu cyfleoedd newydd i artistiaid llawrydd, ymrwymo i gyfraddau cyflog teg, a gwella effaith amgylcheddol yr hyn a wnânt.[28]

4.58 Sefydlwyd Adduned y Gweithwyr Llawrydd gan Lywodraeth Cymru i gydnabod bod gweithwyr llawrydd proffesiynol yn aml yn cymryd rhan weithredol yn eu cymuned, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ystod o nodau lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Y bwriad yw helpu i greu partneriaeth rhwng gweithwyr llawrydd creadigol a chyrff cyhoeddus i gynorthwyo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynorthwyo'r sector cyhoeddus i ysgogi sgiliau allweddol gweithwyr llawrydd yn y sector diwylliannol er mwyn dod â chreadigrwydd a dychymyg i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Nid oedd ymrwymo i Adduned y Gweithwyr Llawrydd yn rhan orfodol o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ac nid oedd yn rhan o'r broses asesu.

4.59 Mynegodd y rhanddeiliaid ddiffyg hyder yn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r Contract Diwylliannol neu Adduned y Gweithwyr Llawrydd. Roedd y rhanddeiliaid hynny a fu’n ymwneud rywfodd â'r gwaith o’u datblygu hefyd yn mynegi, yn gyffredinol, bod yna ddiffyg dealltwriaeth a bod rhai sefydliadau a oedd yn ymrwymo i'r Contract neu'r Adduned yn anymwybodol o'r manylion; gan dybio bod hynny’n rhagofynnol i dderbyn cyllid.

[28] Mae’r Contract Diwylliannol yn cynnwys meysydd fel: gwaith teg, amrywiaeth a chynhwysiant Byrddau Sector; cadw staff i gefnogi mentrau ehangach; presgripsiynu cymdeithasol; cefnogi mentrau iechyd a’r celfyddydau; a chydnerthedd hinsawdd.

'Mae hyn yn galw am lawer iawn o waith... [mae] wedi ein poeni am nad ydym hyd yma wedi gweld rhestr o'r rhai sy’n cael eu cyflogi i wneud gwaith ar dryloywder y contract diwylliannol a byddem wedi hoffi ei weld yn mynd drwy Gyngor y Celfyddydau a'r Llywodraeth, ond rydym yn deall mater capasiti... Roedd dryswch rhwng yr hyn oedd gan Gyngor y Celfyddydau ar eu gwefan a beth oedd gan Lywodraeth Cymru [ar eu gwefan hwy]... Mae'n rhywbeth y mae angen i'r Llywodraeth a Chyngor y Celfyddydau fynd i’r afael ag ef a chynnig eglurder i helpu pobl i deimlo nad mater o dicio blychau ydw, ac [egluro] sut y bydd sefydliadau'n atebol. A ydym yn sôn am wneud symbol ar ei gyfer fel yn achos Masnach Deg?' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

4.60 Er bod rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn cefnogi'r dyheadau y tu ôl i'r Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd, mae adborth wedi amlygu'r angen am fwy o arweiniad a chefnogaeth. Mynegodd sawl ymgeisydd ddryswch ynghylch a oedd ymrwymo i'r Contract neu'r Adduned yn amod ariannu gorfodol ai peidio.

'Er ein bod yn cefnogi'r Contract Diwylliannol, roeddem yn teimlo, ar adeg y Gronfa Adferiad Diwylliannol, bod y cydbwysedd rhwng rheoli argyfwng yn erbyn creu contract cyflawn yn anghywir ac y dylid bod wedi rhoi mwy o amser i'r Contract Diwylliannol ar ôl dyfarnu cyllid, yn hytrach nag yn ystod y broses ymgeisio.' (Ymgeisydd Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

'Daw'r Contract Diwylliannol o le da ac mae ei angen ond mae'r dull cyffredinol o'i gymhwyso yn golygu bod rhai o'r gofynion yn ormodol ar gyfer sefydliadau bach a/neu y byddant yn cael eu cymhwyso mewn ffordd symbolaidd. Byddai mwy o gyngor ar sut y gall sefydliadau bach fodloni gofynion y Contract Diwylliannol yn ddefnyddiol.' (Ymgeisydd Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

4.61 Fodd bynnag, mae'n amlwg mewn adborth gan sefydliadau sydd wedi derbyn arian o’r Gronfa Adferiad Diwylliannol bod y cymorth, ynghyd â manylion y Contract a'i amcanion ehangach, yn dylanwadu ar rai i adolygu eu model busnes a gwneud newidiadau i gefnogi twf cynhwysol, lles ac amcanion amgylcheddol.

'Cawsom amser i edrych ar y busnes a chamu’n ôl a gweld pa newidiadau y gellid eu gwneud er gwell. Gwnaethom ailwampio ein holl ddeunyddiau hyrwyddo a nawr mae popeth yn cael ei wneud o bapur wedi'i ailgylchu. Rydym yn edrych ar ein cadwyni cyflenwi i sicrhau mwy o ffynonellau lleol. Cynyddodd ein hallbwn digidol drwy gyfryngau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol fel y

gallem gysylltu mwy â'r gymuned, a oedd hefyd yn cynnwys cadw cysylltiad â phobl yn ystod y cyfnod clo. (Derbynnydd Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

'Mae dau faes pwysig iawn o'r contract sy'n effeithio arnom ni, sef hyrwyddo lles ac iechyd a'r mentrau eraill sy'n ymwneud â lleihau'r ôl troed carbon, ond rydym yn edrych ar newidiadau a mentrau yn y dyfodol i gynnwys mwy o bobl yn ein gwaith.' (Derbynnydd Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

4.62 Er bod llawer o sefydliadau wedi nodi eu bod eisoes yn gweithredu mewn ffordd a oedd yn gyson â'r amcanion a amlinellwyd yn y Contract Diwylliannol, mae ei ymgorffori yn y rhaglen grantiau wedi rhoi cyfle i rai ailedrych ar eu systemau gweithredol.

'Mae'n bopeth rydyn ni'n ei wneud beth bynnag, ond rydym ni wedi gwneud mwy o ymdrech i gynnwys dysgu Cymraeg ymhlith ein staff.' (Derbynnydd Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

'Roeddem eisoes yn datblygu'r meysydd hynny o'n gwaith beth bynnag ac mae wedi ein gwneud yn fwy ymwybodol. Rydym bob amser yn edrych ar gydbwysedd rhwng y rhywiau a diwylliannau amrywiol a'r Gymraeg, ond rydym bellach yn ei wthio'n fwy.' (Derbynnydd Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

4.63 Mae adborth gan sefydliadau diwylliannol yn amlygu nifer o enghreifftiau o arferion da ar draws y sector, y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i ymgysylltu, ysbrydoli a hysbysu eraill i fabwysiadu'r ymddygiadau dymunol sy’n cael eu cyflwyno yn y Contract. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i'r sector ddychwelyd yn araf i fod yn gwbl weithredol a phan fydd modd cyfeirio capasiti tuag at ddatblygiad sefydliadol yn hytrach na rheoli’r argyfwng uniongyrchol.

4.64 O ran Adduned y Gweithwyr Llawrydd, yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg, dywedodd y mwyafrif (71 y cant) o weithwyr llawrydd a dderbyniodd arian drwy'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd eu bod wedi dewis ei chefnogi.

'Adduned y Gweithwyr Llawrydd; mae pobl wedi ymrwymo iddi, ond dydw i ddim yn credu bod pobl yn gwybod yn iawn beth maen nhw wedi ymrwymo iddo. Os y gwnaethon nhw gofrestru ym mis Hydref y llynedd, byddan nhw'n meddwl ei fod wedi diflannu oherwydd does dim llawer o gyfathrebu yn ei gylch... Aeth yn fwy aneglur.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

4.65 Pan ofynnwyd i’r gweithwyr llawrydd roi sylwadau ar y rhesymeg dros Adduned y Gweithwyr Llawrydd, roedd y rhan fwyaf yn aneglur yn ei gylch neu nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigonol i wneud sylwadau. I weithwyr llawrydd a oedd â gwell dealltwriaeth, roeddent yn aml yn cysylltu'r Adduned ag ymrwymiad i roi yn ôl i'r gymuned ac i gefnogi amcanion polisi ehangach.

> 'Yn ôl a ddeallaf, yn gyfnewid am y cymorth a gefais, byddwn yn cefnogi ymarfer yn yr ardal. Yn hytrach na dim ond cymryd yr arian a chyhoeddi fy mod i’n symud i ran arall o'r wlad, yn gyfnewid amdano byddwn yn cefnogi'r syniad rwyf bob amser wedi'i wneud beth bynnag, sef ymarfer lleol, nid ymarfer eilradd.' (Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau)

> 'Rwyf wedi ymrwymo iddi, ond dydw i ddim wedi clywed mwy amdani. Drwy ei llofnodi, roeddwn i'n teimlo fy mod mewn rhyw ffordd yn ad-dalu'r hyn a roddwyd i mi, felly roeddwn i’n hapus i’w chefnogi ond dydw i ddim yn gwybod mwy na beth i'w wneud a dydw i ddim wedi clywed mwy.' (Cerddoriaeth, Y Celfyddydau Perfformio)

4.66 Lle'r oedd gweithwyr llawrydd yn teimlo eu bod yn gallu gwneud sylwadau am yr Adduned, roedd tua hanner yn ansicr beth roeddent yn disgwyl i'w heffaith fod o’u rhan hwy. I rai, roedd gan yr Adduned y potensial i'w helpu i ddatblygu eu rhwydwaith a chynyddu proffil eu gwaith (a gwaith y sectorau).

4.67 Un effaith a godwyd yn ystod adborth gan rai gweithwyr llawrydd oedd bod yr Adduned wedi gwneud iddynt ystyried canolbwyntio mwy o'u gwaith yng Nghymru, yn benodol i gefnogi arferion cynhwysol mewn cymunedau. Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan weithwyr llawrydd ar gysyniad yr Adduned yn gadarnhaol iawn ac roedd llawer yn canmol Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â hyn.

> 'Rwy'n cytuno â hi ac yn meddwl y dylai mwy o bobl fod yn bwrw ymlaen â'r syniad yma.' (Adloniant)

> 'Os ydych chi'n cael rhywfaint o gymorth, rwy’n credu ei bod yn iawn rhoi rhywbeth yn ôl ac rwy'n cytuno'n llwyr â hi ac yn rhoi yn ôl i'r gymuned leol lle y gallaf.' (Dylunio, Digwyddiadau, Ffotograffiaeth, Cyhoeddi)

4.68 Mae angen arweiniad a chymorth pellach er mwyn gwireddu’r manteision sydd i weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau diwylliannol, gweithwyr llawrydd

creadigol, a chyrff cyhoeddus, a chyflawni amcanion y Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd.

4.69 O ystyried bod adborth gan dderbynwyr y gronfa wedi amlygu’r ffaith bod rhai sefydliadau a gweithwyr llawrydd eisoes wedi cymryd camau ymarferol i ddiwygio eu hymarfer sefydliadol neu broffesiynol i gefnogi'r amcanion twf cynhwysol a llesiant sylfaenol, mae hyn yn awgrymu bod ymgorffori'r Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd ym mhroses ymgeisio’r Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi helpu i godi eu proffil, gan adeiladu rhywfaint o fomentwm a chefnogaeth a all hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r contract a'r Adduned ledled Cymru yn y dyfodol.

## 5. Proffil yr ymgeiswyr a derbynwyr grantiau

5.0 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno manylion am broffil holl ymgeiswyr a derbynwyr grantiau'r rhaglen yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru, System Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru a data Olrhain y Gronfa Gweithwyr Llawrydd a gyflwynwyd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

*Sefydliadau Diwylliannol*

5.1 Ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, roedd cyfanswm o 2,013 o geisiadau, ac roedd cyfanswm o 1,211 o sefydliadau (60 y cant) wedi derbyn cymorth grant (Tabl 5.1). Gwnaed y ceisiadau gan 1,517 o sefydliadau unigol, a chymeradwywyd 871 ohonynt. Gwnaeth tua 503 o fusnesau geisiadau ddwywaith, ac roedd 242 ohonynt wedi derbyn cyllid yn y ddau gylch.

**Tabl 5.1 Cyfanswm nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn ôl Cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

| Cylch | Ymgeisiwyd | Dyfarniadau a Gymeradwywyd | % a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| Cylch 1 | 1,195 | 683 | 57.2% |
| Cylch 2 | 818 | 528 | 64.5% |
| CYFANSWM | 2,013 | 1,211 | 60% |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

5.2 Ar draws Cylch 1 y Gronfa, roedd 49 y cant o geisiadau yn gofyn am gymorth grant o hyd at £10k, roedd 47 y cant yn gofyn am hyd at £150k ac roedd pedwar y cant yn gofyn am dros £500k. Newidiodd y proffil hwn ychydig ar gyfer Cylch 2 y Gronfa, gyda 47 y cant o geisiadau yn gofyn am gymorth o hyd at £10k, 52 y cant o geisiadau yn gofyn am hyd at £150k a dau y cant yn gofyn am hyd at £500k.

5.3 Mae dadansoddiad o gyfran y dyfarniadau a gymeradwywyd yn ôl maint y grant yn dangos bod gan geisiadau am grantiau mwy o faint gyfradd ddyfarnu uwch na grantiau llai ar draws y ddau gylch. Roedd cyfran y dyfarniadau a gymeradwywyd ar gyfer grantiau hyd at £10k wedi cynyddu, gyda chyfradd ddyfarnu uwch yng Nghylch 2 y Gronfa nag yng Nghylch 1 (Tabl 5.2).

**Tabl 5.2 Nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn ôl Cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a maint y grant**

| Cylch | Maint y Grant | Ymgeisiwyd | Dyfarniadau a Gymeradwywyd | % Dyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cylch 1 | Cylch 1 Hyd at £10k | 588 | 251 | 42.7% |
| | Cylch 1 Hyd at £150k | 388 | 244 | 70.8% |
| | Cylch 1 Hyd at £500k | 49 | 37 | 75.5% |
| Cylch 2 | Cylch 2 Hyd at £10k | 382 | 192 | 50.3% |
| | Cylch 2 Hyd at £150k | 426 | 326 | 76.5% |
| | Cylch 2 Hyd at £500k | 10 | 10 | 100% |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

5.4 Dyfarnwyd cyfanswm o £71.6 miliwn ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol o £100.5 miliwn y gwnaed cais amdano gan sefydliadau diwylliannol. Y dyfarniad grant cyfartalog ar gyfer Cylch 1 y Gronfa oedd £39,191, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cylch 2, sef £20,374 (Tabl 5.3)

**Tabl 5.3 Swm y grant yr ymgeisiwyd amdano ac a ddyfarnwyd yn ôl cylch**

| | Ymgeisiwyd amdano | | Dyfarnwyd | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfartaledd | Cyfanswm | Cyfartaledd | Cyfartaledd % a ddyfarnwyd[29] |
| Cylch 1 | £69,513,128.00 | £58,169.98 | £46,834,246.25 | £39,191.84 | 75.4% |
| Cylch 2 | £30,992,909.00 | £37,888.64 | £24,846,093.94 | £30,374.20 | 72.7% |
| Cyfanswm | £100,506,037.00 | £49,928.48 | £71,680,340.19 | £35,608.71346 | 74.0% |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

5.5 Gan adlewyrchu'r cyfrannau uwch o ficrofusnesau yn y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru, dyfarnwyd 90 y cant o'r ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y ddau gylch i ficrofusnesau,[30] gyda saith y cant i fusnesau bach a'r tri y cant sy'n weddill i fusnesau canolig.[31] Mae'r proffil hwn yn gyson ar draws dau Gylch y Gronfa. Roedd microfusnesau yn cyfrif am 70 y cant o gyfanswm yr arian a

[29] Ac eithrio lle'r oedd y cynnig yn fwy na'r cais gwreiddiol.
[30] Mae microfusnes yn cyflogi hyd at naw o bobl, mae gan fusnesau bach 10 i 49 o gyflogeion ac mae busnesau canolig yn cyflogi 50-249 o bobl. Ffynhonnell: Dirnad Economi Cymru (2019)- 'Busnesau canolig eu maint a strwythur busnesau Cymru'.
[31] Yn ymwneud â data'r System Cyfrifon Busnes yn unig ac ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru gasglu data am faint busnesau.

ddyfarnwyd. Dyfarnwyd cyfran uwch o gyllid Cylch 2 y Gronfa i ficrofusnesau o gymharu â Chylch 1 (Tabl 5.4).

**Tabl 5.4 Yr arian a ddyfarnwyd yn ôl maint y busnes**

| | Cylch 1 | | | | Cylch 2 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ceisiadau a gymeradwywyd | % | Arian a gymeradwywyd | % | Ceisiadau a gymeradwywyd | % | Arian a gymeradwywyd | % |
| Micro | 414 | 88% | £16,892,447 | 64% | 344 | 91% | £13,487,287 | 78% |
| Bach | 37 | 8% | £6,488,539 | 25% | 26 | 7% | £3,186,417 | 18% |
| Canolig | 19 | 4% | £3,019,005 | 11% | 6 | 2% | £618,210 | 4% |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

5.6 Mae dadansoddiad o gyfanswm nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn ôl sector diwylliannol yn dangos bod 39 y cant o gyfanswm y buddsoddiad a ddyfarnwyd ar draws y ddau gylch wedi'i ddyfarnu i sefydliadau yn sector y Celfyddydau, ac yna'r sector Digwyddiadau (24 y cant). Sector Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd a gafodd y gyfran isaf o gyfanswm y buddsoddiad ar draws y ddau gylch, sef tri y cant (Tabl 5.5 dros y dudalen).

5.7 Cynyddodd cyfran y cyllid a ddyrannwyd i sefydliadau yn y sector Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi yn sylweddol rhwng y ddau gylch, gan godi o 1.3 y cant yng Nghylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol i 17 y cant yng Nghylch 2, gan adlewyrchu bwlch yn y cymorth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff sector. Mae rhan o'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y cymhwyster ar gyfer Cylch 2 y Gronfa wedi'i ehangu i gynnwys busnesau sy'n darparu gwasanaethau technegol a chymorth i sinemâu annibynnol, lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad a sector y celfyddydau.

5.8 Sector y Celfyddydau a dderbyniodd y dyfarniad cyfartalog uchaf ar draws y ddau gylch, sef £81,640, a'r sector Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yr isaf, sef £29,978. Y sector Digwyddiadau a gyflwynodd y nifer uchaf o geisiadau wedi'u cyfuno ar draws y ddau gylch, sef 691, a'r sector Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yr isaf, sef 110.

### Tabl 5.5 Ceisiadau a dyfarniadau yn ôl sector

| | Ymgeisiwyd | Dyfarnwyd | % a ddyfarnwyd | Cyfanswm a ddyfarnwyd | % o gyfanswm £ a ddyfarnwyd | Cyfartaledd a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol | | | | | | |
| Digwyddiadau | 436 | 158 | 36% | £12,105,091 | 26% | £76,615 |
| Treftadaeth | 134 | 105 | 78% | £5,344,416 | 11% | £50,899 |
| Creadigol | 321 | 162 | 50% | £6,627,667 | 14% | £40,912 |
| Diwylliant | 66 | 50 | 76% | £1,713,319 | 4% | £34,266 |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 5 | 2 | 40% | £609,500 | 1.3% | £304,750 |
| Y Celfyddydau | 233 | 206 | 88% | £20,434,254 | 44% | £87,701 |
| Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol | | | | | | |
| Digwyddiadau | 255 | 126 | 49% | £5,455,004 | 22% | £43,294 |
| Treftadaeth | 78 | 65 | 83% | £3,430,479 | 14% | £52,777 |
| Creadigol | 130 | 87 | 67% | £3,756,610 | 15% | £43,179 |
| Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 44 | 23 | 52% | £475,117 | 2% | £20,657 |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 183 | 100 | 55% | £4,174,705 | 17% | £41,747 |
| Y Celfyddydau | 128 | 127 | 99% | £7,554,179 | 30% | £59,017 |
| Cyfunol | | | | | | |
| Digwyddiadau | 691 | 284 | 41% | £17,560,095 | 24% | £61,831 |
| Treftadaeth | 212 | 170 | 80% | £8,774,895 | 12% | £51,617 |
| Creadigol | 451 | 249 | 55% | £10,384,277 | 14% | £41,703 |
| Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 110 | 73 | 66% | £2,188,436 | 3% | £29,978 |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 188 | 102 | 54% | £4,784,205 | 7% | £46,903 |
| Y Celfyddydau | 361 | 333 | 92% | £27,988,433 | 39% | £81,640 |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

5.9 Er mai'r dyfarniad cyfartalog ar draws y ddau gylch a roddwyd i sefydliadau yn y sector Digwyddiadau oedd yr ail uchaf, sef £61,831, y sector yma hefyd oedd â'r gymhareb isaf o geisiadau i ddyfarniadau ar draws y sectorau creadigol a diwylliannol, sef 41 y cant, o gymharu â 92 y cant yn sector y Celfyddydau. Y rheswm pennaf am hyn yw bod y broses asesu wedi canfod bod cyfran uwch o’r ceisiadau yn anghymwys i gael cymorth drwy'r Gronfa.

5.10 Mae dadansoddiad o ddosbarthiad arian yn ôl awdurdod lleol yn dangos mai Caerdydd a dderbyniodd y gyfran fwyaf o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol, sef £22.8 miliwn, sy'n cyfateb i 19 y cant o gyfanswm yr arian a ddyrannwyd (Tabl 5.6 dros y dudalen). Dyrannwyd y cyfrannau mwyaf nesaf i Bowys a Gwynedd ar 10 y cant a saith y cant, yn eu trefn.

5.11 Mae dosbarthiad y rolau cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gefnogwyd drwy'r gronfa yn rhoi darlun tebyg ond nid union yr un fath (mae rolau FTE yn hunangofnodedig fel rhan o'r broses ymgeisio). Caerdydd sydd â’r nifer uchaf o rolau FTE a gefnogwyd, sef 1,152, ac yna Gwynedd (511) a Cheredigion (348). Mae'r dyfarniad grant fesul rôl FTE a gefnogwyd yn amrywio'n sylweddol ar draws yr holl awdurdodau lleol, sy'n amrywio o Sir y Fflint sy'n cyfateb i £4,477 fesul rôl FTE a gefnogwyd i Gasnewydd, sef £30,711.

## Tabl 5.6 Cyfanswm dyfarniadau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ôl awdurdod lleol

| Cyfanswm | Ceisiadau | Dyfarnwyd | Cyfanswm a ddyfarnwyd | % o'r cyfanswm a ddyfarnwyd | Dyfarniad cyfartalog | FTE a Gefnogwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 32 | 19 | £582,252 | 2% | £30,644 | 25 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 36 | 21 | £1,048,444 | 2% | £49,925 | 156 |
| Caerffili | 71 | 28 | £1,379,354 | 2% | £49,262 | 101 |
| Caerdydd | 356 | 231 | £22,787,783 | 19% | £98,648 | 1152 |
| Sir Gaerfyrddin | 110 | 61 | £2,706,967 | 5% | £44,376 | 328 |
| Ceredigion | 89 | 63 | £4,292,193 | 5% | £68,130 | 348 |
| Conwy | 78 | 53 | £1,683,358 | 4% | £31,761 | 88 |
| Sir Ddinbych | 51 | 34 | £1,595,252 | 3% | £46,919 | 70 |
| Sir y Fflint | 62 | 32 | £1,555,402 | 3% | £48,606 | 347 |
| Gwynedd | 119 | 85 | £5,520,113 | 7% | £64,942 | 511 |
| Ynys Môn | 38 | 29 | £1,459,378 | 2% | £50,323 | 124 |
| Merthyr Tudful | 16 | 10 | £469,814 | 1% | £46,981 | 98 |
| Sir Fynwy | 48 | 33 | £1,058,192 | 3% | £32,066 | 61 |
| Castell-nedd Port Talbot | 67 | 35 | £2,008,921 | 3% | £57,397 | 118 |
| Casnewydd | 83 | 44 | £3,915,741 | 4% | £88,994 | 128 |
| Sir Benfro | 106 | 62 | £3,604,773 | 5% | £58,141 | 186 |
| Powys | 154 | 124 | £5,415,894 | 10% | £43,676 | 329 |
| Rhondda Cynon Taf | 108 | 60 | £2,180,613 | 5% | £36,343 | 102 |
| Abertawe | 146 | 75 | £4,498,921 | 6% | £59,985 | 216 |
| Torfaen | 43 | 17 | £519,613 | 1% | £30,565 | 27 |
| Bro Morgannwg | 101 | 55 | £1,654,884 | 5% | £30,088 | 91 |
| Wrecsam | 71 | 35 | £1,639,184 | 3% | £46,833 | 177 |
| Anhysbys | 28 | 5 | £103,290 | 0% | £20,658 | 4 |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

5.12 Ar yr adeg y dyfarnwyd y cyllid i'r sefydliadau, yn achos Cylch 1 y Gronfa, nid oedd chwarter (25 y cant) yn weithredol, a chododd hyn i ychydig o dan draean (31 y cant) yn achos Cylch 2 (Tabl 5.7).[32] Mae hyn yn amlygu natur barhaus ac esblygol yr heriau a oedd yn wynebu'r sector creadigol a diwylliannol ac felly pwysigrwydd yr ail gylch ariannu wrth barhau i gefnogi sefydliadau cymwys a gefnogwyd yn ystod y cylch cyntaf.

**Tabl 5.7 Statws gweithredol derbynnydd y grant adeg y dyfarniad**

| | Cylch 1 | | | Cylch 2 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | Arian a ddyfarnwyd | N | % | Arian a ddyfarnwyd |
| Anweithredol | 119 | 25% | £7,528,034 | 118 | 31% | £5,762,462 |
| Rhannol weithredol | 281 | 60% | £14,798,494 | 220 | 59% | £9,709,224 |
| Gweithredu'n llawn | 70 | 15% | £4,073,463 | 38 | 10% | £1,820,228 |
| | 470 | | | 376 | | |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

5.13 Er bod data'r System Cyfrifon Busnes wedi casglu data demograffig sylfaenol, mae hyn yn ymwneud yn unig â'r cyswllt a enwir o fewn y sefydliad yn hytrach na phroffil gweithlu, gwirfoddolwyr, cynulleidfaoedd neu ymwelwyr y sefydliad. O'r herwydd, cyfyngedig yw gwerth hyn o ran cynorthwyo adolygiad o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gronfa.

5.14 Gallai rhaglenni ariannu a reolir gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried gofyn i ymgeiswyr benderfynu a ydynt yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan amrywiaeth, dull sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Celfyddydau Cymru.[33]


[32] Data'r System Cyfrifon Busnes yn unig. Nid yw'n cynnwys statws sefydliadau celfyddydol a ariannwyd drwy elfen Cyngor Celfyddydau Cymru.
[33] Cyngor Celfyddydau Cymru (2020)- 'Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-24'.

5.15 Yn gyffredinol, nid oedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y gronfa'n dyblygu cronfeydd rhyddhad ehangach neu wahanol, ond yn hytrach ei bod yn ategu'r ddarpariaeth ehangach drwy lenwi bylchau. Er y mynegwyd rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith nad oedd y llinell amser yn cyd-fynd â’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS), gan olygu bod angen ailasesu ceisiadau mewn rhai achosion, roedd hyn y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru a newidiodd y dyddiad gorffen disgwyliedig ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi hwn ar draws y DU ar ganol cyflawni Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

> 'Roedd hyn ar gyfer pobl na allent gael y grantiau eraill... roedd yr arian yn beth mawr yn yr hyn roedd y gronfa'n ei gynnig. Ond y gobaith hefyd, roedd hynny'n bwysig. Roedd pobl yn teimlo bod Llywodraeth Cymru, yn fwy na Llywodraeth y DU, yn gwerthfawrogi pobl greadigol. Roedd honno'n neges bwysig.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

5.16 Dywedodd tua un o bob chwech (16 y cant) o’r ymgeiswyr nad oeddent wedi gwneud cais i unrhyw gronfeydd rhyddhad COVID-19 eraill (Ffigur 5.1). Er bod ychydig dros draean (35 y cant) o'r ymgeiswyr wedi gwneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd, nid oedd dwy ran o dair wedi gwneud hynny, ac yn gyffredinol, nid oedd 32 y cant (288/666) o’r sefydliadau llwyddiannus ar y System Cyfrifon Busnes wedi derbyn arian o gronfeydd eraill.

**Ffigur 5.1 Ceisiadau i gronfeydd rhyddhad COVID-19 eraill**




Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

5.17 Mae hyn yn dangos cymhlethdod tirlun ariannu COVID-19 ar gyfer cyllidwyr ac ar gyfer sefydliadau diwylliannol ledled Cymru. Mae hyn yn amlygu'r angen i’r gwersi a ddysgwyd a’r ddealltwriaeth sy'n deillio o gyflawni’r Gronfa Adferiad Diwylliannol gael eu hystyried ochr yn ochr ag ymarferiadau adolygu a gwerthuso sydd ar y gweill ar draws cronfeydd rhyddhad eraill.

*Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd*

5.18 Mae'r data gweinyddol ar gyfer dau gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod 4,157 o weithwyr llawrydd wedi'u cefnogi ac mai cyfanswm gwerth y grantiau a ddyfarnwyd oedd £10.39 miliwn (3,425 yng Nghylch 1 a 732 yng Nghylch 2). Mae dadansoddiad o'r data hefyd yn dangos bod 995 o weithwyr llawrydd wedi cael cymorth ariannol yn y ddau gylch ariannu. Mae data gwybodaeth reoli yn dangos bod 3,783 o weithwyr llawrydd unigryw wedi'u cefnogi.[34]

5.19 Mae'r data hefyd yn dangos na ddyfarnwyd arian i 924 o weithwyr llawrydd a wnaeth gais am ail gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd (ni chafodd y data hwn ei gasglu ar gyfer y cylch cyntaf). Nid yw'r rheswm am hyn wedi'i gofnodi'n gyson ar draws y ffurflenni monitro a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, ond lle y mae wedi'i gofnodi, y rheswm yw am nad ydynt yn gymwys i gael cymorth drwy'r Gronfa.

5.20 Mae'r data a gyflwynwyd gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru[35] (Tabl 5.8) yn dangos amrywiaeth sylweddol yn nifer y grantiau a ddyfarnwyd, gan amrywio o 934 o grantiau (22 y cant o gyfanswm y grantiau) yng Nghaerdydd i 34 o grantiau ym Merthyr Tudful (0.8 y cant o gyfanswm y grantiau).

[34] Data Cylch 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd heb i ddarparu gan Dorfaen.
[35] Data Cylch 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd heb i ddarparu gan Dorfaen.

**Tabl 5.8 Dosbarthiad dyfarniadau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer y grantiau | % o gyfanswm y grantiau | Cyfanswm gwerth y grantiau |
|---|---:|---:|---:|
| Caerdydd | 934 | 22% | £2,335,000 |
| Bro Morgannwg | 272 | 7% | £680,000 |
| Abertawe | 268 | 6% | £670,000 |
| Gwynedd | 267 | 6% | £667,500 |
| Rhondda Cynon Taf | 226 | 5% | £565,000 |
| Powys | 211 | 5% | £527,500 |
| Sir Gaerfyrddin | 196 | 5% | £490,000 |
| Sir Benfro | 190 | 5% | £475,000 |
| Caerffili | 189 | 5% | £472,500 |
| Conwy | 163 | 4% | £407,500 |
| Casnewydd | 160 | 4% | £400,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 130 | 3% | £325,000 |
| Sir Ddinbych | 121 | 3% | £302,500 |
| Ceredigion | 121 | 3% | £302,500 |
| Sir y Fflint | 118 | 3% | £295,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | 107 | 3% | £267,500 |
| Wrecsam | 103 | 2% | £257,500 |
| Blaenau Gwent | 101 | 2% | £252,500 |
| Sir Fynwy | 100 | 2% | £250,000 |
| Ynys Môn | 82 | 2% | £205,000 |
| Torfaen | 64 | 2% | £160,000 |
| Merthyr Tudful | 34 | 1% | £85,000 |
| **Cyfanswm** | **4,157** | | **£10,392,500** |

Ffynhonnell: Data Cronfa Gweithwyr Llawrydd Awdurdodau Lleol

5.21 Roedd gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sector cerddoriaeth yn cael eu cynrychioli'n fwy ym mhroffil y rhai a gefnogwyd o gymharu â'r holl is-sectorau eraill, gan gyfrif am 25 y cant o gyfanswm y dyfarniadau ariannu. Cafodd gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn sectorau'r celfyddydau gweledol a chrefftau, theatr a'r celfyddydau perfformio, a ffilm, teledu a radio, hefyd gyfran fawr o'r cyllid cyffredinol, ar dros £1 miliwn yr un (Tabl 5.9).

**Tabl 5.9 Proffil dyfarniadau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn ôl is-sector**

| Is-sector | Nifer y grantiau | % o gyfanswm y grantiau | Cyfanswm gwerth y grantiau |
|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 930 | 25% | £2,325,000 |
| Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau | 717 | 20% | £1,792,500 |
| Theatr a'r Celfyddydau Perfformio | 574 | 16% | £1,435,000 |
| Ffilm, Teledu a Radio | 418 | 11% | £1,045,000 |
| Digwyddiadau | 240 | 7% | £600,000 |
| Adloniant | 172 | 5% | £430,000 |
| Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Orielau a Threftadaeth | 75 | 2% | £187,500 |
| Cyhoeddi | 72 | 2% | £180,000 |
| Dylunio | 42 | 1% | £105,000 |
| Heb nodi | 423 | 12% | £1,057,500 |
| **Cyfanswm** | **3,663** | | **£9,157,500** |

Ffynhonnell: Data Cronfa Gweithwyr Llawrydd Awdurdodau Lleol

5.22 Unigolion sy'n gweithio yn y diwydiannau dylunio a gafodd y nifer leiaf o grantiau. Fodd bynnag, roedd y meini prawf cymhwysedd yn nodi nad oedd gan weithiwr llawrydd hawl i gael cyllid os oedd yn gallu parhau â gweithgarwch gwaith arferol, a allai fod yn wir yn achos cyfran uwch o weithwyr llawrydd yn y sector dylunio o gymharu â sectorau eraill.


5.23 Ni wnaeth 423 o ymgeiswyr (12 y cant) nodi na darparu gwybodaeth am faes eu gwaith, felly nid yw'n hysbys i ba is-sectorau y dyfarnwyd gwerth ychydig dros £1 miliwn o arian.

5.24 Mae'r wybodaeth broffil sylfaenol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar draws y ddau gylch ariannu yn dangos bod 42 y cant o'r rhai a dderbyniodd grantiau yn fenywod a bod 57 y cant yn wrywod.[36] Dywedodd tri y cant o'r derbynwyr grantiau eu bod yn dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dim ond cyfran fach (pedwar y cant) o'r derbynwyr grantiau a oedd yn disgrifio eu hunain yn anabl. Dywedodd tua chwarter (28 y cant) o weithwyr llawrydd a gefnogwyd eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

5.25 Roedd y mwyafrif (68 y cant) o'r gweithwyr llawrydd rhwng 25 a 49 oed, ac yna'r rhai 50-64 oed (Ffigur 5.2).

[36] Roedd yn well gan un y cant o'r gweithwyr llawrydd beidio â nodi eu rhywedd.

**Ffigur 5.2 Proffil oedran derbynwyr grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd**




Ffynhonnell: Data Cronfa Gweithwyr Llawrydd Awdurdodau Lleol

5.26 Mae'r ymatebion i arolwg y gweithwyr llawrydd yn awgrymu mai eu hymarfer llawrydd yw eu gwaith amser llawn i'r mwyafrif (80 y cant, n=343). Mae gan hyn oblygiadau o ran eu gallu i ddefnyddio unrhyw gyflog neu incwm a geir o waith nad yw'n ymwneud â'r sector diwylliannol i wrthbwyso'r incwm a gollwyd. Hynny yw, nid oedd y rhan fwyaf o weithwyr llawrydd yn gallu dibynnu ar ffynonellau eraill i'w cynnal eu hunain drwy'r pandemig.


5.27 O'r herwydd, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y cymorth, i'r rhan fwyaf o'r 3,783 o weithwyr llawrydd a gefnogwyd drwy'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd, nid yn unig wedi'u diogelu hwy ond hefyd eraill yn eu haelwyd. Felly mae gwir nifer y rhai a wnaeth elwa ar y cymorth grant yn debygol o fod yn ffigwr llawer uwch.

5.28 Yn seiliedig ar y data a gasglwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ail gylch ariannu, dim ond 62 y cant o weithwyr llawrydd a nododd eu bod yn cael cymorth incwm drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS)[37]. Mae ymatebion i arolwg y gweithwyr llawrydd yn awgrymu bod y ffigwr hwn yn debygol o fod yn debyg ar gyfer y cylch cyntaf. Mae hyn yn dangos y rôl bwysig y mae'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi'i chwarae o ran diogelu bywoliaeth ledled Cymru.

[37] Mae hyn bron yr un gyfran â'r 61 y cant a welwyd yn arolwg y gweithwyr llawrydd (n=253).

5.29 Mae dadansoddiad o gyfrannau'r gweithwyr llawrydd sy'n derbyn cymorth y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) yn ôl is-sector yn dangos amrywiaeth sylweddol, gyda phawb yn y sector Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Orielau a Threftadaeth a'r sector Cyhoeddi yn derbyn cymorth drwy'r Cynllun o gymharu â dim ond tua hanner y rhai yn sector y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau (Ffigur 5.3).[38]

**Ffigur 5.3 Y gyfran sy'n derbyn cymorth o'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig fesul is-sector**




Ffynhonnell: Data Cronfa Gweithwyr Llawrydd Awdurdodau Lleol

5.30 Roedd gweithwyr llawrydd gwrywaidd yn fwy tebygol o fod wedi derbyn cymorth drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) (66 y cant) na gweithwyr llawrydd benywaidd (44 y cant). Dim ond 15 y cant o weithwyr llawrydd rhwng 16 a 24 oed a gafodd gymorth drwy'r Cynllun o gymharu â 62 y cant o'r rhai 50-64 oed.

[38] Mae'r ffigurau ar gyfer Cyhoeddi (n=3) ac Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Orielau a Threftadaeth (n=2) yn adlewyrchu niferoedd bach o weithwyr llawrydd.

5.31 Gan nad oes unrhyw ddata dibynadwy ar broffil y gweithlu llawrydd ar draws y sector diwylliannol yng Nghymru, nid yw'n bosibl nodi a yw unrhyw grwpiau penodol yn cael eu tangynrychioli ym mhroffil y rhai sy'n derbyn grantiau.

5.32 Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector perthnasol ystyried gwneud gwaith i fapio a phroffilio maint a chyfansoddiad y gymuned o weithwyr llawrydd ledled Cymru fel rhan o waith parhaus i gefnogi ac ymgysylltu â gweithlu sy'n rhan annatod o weithrediad llawer o sefydliadau diwylliannol.

## 6. Ymateb derbynwyr grantiau i'r pandemig

6.0 Er mwyn creu darlun o effaith y pandemig ar sefydliadau a gweithwyr llawrydd diwylliannol a chreadigol ledled Cymru, gofynnwyd ystod o gwestiynau i'r derbynwyr grantiau a luniwyd i archwilio sut yr effeithiwyd ar ddarpariaeth gwasanaethau a sut roedd sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd wedi ymateb.


*Sefydliadau diwylliannol*

**Y defnydd o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

6.1 Roedd y rhanddeiliaid i raddau helaeth yn ystyried y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ffordd i ddiogelu swyddi, sefydliadau a'r sector. I rai, roedd cysylltiad agos rhwng diogelu asedau ac adeiladau a'r rhesymeg ehangach, tra bod eraill hefyd yn ystyried y gronfa yn ffordd i gefnogi cymunedau drwy estyniad.

6.2 Pan ofynnwyd iddynt nodi sut roeddent wedi defnyddio eu cyllid, ymateb mwyaf cyffredin y sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg oedd eu bod wedi defnyddio'r grant i dalu biliau a gorbenion (78 y cant) ac yna cyflogau staff (60 y cant) (Ffigur 6.1). Fodd bynnag, roedd ychydig dros hanner y sefydliadau a dderbyniodd arian hefyd wedi'i ddefnyddio i adolygu eu model busnes neu wasanaethau (55 y cant) neu fuddsoddi mewn offer (54 y cant).


**Ffigur 6.1 Y defnydd o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2021. N=159

6.3 Mae dadansoddiad manylach o'r defnydd o'r arian grant fesul sector yn amlygu rhywfaint o amrywiaeth gan gynnwys buddsoddi mewn adeiladau a oedd yn fwy cyffredin yn y sector diwylliannol o gymharu â defnyddio'r arian i hyfforddi staff; defnydd a oedd yn fwy cyffredin yn y sector creadigol a chelfyddydol (Ffigur 6.2). Roedd sefydliadau yn y sectorau Creadigol a'r Celfyddydau a Digwyddiadau yn fwy tebygol o ddefnyddio'r arian i adolygu model busnes, gweithgareddau neu wasanaethau eu sefydliad. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes llawer o wahaniaeth yn y ffordd y mae sefydliadau'n dewis defnyddio'r arian ar draws sectorau, gan awgrymu bod yma heriau ac ymatebion cyffredin.

**Ffigur 6.2 Y defnydd o arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ôl sector**





Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2021. N=159

6.4 Yr hyn sy'n amlwg yn yr ymatebion gan dderbynwyr grantiau yw bod yr arian yn y rhan fwyaf o achosion wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gadw sefydliadau ar eu

traed, talu biliau, talu eu gorbenion (a oedd yn ei dro yn cefnogi ystod ehangach o sefydliadau fel landlordiaid) a chyflogau staff. Mewn geiriau eraill, roedd yr arian yn darparu pont i sefydliadau drwy'r pandemig.

6.5 Y ffactorau allweddol a nodwyd gan sefydliadau diwylliannol a effeithiodd yn negyddol ar allu'r gronfa i'w helpu i oroesi yn y dyfodol agos oedd materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a chyfyngiadau teithio (Ffigur 6.3).

**Ffigur 6.3 Ffactorau'n effeithio ar allu'r gronfa i gynorthwyo goroesiad yn y dyfodol agos**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=213

*Gweithwyr llawrydd*


6.6 Roedd gweithwyr llawrydd y cynhaliwyd cyfweliadau manwl â hwy yn ymwybodol mai prif amcan y gronfa oedd sicrhau goroesiad y sector, a fyddai'n hanfodol i weithrediad llawer o sefydliadau diwylliannol ledled Cymru yn y dyfodol.

> 'Mae gweithwyr llawrydd yn dibynnu ar fod pobl o gwmpas ac yn mynd i lefydd. Fel i lawer, caewyd y drws hwnnw'n glep yn fy wyneb pan ddaeth COVID. Boed yn rhywun sy'n perfformio'n rheolaidd... roedden ni i gyd yn yr un cwch, achubiaeth yn y bôn." (Ffotograffiaeth, Cyhoeddi)

> 'Rwy'n credu mai i gadw gweithwyr llawrydd yn eu lle ydoedd, i aros yn y sector diwylliannol, i'w hatal rhag ailsgilio a symud allan i fyd y tu hwnt i'r celfyddydau – heb ddychwelyd o bosibl – i achub diwylliant.' (Dawns, y Celfyddydau Perfformio, Theatr)

6.7 Yn gyson â'r adborth gan sefydliadau diwylliannol, prif ddefnydd yr arian oedd talu biliau a gorbenion (84 y cant) ac ar gyfer cyflog ac incwm (73 y cant). Buddsoddodd tua thraean mewn offer, un o bob pump mewn adolygu eu model busnes, gweithgareddau neu wasanaethau, ac un o bob chwech mewn hyfforddiant (Ffigur 6.4).

**Ffigur 6.4 Y defnydd o’r Gronfa Gweithwyr Llawrydd**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=402

> 'Doedd gen i ddim dewis arall mewn gwirionedd, naill ai rhoi'r gorau i weithio’n llawrydd a hawlio credyd cynhwysol neu hawlio’r arian a defnyddio'r amser hwnnw'n gynhyrchiol.' (Ffotograffiaeth, Cyhoeddi)

> 'Roeddwn i'n meddwl ei fod yn berthnasol i mi, roedd y pandemig wedi effeithio arnaf, roedd pethau wedi'u canslo, cafodd comisiynau eu tynnu’n ôl. Roeddwn i’n meddwl y gallai helpu i'm cael i i’r lan, ychydig fel benthyciad pontio, hyd yn oed os yw'n rhan-amser mae’n dda.' (Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau)


### Newidiadau i wasanaethau a gweithgareddau

*Sefydliadau diwylliannol*

6.8 Gofynnwyd i ymgeiswyr y gronfa a ymatebodd i'r arolwg o ymgeiswyr grantiau roi manylion am y camau a gymerodd eu sefydliad mewn ymateb i'r pandemig (Ffigur 6.5). Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd bod sefydliadau wedi lleihau (70 y cant) neu wedi adolygu (60 y cant) eu gweithgareddau neu wasanaethau.

6.9 Roedd ychydig dros hanner (55 y cant) yr ymatebwyr wedi rhoi staff ar ffyrlo neu wedi lleihau oriau gwaith (39 y cant), a oedd yn ei dro wedi lleihau eu gallu i ddarparu gweithgareddau neu wasanaethau. Roedd un o bob 10 ymatebydd wedi cael eu gorfodi i wneud diswyddiadau ac roedd yr un gyfran wedi gadael eu hadeilad oherwydd y pandemig. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r effeithiau ar amcanion cadw swyddi Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau ehangach i'r economi a chanol trefi a dinasoedd.

**Ffigur 6.5 Camau a gymerwyd gan sefydliadau mewn ymateb i'r pandemig**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2021. N=159

6.10 Nododd ychydig dros hanner (53 y cant) y sefydliadau creadigol a diwylliannol eu bod wedi datblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd mewn ymateb i'r pandemig. Dyma dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg bod y Gronfa wedi cynorthwyo a galluogi sefydliadau diwylliannol i arloesi gan ddatblygu, o bosibl, feysydd newydd o fusnes a ffrydiau refeniw a gwella cydnerthedd i ymdrin ag amhariadau a chyfyngiadau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn y dyfodol.


6.11 Amlygwyd y pwynt hwn gan randdeiliaid hefyd, gyda thua hanner yn awgrymu bod y Gronfa, ochr yn ochr â gweithgarwch yn tawelu, wedi darparu cyfle a modd i fyfyrio, arloesi a datblygu. Mewn rhai achosion, mae gwneud hynny wedi arwain at ehangu capasiti. Yn y dyfodol, gall hyn fod yn werthfawr er mwyn lliniaru effaith y pandemig.

'Effeithiol iawn... Bydd yr arian ar gyfer offer digidol yn eu helpu i ddatblygu darpariaeth / ffrwd refeniw newydd a all wrthbwyso’r refeniw a gollwyd a’r refeniw is tebygol yn y dyfodol o logi ystafelloedd. Mae wedi cyflymu eu datblygiad yn ddigidol. Maent wedi gallu darparu'n ddigidol drwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi ac ymgysylltu â'u rhwydwaith o 60-70 o wirfoddolwyr.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

'Heb y cynllun, yn sicr ni fyddai ein busnes wedi para a byddai ein holl staff wedi cael eu diswyddo.' (Derbynnydd grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

6.12 Mae hefyd yn amlwg o ymatebion ymgeiswyr i'r arolwg ar-lein bod y Gronfa hefyd wedi bod yn ganolog wrth helpu tua dau o bob tri sefydliad (67 y cant) i barhau i weithredu gwasanaethau drwy gydol y pandemig (Ffigur 6.6).

**Ffigur 6.6 A wnaeth yr arian alluogi sefydliadau i barhau i weithredu drwy’r pandemig**





Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o dderbynwyr grantiau’r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2021. N=159

6.13 Un gweithgaredd pwysig y mae'r gallu i barhau i weithredu drwy'r pandemig wedi'i hwyluso yw gallu sefydliadau i rwydweithio o fewn a thu hwnt i'w sector priodol, gan gael adborth ar ffactorau a all gefnogi eu cydnerthedd parhaus a'u helpu i lywio eu ffordd drwy gyfyngiadau iechyd cyhoeddus. Mae hefyd wedi galluogi sefydliadau i barhau i gynhyrchu ffrydiau refeniw, er ar sail gyfyngedig, sydd yn ei dro wedi cyfrannu at eu gallu i oroesi.

*Gweithwyr llawrydd*

6.14 Yr ymateb mwyaf cyffredin gan weithwyr llawrydd i'r pandemig oedd lleihau eu darpariaeth o weithgareddau a gwasanaethau neu oriau gwaith, gydag effaith yn sgil hynny ar lefelau incwm (Ffigur 6.7). Dywedodd pedwar o bob 10 gweithiwr llawrydd eu bod wedi addasu eu gweithgareddau a'u gwasanaethau mewn ymateb i'r pandemig, yn bennaf wrth symud y rhain ar-lein (a gofnodwyd gan 70 y cant o weithwyr llawrydd). Dywedodd ychydig dros chwarter (27 y cant) o weithwyr llawrydd eu bod wedi datblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd.

**Ffigur 6.7 Camau a gymerwyd gan Weithwyr Llawrydd**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=431

6.15 Lle'r oedd gweithwyr llawrydd yn dweud eu bod wedi datblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd, roedd hyn yn ymwneud â darparu digwyddiadau, addysgu neu sesiynau gweithdai ar-lein (41 y cant o'r ymatebwyr; n=101). Dywedodd cyfran debyg eu bod wedi gallu arallgyfeirio eu gwaith (40 y cant o'r ymatebwyr; n=101).


> 'Yn hytrach na dim ond printiau celf, cynigiais jig-sos o'm gwaith hefyd o gofio bod pobl gartref yn fwy, felly roedd yn estyniad o'm gwaith na fyddwn i erioed wedi rhoi cynnig arno o'r blaen.' (Y Celfyddydau Gweledol)

> 'Doedd gen i ddim comisiynau ysgrifennu, felly cymerais fwy o waith golygu a phrawfddarllen.' (Cyhoeddi)

6.16 Dywedodd hanner y gweithwyr llawrydd nad oedd y gronfa wedi'u galluogi i barhau i weithredu drwy'r pandemig ond yn hytrach eu cefnogi tra nad oeddent yn gallu

gweithio (Ffigur 6.8). Fodd bynnag, i ddau o bob pump roedd y gronfa wedi'u galluogi i weithredu'n rhannol drwy'r pandemig, gan gefnogi cymunedau mewn amrywiaeth o ffyrdd (gweler yr adran yn nes ymlaen yn yr adroddiad) ac ar gyfer un o bob 10 roedd yr arian wedi'u galluogi i weithredu'n llawn drwy'r pandemig.


**Ffigur 6.8 Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn cynorthwyo gweithrediad drwy'r pandemig**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=411

6.17 Nododd traean y gweithwyr llawrydd na fyddent wedi gallu gweithredu drwy'r pandemig a nododd ychydig o dan draean y byddai wedi bod yn annhebygol y gallent fod wedi gweithredu yn absenoldeb eu dyfarniad ariannu (Ffigur 6.9).

**Ffigur 6.9 Effaith weithredol yn absenoldeb y Gronfa Gweithwyr Llawrydd**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â gweithwyr llawrydd 2021. N=91

6.18 Er y cyllid a ddyfarnwyd, nid oedd gweithwyr llawrydd o sawl is-sector yn gallu gweithredu drwy'r pandemig, yn fwyaf nodedig yn y sector Dawns, y Celfyddydau Perfformio, a'r Theatr.

**Arloesi a buddsoddi**

*Sefydliadau diwylliannol*

6.19 Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at bwysigrwydd gallu sefydliadau i arallgyfeirio eu ffrydiau incwm a'u gwasanaethau i'w galluogi i addasu, goroesi a ffynnu mewn economi ôl-bandemig.

> 'Heb y Gronfa Adferiad Diwylliannol, mae'n ddigon posibl y byddai goblygiadau difrifol wedi bod i'r ailddatblygu cyfalaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'r cymunedau yng Nghymoedd De Cymru, felly rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a gawsom gan y gronfa hon a staff Cyngor Celfyddydau Cymru.' (Derbynnydd grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

6.20 Mae’r cyfyngiadau lluosog wedi golygu bod gweithio gartref wedi dod yn norm. O ganlyniad, mae bellach yn bwysicach fyth i sefydliadau diwylliannol yng Nghymru fod yn greadigol ac ail-ddychmygu eu gweithgarwch a'u hymgysylltiad fel endidau heb gymorth (ond hefyd heb eu cyfyngu) gan eu hadeiladau. Mae llawer o sefydliadau wedi defnyddio'r cyllid i sefydlu neu wella eu darpariaeth ar-lein, gan ddatblygu gwasanaethau a galluoedd newydd gyda’r nod o dyfu ffrydiau incwm newydd, cynaliadwy ohonynt.

6.21 Er nad yw hyn, hyd yma, wedi disodli'r ffrydiau incwm o ymgysylltiad traddodiadol wyneb yn wyneb, mae wedi helpu i wrthbwyso rhywfaint o'r golled ariannol a achoswyd gan y pandemig ac agor posibiliadau ar gyfer y dyfodol.

> 'Fe wnaethom ni symud ein cynnwys ar-lein gan gynnwys perfformiadau o'n dramâu a'n gweithdai. Agorodd hyn ni i gynulleidfa fyd-eang newydd sbon na fyddem wedi gallu cael mynediad iddi o'r blaen. Yn anffodus, er ein bod yn cael niferoedd da yn cael mynediad i'r cynnwys ar-lein, nid oedd yn disodli'r incwm y byddem fel arfer yn ei gael ar gyfer perfformiadau a gweithdai sy’n cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb. (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

> 'Fe wnaethom ni fuddsoddi mewn meddalwedd, offer a hyfforddiant i'n staff er mwyn iddyn nhw allu gweithio ar-lein. Fe wnaethom ni hefyd ddatblygu ein

busnes ar-lein ac ehangu faint o'n llyfrau a oedd ar gael mewn fformat digidol a hefyd ehangu ein galluoedd i werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr ar-lein.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

6.22 I lawer o theatrau, orielau, canolfannau celfyddydol a lleoliadau, mae cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu achubiaeth. Fel yr amlinellwyd mewn ymchwil gan The Audience Agency,[39] i rai, mae'r toriad o'r drefn arferol wedi cynnig cyfle ar gyfer ymchwil hanfodol i gynulleidfaoedd ac, mewn rhai achosion, ail-werthuso beth yw eu safle yn eu cymunedau. O ganlyniad, mae llawer o leoliadau'n wynebu'r posibilrwydd o ailagor eu drysau gydag ymdeimlad newydd o ddiben.

6.23 Un o ganlyniadau'r pandemig yw bod cynulleidfaoedd wedi gorfod addasu, gan gymryd rhan mewn profiadau newydd ar-lein. Mae mathau newydd o weithgarwch artistig a diwylliannol yn datblygu drwy fformatau rhithwir gan gynnwys comisiynu ffilmiau digidol, marchnadoedd celf ar-lein dan arweiniad artistiaid a chreu cynnwys digidol nad yw'n seiliedig ar leoliad.[40] Mae cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi galluogi llawer o sefydliadau i bwyso a mesur, asesu eu gallu digidol a rhoi buddsoddiad (offer a hyfforddiant) ar waith i ymateb yn greadigol i fodelau newydd o gyfranogi ac ymgysylltu.

'Fe wnaethom ni sefydlu adran bodledu, fe aethom ni o ddigwyddiadau byw a theithiau i wneud podlediadau gyda chomediwyr. Cyflogwyd aelod ychwanegol o staff i helpu gyda'r gwaith o'i recordio a'i beiriannu.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

6.24 Mae ychydig dros hanner y sefydliadau wedi defnyddio'r cyllid i adolygu eu model gweithredu neu i ddatblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd, yn gyffredin mewn ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd yn sgil y pandemig ond hefyd i gydnabod newidiadau mewn tueddiadau cymunedol a defnyddwyr yn y gymdeithas.

'Fe wnaethom ni sylweddoli ein bod yn rhy ddibynnol ar ddigwyddiadau am incwm a newidiom rywfaint o'n cynnwys i fod ar-lein o ran rhai cyngherddau a pherfformiadau cerddorol ar-lein.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

---


[39] Gweler ymchwil The Audience Agency.
[40] Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol (Hydref 2020)- 'Policy review: Cultural policy responses to COVID-19 in the UK'. Hydref 2020.

'Cawsom gyfle i ddod â rhywfaint o ymgynghoriaeth i mewn i helpu i'n cynghori a'n cynorthwyo i arallgyfeirio ein gwaith codi arian a'n helpu i ysgrifennu datganiad cenhadaeth. Roedd modd i ni wneud rhywfaint o waith ymchwil a chynllunio ar gyfer rhaglen flwyddyn o hyd yn canolbwyntio ar helpu orielau i baratoi at fod yn gynhwysol.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

6.25 Mae bron pob un o'r sefydliadau a dderbyniodd arian yn bwriadu cadw rhai neu'r cyfan o'r newidiadau a roesant ar waith mewn ymateb i'r pandemig (Ffigur 6.10).

'Trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol roedd modd i ni sefydlu cyfres newydd o ddulliau rhoddi digidol ac amryw restrau cyswllt, pwyntiau rhoddi, pwyntiau gwerthu. Ar ôl tair neu bedair blynedd o ymchwilio i systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, o'r diwedd fe wnaethom ganfod un a oedd yn gweddu'n berffaith i ni..., galluogodd y Gronfa i ni ddod o hyd i system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Roedd y capasiti rheoli ychwanegol roeddem wedi cyllidebu ar ei gyfer yn caniatáu ar gyfer yr ymchwil a'r amser ychwanegol hwnnw. Peth arall oedd ein bod wedi gallu dod ag ymgynghorydd llawrydd i mewn i weithio gyda ni i ddatblygu negeseuon craidd yn ymwneud ag ymgyrchoedd rhoddi a chynlluniau aelodaeth. (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol)

**Ffigur 6.10 Cadw newidiadau sefydliadol a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o dderbynwyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=106

6.26 Yn dilyn y sioc gychwynnol a oedd yn gysylltiedig â chamau cynnar y pandemig, roedd amseriad lansio'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ym mis Gorffennaf 2020 a chyflawni cylch pellach o gymorth yn ddiweddarach yn cyd-fynd â chyfnod pan oedd derbynwyr grantiau yn cymryd amser i reoli pwysau ariannol uniongyrchol tra hefyd yn archwilio opsiynau i arloesi yn eu darpariaeth i gefnogi amcanion sy'n ymwneud â chydnerthedd sefydliadol.

6.27 Mae arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi galluogi llawer o sefydliadau i gyfeirio buddsoddiad mewn gwahanol feysydd o'u busnes, gan gynnwys costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu offer newydd neu gynnal a chadw ased sefydlog, yn ogystal â chostau hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Gyda'i gilydd, mae hyn wedi galluogi'r Gronfa i gynorthwyo goroesiad llawer o sefydliadau diwylliannol yn y tymor byr yn ogystal â'u hyfywedd yn y tymor hwy.

*Gweithwyr llawrydd*


6.28 Dywedodd llawer o weithwyr llawrydd fod yr arian wedi rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer creadigol a nodi cyfleoedd yn y dyfodol. Roedd hefyd wedi arwain at weithwyr llawrydd yn meddwl am effaith eu gwaith a'i werth i gymdeithas. I rai, roedd y gronfa wedi caniatáu iddynt brynu offer newydd neu ddiweddaru eu cyfleusterau. I eraill, rhoddodd gyfle i rwydweithio â gweithwyr llawrydd eraill, cychwyn ar fentrau newydd, neu ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant.

> 'Fe wnaeth waredu'r straen a'r pryder cychwynnol o beidio â chael unrhyw incwm ac oherwydd y newidiadau yn y diwydiant a chyda'r ysgolion yn dal heb fod ar agor i ymwelwyr, cefais amser i ailystyried fy ymarfer a mynd yn ôl i ddarlunio ac oherwydd hyn mae gennyf gomisiwn newydd yn dechrau.' (Sir Gaerfyrddin. Dylunio, Digwyddiadau, Ffotograffiaeth, Cyhoeddi, Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau)

> 'Yn sgil cwrdd â llawer o bobl greadigol yn y gymuned, fe wnaethom oll ddod at ein gilydd a chael cyfarfodydd Zoom lle'r oeddem yn cefnogi ein gilydd ac yn rhannu unrhyw waith neu gyngor... O'r fan honno rwyf ar fin llofnodi prydles gyda phartner newydd i gael canolfan greadigol, stiwdio gerddoriaeth, caffi lle gallwn gynnal gweithdai a chael ardal ddysgu ar gyfer cerddoriaeth, creu ffilmiau, llawer o wahanol brosiectau sy'n agored i bawb... Felly ni fyddai hyn wedi digwydd oni bai am COVID.'  (Blaenau Gwent. Dylunio, Adloniant, Digwyddiadau, Ffilm a Theledu, Cerddoriaeth, Ffotograffiaeth, Cyhoeddi, Radio, Fideo)

6.29 Gydag un o bob pump o weithwyr llawrydd yn nodi eu bod wedi defnyddio eu dyfarniad cyllid i addasu a mireinio eu model busnes, eu gweithgareddau a'u gwasanaethau, mae'n debygol y bydd hyn yn cefnogi ymdrechion i'r sector ddod yn fwy cydnerth ac mewn gwell sefyllfa i ymateb i unrhyw amhariadau a achosir gan y pandemig yn y dyfodol. Nododd chwarter y gweithwyr llawrydd y byddent yn cadw'r holl newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 gydag ychydig o dan saith o bob 10 yn cadw rhai o'r newidiadau (Ffigur 6.11).

**Ffigur 6.11 Cadw modelau gweithio newydd yn y sector llawrydd**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=165

> 'Mae fy ngyrfa wedi newid yn llwyr o'r hyn roeddwn i'n ei wneud cyn / yn ystod y cyfnod clo. Drwy gysylltiadau rwyf wedi gweithio iddynt yn y gorffennol, rwyf bellach yn gwneud prosiectau celfyddydol – contractau tymor byr, yn bennaf mewn ysgolion drwy waith Cyngor y Celfyddydau ac mae fy ngyrfa yn blodeuo ac yn gyffrous iawn. Enghraifft o waith yw trefnu dawns i bobl â dementia. Drwy Gyngor y Celfyddydau a sefydliadau eraill yng Nghymru rwy'n gobeithio gallu parhau â gwahanol brosiectau fel y maent yn dod ar gael. (Powys. Dawns, Y Celfyddydau Perfformio, Theatr)

6.30 Mae hyn yn dangos y newid ehangach mewn ymarfer sydd wedi'i hwyluso gan y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ac a all barhau tua'r amcan o ddiogelu rolau gweithwyr llawrydd ledled Cymru.


## 7. Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr grantiau

7.0 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu asesiad o berfformiad y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn erbyn ei dau brif amcan o gynorthwyo goroesiad sefydliadau creadigol a diwylliannol ledled Cymru. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cyflwyno safbwynt gwrthffeithiol o ran beth fyddai'r effaith debygol wedi bod yn absenoldeb cymorth ariannol ar draws y ddau gylch yn ogystal â chyfraniad y Gronfa at amcanion cymdeithasol, diwylliannol a lles.

**Gallu busnesau i oroesi**

7.1 Er i'r pandemig a chyfyngiadau iechyd y cyhoedd ddechrau ym mis Mawrth 2020, mae eu heffeithiau'n parhau yn 2022. Pan ofynnwyd iddynt am eu statws presennol, roedd ychydig o dan hanner yr ymgeiswyr yn gweithredu'n llawn, roedd tua thraean (38 y cant) yn gweithredu'n rhannol ac roedd un o bob 10 yn segur.[41]

**Ffigur 7.1 Statws gweithredol ymgeiswyr y Gronfa (sefydliadau)**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=159

7.2 Mae'r proffil hwn yn wahanol ar draws y pedwar prif sector gyda llawer llai o sefydliadau yn y sector digwyddiadau yn dweud eu bod yn gweithredu'n llawn o gymharu â'r sectorau Diwylliant a Chreadigol a'r Celfyddydau (Ffigur 7.2 dros y dudalen).


7.3 Dywedodd bron i un o bob pedwar (23 y cant) o ymgeiswyr yn y sector Digwyddiadau eu bod yn segur neu wedi cau ar yr adeg y gwnaethant ymateb i'r

[41] Lansiwyd yr arolwg ar 29ain Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 1af Medi 2021.

arolwg gwerthuso o gymharu ag 16 y cant yn y sector Diwylliant, 13 y cant yn y sector Treftadaeth ac 8 y cant yn y sector Creadigol a'r Celfyddydau.

7.4 Mae hyn yn adlewyrchu'r amserlen ar gyfer llacio cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a effeithiodd yn wahanol ar y sectorau. Er enghraifft, roedd amgueddfeydd ac orielau dan do yn gallu ailagor o 17eg Mai 2021 ond parhaodd y cyfyngiadau ar wyliau a digwyddiadau mawr am rai misoedd, gan gynnwys cyflwyno cynllun pàs COVID ar 5ed Hydref 2021.[42]

**Ffigur 7.2 Statws gweithredol ymgeiswyr y Gronfa (sefydliadau) yn ôl sector**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=159

[42] Gweler amserlen pandemig Covid-19 yng Nghymru

7.5 Mae hyn yn dangos, i lawer o sefydliadau yn y sector Creadigol a Diwylliannol, nad yw eu gallu i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig yn hysbys. O'r herwydd, efallai na fydd effaith lawn y Gronfa o ran diogelu sefydliadau a diogelu swyddi yn gwbl amlwg am beth amser ar ôl codi'r cyfyngiadau a dychwelyd i amodau gweithredu cyn y pandemig.

7.6 Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai'r pandemig wedi effeithio'n ddyfnach ar y sector yn absenoldeb y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Roedd y Gronfa wedi ategu cronfeydd rhyddhad COVID-19 eraill ac wedi mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gymorth ehangach lle nad oedd sefydliadau diwylliannol yn gymwys i gael arian drwy lwybrau eraill.


> 'Byddai llawer o sefydliadau wedi ei chael hi'n anodd goroesi. Mae’r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi prynu amser ond mae llawer o sefydliadau a oedd yn fregus cyn y pandemig. Nid yw'r dyfodol yn hysbys o hyd o ran nifer yr ymwelwyr a ffrydiau incwm, ond mae Cylch 1 y Gronfa wedi mynd i'r afael â'r anghenion cymorth uniongyrchol. (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

7.7 Nid oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo bod y Gronfa wedi hepgor unrhyw grwpiau neu sectorau penodol. Yn wir, roedd y meini prawf agored yn aml yn cael eu cydnabod fel cryfder penodol. Fodd bynnag, er mai dim ond ychydig iawn o gyfweleion a nododd hyn, credid mai cyfyngedig oedd y ddealltwriaeth a'r ddarpariaeth ddilynol ar gyfer economi'r nos. Credid bod y diffiniad o leoliadau cerddoriaeth, er enghraifft, wedi arwain at rai, er nad lleoliadau cerddoriaeth amser llawn, yn mynd i’r wal neu'n rhoi'r gorau i gynnig cerddoriaeth fyw.

7.8 Er mwyn canfod yr effaith debygol ar y sector diwylliannol yn absenoldeb y Gronfa, gofynnwyd i’r ymgeiswyr grantiau beth oeddent yn disgwyl fyddai wedi digwydd pe na baent wedi derbyn yr arian (Ffigur 7.3 dros y dudalen). Nododd ychydig dros hanner (52 y cant) yr ymatebwyr y byddai wedi arwain at gau eu sefydliad, gydag effaith ehangach ar allu'r sector i gefnogi cymunedau fel rhan o'r cyfnod adfer o'r pandemig.

7.9 Awgrymodd ychydig o dan hanner (46 y cant) y sefydliadau y byddent wedi gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn eu sefydliadau a theimlai tua phedwar o bob 10 (38 y cant) y byddai wedi arwain at ddiswyddo staff.

**Ffigur 7.3 Effaith ddisgwyliedig ar dderbynwyr y Gronfa pe na baent wedi derbyn y grant**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol N=141

7.10 Mae lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan sefydliad yn darparu mesur o'i allu i wrthsefyll newidiadau annisgwyl i ffrydiau incwm neu ddigwyddiadau nas rhagwelwyd fel atgyweiriadau i adeiladau. Un o'r themâu a amlygwyd gan randdeiliaid oedd pwysigrwydd bod sefydliadau diwylliannol yn cadw rhywfaint o gronfeydd wrth gefn i'w cynorthwyo i ailagor ac adfer o'r pandemig.

7.11 Byddai diffyg cronfeydd ariannol digonol wrth gefn yn rhoi llawer o sefydliadau mewn sefyllfa weithredu ansicr, ac yn eu gwneud yn agored i fethiant neu gau yn sgil dylanwadau economaidd yn y dyfodol (pandemig neu fel arall).


> 'Rydym eisiau ailadrodd pa mor hanfodol fu cymorth y Gronfa Adferiad Diwylliannol i'n helusen. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ac wedi ein cefnogi o ddechrau'r pandemig ac mae'r gefnogaeth gan swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd [yn Llywodraeth Cymru, sef yr Is-adran Ddiwylliant bellach] wedi bod yn hanfodol a chaiff ei gwerthfawrogi'n fawr. (Derbynnydd grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

7.12 Mae dadansoddiad o ymatebion sefydliadau i'r arolwg o ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ôl sector yn dangos amrywiaeth yn yr effeithiau disgwyliedig yn absenoldeb dyfarniadau grantiau’r Gronfa. Roedd sefydliadau o'r sectorau Diwylliant a Threftadaeth yn fwy tebygol o ddweud y byddent wedi disgwyl

diswyddiadau a defnyddio cronfeydd wrth gefn y sefydliad na'r sectorau Creadigol a’r Celfyddydau a Digwyddiadau (Ffigur 7.4 dros y dudalen).

7.13 Dywedodd bron i ddwy ran o dair o sefydliadau yn y sector Digwyddiadau y byddent wedi disgwyl cau pe na baent wedi derbyn grant o’r Gronfa Adferiad Diwylliannol, ac roedd ychydig dros hanner y sefydliadau yn y sectorau Creadigol a’r Celfyddydau yn dweud yr un peth.

**Ffigur 7.4 Effaith ddisgwyliedig pe na baent wedi derbyn grant (yn ôl sector)**




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o dderbynwyr grantiau’r Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=141

7.14 Dywedodd tua chwech o bob 10 (57 y cant) o ymatebwyr i'r arolwg fod y Gronfa wedi bod yn hanfodol i oroesiad eu sefydliad i raddau helaeth gyda thua thraean (37 y cant) yn teimlo felly i ryw raddau. O ystyried amseriad dosbarthu'r arolwg, tua phedwar mis ar ôl cwblhau dyfarniad cyllid Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, mae'r ymateb hwn wedi elwa o allu sefydliadau i fyfyrio ar ba sefyllfa y gallent fod wedi bod ynddi yn absenoldeb y cymorth a gawsant drwy'r Gronfa.

7.15 Mae dadansoddiad o'r ymatebion fesul sector yn dangos bod sefydliadau Creadigol a'r Celfyddydau yn fwy tebygol (65 y cant) o awgrymu bod eu grant yn hanfodol i oroesiad eu sefydliad. Sefydliadau yn y sector Diwylliant - Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd oedd leiaf tebygol o briodoli eu goroesiad i'r Gronfa, er bod llawer o'r rhain yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol ac wedi'u diogelu drwy'r pandemig i ryw raddau am eu bod yn cael eu cynnal drwy gyllidebau prif ffrwd.


7.16 Dangosodd cyfweliadau manwl gyda derbynwyr grantiau dro ar ôl tro y rôl bwysig a chanolog a chwaraeodd y Gronfa Adferiad Diwylliannol wrth helpu sefydliadau i oroesi drwy'r pandemig. Mae'r Gronfa hefyd wedi darparu cyfle i alluogi sefydliadau i fuddsoddi mewn hyfforddiant ac adolygu eu systemau gweithredu a all yn ei dro eu rhoi mewn gwell sefyllfa i addasu i dirwedd gyflawni ar ôl y pandemig.

> 'Fe wnaeth ein rhoi yn ôl ar ein traed a chaniatáu i ni ddal ati, cadw ein staff a pharhau'n gynaliadwy am ba hyd bynnag y byddai'n para. Roedd yn caniatáu i ni edrych ar wahanol ffyrdd o weithio ac yn rhoi amser inni wneud hynny.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, sector Creadigol)

> 'Wir i chi, gwnaeth y gronfa ein helpu i oroesi hyd yn hyn, rhoddodd amser i ni ail-werthuso ac arallgyfeirio a'n helpu i wneud mwy o gysylltiadau lleol. Fe wnaethom hyfforddi ein staff a gwneud rhywfaint o farchnata ac ymchwil i'r farchnad, a dyma'r pethau na fyddai gennym amser i'w gwneud fel arfer am ein bod ni'n ymladd tanau. Rydym wedi rhoi gwahanol brosesau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn gweithio i'n staff a'n cymuned ac roedd yn ein helpu i dalu gorbenion yn ystod y cyfnod y bu'n rhaid i ni gau a phan oeddem yn dod yn ôl ar ein traed ar ôl ailagor - roeddem yn dechrau eto o'r dechrau.' (Derbynnydd Grant Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant)

7.17 Yn seiliedig ar yr adborth a ddarparwyd mewn cyfweliadau manwl, nododd hanner (50 y cant) y sefydliadau a dderbyniodd arian fod eu trosiant wedi gostwng o ganlyniad i'r pandemig, gydag un o bob pump (20 y cant) yn dweud ei fod wedi cynyddu (Ffigur 7.5). Mae hyn yn amlygu effaith tymor hwy y pandemig a'r gwahanol gyflymder adferiad y mae sector y sefydliad yn dylanwadu arno, y gallu i ailagor yn llawn a chyfyngiadau parhaus ar sail iechyd y cyhoedd.

**Ffigur 7.5 Effaith y pandemig ar drosiant**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=175

7.18 Nododd tri chwarter (74 y cant) y rhai a dderbyniodd grant drwy gyfweliadau manwl fod grant y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi helpu i liniaru effaith y pandemig, gan ddangos cyfraniad y gronfa at sicrhau bod y sector diwylliannol ledled Cymru yn gallu goroesi.

7.19 Pan ofynnwyd iddynt grynhoi eu barn gyffredinol am y Gronfa Adferiad Diwylliannol, dywedodd 57 y cant o'r derbynwyr grantiau ei fod wedi achub eu sefydliad, yr ymateb mwyaf cyffredin o bell ffordd.[43]

[43] Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol N=211.

## Diogelu swyddi

*Sefydliadau diwylliannol*

7.20 Ar draws y ddau gylch ariannu, roedd yr ymgeiswyr yn gysylltiedig â 7,832 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Roedd y rhai a dderbyniodd arian yn cyfrif am 4,777 o staff cyfwerth ag amser llawn, sef 0.27 y cant o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru.[44] Mae cyfran yr holl swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd drwy'r Gronfa yn amrywio ar draws sectorau diwylliannol, o 23 y cant yn sector y celfyddydau i dri y cant yn y sector Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi a'r sector Diwylliant (Tabl 7.1).

**Tabl 7.1 Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd yn ôl cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a sector**

| **Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol** | | |
|---|---|---|
| Sector | Nifer y swyddi a gefnogwyd | % o gyfanswm y swyddi a gefnogwyd |
| Digwyddiadau | 866 | 23% |
| Treftadaeth | 964 | 25% |
| Creadigol | 612 | 16% |
| Diwylliant | 322 | 8% |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 78 | 2% |
| Y Celfyddydau | 953 | 25% |
| **Cyfanswm** | **3,795** | **100%** |
| **Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol** | | |
| Digwyddiadau | 216 | 6% |
| Treftadaeth | 246 | 6% |
| Creadigol | 170 | 4% |
| Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 46 | 1% |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 104 | 3% |
| Y Celfyddydau | 587 | 15% |
| **Cyfanswm** | **1,369** | **100%** |
| **Cylchoedd Cyfunol** | | |
| Digwyddiadau | 1,071 | 22% |
| Treftadaeth | 1,049 | 22% |
| Creadigol | 838 | 18% |
| Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 145 | 3% |
| Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi | 444 | 9% |
| Diwylliant | 139 | 3% |
| Y Celfyddydau | 1092 | 23% |
| **Cyfanswm** | **4,777** | **100%** |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru a Data Rheoli Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru

[44] Arolwg BRES 2020.

7.21 Yn ystod cyfweliadau manwl, gofynnwyd i sefydliadau diwylliannol a dderbyniodd arian o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol faint o swyddi yr oeddent yn gallu eu diogelu yn sgil y cymorth a gawsant. Dywedodd y sefydliadau eu bod yn gallu diogelu cyfanswm o 622 o swyddi llawn amser (yn seiliedig ar ymatebion gan 176 o sefydliadau) a 903 o swyddi rhan-amser (yn seiliedig ar ymatebion gan 161 o sefydliadau).[45]

7.22 Gan adlewyrchu cyfansoddiad y sector sydd â chyfrannau uwch o ficrofusnesau, roedd sefydliadau yn fwyaf cyffredin yn gallu diogelu rhwng dwy a phum swydd amser llawn neu ran-amser.

> 'Rwy'n meddwl ei fod wedi bod yn hanfodol a bydd yn parhau i fod yn hanfodol ac rwy'n gobeithio y bydd yna gylch arall. Mae wedi cael cymaint o effaith ar golli refeniw, a daeth refeniw i ben. Does dim amheuaeth y byddai llawer wedi mynd i'r wal, a byddai gweithwyr llawrydd wedi chwilio am waith mewn mannau eraill a byddai angen eu hadeiladu'n ôl. Dydyn ni ddim eto wedi cyrraedd cyfnod o adferiad graddol, felly mae ffordd bell i fynd cyn inni weld unrhyw beth tebyg i'r refeniw blaenorol.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

7.23 Ar draws y sefydliadau a arolygwyd yn ystod haf 2021, roedd gostyngiad cyfartalog mewn cyflogaeth o 3.85 cyfwerth ag amser llawn fesul sefydliad ers iddynt wneud cais i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Byddai cymhwyso hyn i'r boblogaeth yn awgrymu, o'r 4,777 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n gysylltiedig â'r ymgeiswyr llwyddiannus, bod 2,900 bellach yn dal i gael eu cyflogi yn y sefydliadau hyn.

7.24 O ystyried bod 57 y cant o'r ymatebwyr wedi nodi bod y gefnogaeth a gafwyd gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn hanfodol i oroesiad eu sefydliad, ar draws yr holl swyddi yn y boblogaeth o ymgeiswyr llwyddiannus, byddai hyn yn cyfateb i ddiogelu 2,700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

7.25 Mae 38 y cant o ymatebwyr arolwg y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn awgrymu y byddent wedi gorfod diswyddo staff pe na bai'r cymorth ariannol ar gael. O'r rhain, mae 41 y cant (neu 16 y cant o'r holl ymatebwyr) yn dweud bod y Gronfa i ryw raddau yn bwysig o ran goroesiad eu sefydliad. Os tybir bod traean o'r swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y sefydliadau hyn wedi'u colli yn ogystal â'r 57 y cant o

[45] Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

sefydliadau a fyddai wedi methu, byddai cyflogaeth wedi gostwng tua 2,950 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ar draws y sector diwylliannol yng Nghymru.

7.26 Fel arall, gellir gwneud amrywiaeth o dybiaethau ynglŷn â cholli swyddi ar gyfer y 38 y cant a ddywedodd y byddent wedi gorfod gwneud diswyddiadau pe na baent wedi cael cymorth. Byddai gostyngiad o 30 y cant mewn cyflogaeth ymhlith y sefydliadau hyn yn cyfateb i golli 560 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, byddai gostyngiad o 50 y cant yn cyfateb i 934 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a byddai gostyngiad o 70 y cant yn cyfateb i 1,308 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

7.27 Mae adborth gan ymgeiswyr grantiau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cyflwyno tystiolaeth o'r gostyngiad mewn lefelau cyflogaeth yn sgil y pandemig (Tabl 7.2).[46] Nododd tua 15 y cant (31) o'r sefydliadau a gyfwelwyd eu bod wedi gallu creu swyddi newydd o ganlyniad i'r cymorth o'r Gronfa, sy'n cyfateb i 60 o swyddi newydd.

**Tabl 7.2 Lefelau cyflogaeth cyfartalog ymysg y sefydliadau a arolygwyd**

| | Cyn COVID-19 | Ar hyn o bryd | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd Staff Amser Llawn | 7.5 | 6.4 | -1.2 |
| Cyfartaledd Staff Rhan-amser | 8.3 | 2.6 | -5.7 |
| Cyfartaledd Staff FTE | 10.9 | 7.0 | -3.9 |
| Cyfartaledd Oriau Rhan-amser | 70.5 | 37.1 | -33.4 |
| Cyfartaledd Gwirfoddolwyr | 26.2 | 16.8 | -9.4 |

Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=159

7.28 Mae edrych ar y 275 o geisiadau lluosog o ddata'r System Cyfrifon Busnes yn ddiddorol o ran newid swyddi. Mae hyn yn dangos, ar gyfer y mwyafrif (60 y cant) o'r rhai a ymgeisiodd i'r ddau gylch, bod nifer eu staff wedi aros yr un fath rhwng eu ceisiadau. Gwelodd tua'r un gyfran gynnydd mewn lefelau staffio cyfwerth ag amser llawn â'r gyfran a welodd ostyngiad (Tabl 7.3).

[46] Mae staff Amser Llawn yn cyfeirio at gyflogai unigol sy'n gweithio mwy na 30 awr yr wythnos i sefydliad. Cyfwerth ag amser llawn (FTE) yw nifer y staff a fyddai'n cael eu cyflogi pe baent oll yn staff amser llawn felly mae'n caniatáu cyfuniad o staff rhan-amser ac amser llawn yn seiliedig ar yr oriau a weithir.

### Tabl 7.3 Newidiadau yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn rhwng cylchoedd

| Newid mewn staff rhwng ceisiadau | Nifer a ymgeisiodd | % o'r holl geisiadau lluosog | Cyfanswm FTE a gollwyd / enillwyd | Llwyddiannus yng Nghylch 1 yn unig | Llwyddiannus yng Nghylch 2 yn unig | Llwyddiannus yn y ddau | Aflwyddiannus yn y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu | 59 | 21% | 107 | 5 | 2 | 44 | 8 |
| Lleihau | 52 | 19% | -250 | 8 | 2 | 34 | 8 |
| Aros yr un peth | 164 | 60% | | 23 | 9 | 102 | 30 |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

### Cefnogi rolau llawrydd contractiol

7.29 Mae cyfraniad y Gronfa Adferiad Diwylliannol at gefnogi goroesiad llawer o sefydliadau diwylliannol wedi effeithio nid yn unig ar staff cyflogedig ond hefyd ar y nifer sylweddol o weithwyr llawrydd sydd wedi'u contractio i gefnogi eu gweithrediad a'u darpariaeth. Mae dadansoddiad o ddata'r ceisiadau yn dangos mai cyfanswm nifer y rolau llawrydd contractiol a oedd yn cael eu cynnal gan y sefydliadau diwylliannol a wnaeth gais am gymorth oedd 41,916 (Tabl 7.4).

7.30 Ar gyfer sefydliadau a dderbyniodd arian grant ar draws y naill neu'r llall neu'r ddau gylch, mae hyn yn cyfateb i 21,396 o rolau llawrydd contractiol.[47] Wrth gyfrif am sefydliadau a dderbyniodd arian ar draws y ddau gylch, cyfanswm nifer y rolau llawrydd contractiol unigryw a gefnogwyd yw 21,008.[48]

### Tabl 7.4 Cefnogi rolau llawrydd

| Cylch | Nifer y rolau llawrydd contractiol yn y ceisiadau | Nifer y rolau llawrydd contractiol yn y ceisiadau a gynorthwywyd | Rolau llawrydd unigryw a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|
| Cylch 1 | 38,498 | 18,780 | 18,512 |
| Cylch 2 | 3,418 | 2,615 | 2,496 |

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes Llywodraeth Cymru

7.31 Ynghyd â'r cymorth wedi'i dargedu at weithwyr llawrydd a ddarparwyd gan y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, mae hyn yn dangos gallu rhaglen y Gronfa Adferiad Diwylliannol i ddiogelu gweithlu sylweddol sy'n ganolog i weithrediad nifer o sefydliadau diwylliannol a hebddynt ni fyddai llawer yn gallu ailagor a goroesi.

[47] Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys gwybodaeth gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru am na chafodd y data yma ei gasglu yn y broses ymgeisio. Mae'n debygol bod y gwir nifer ar draws y rhaglen yn uwch.

[48] Dylid nodi bod y ffigwr hwn yn debygol o gynnwys dyblygiadau o ystyried y gallai nifer o dderbynwyr grantiau fod wedi defnyddio gwasanaethau gweithiwr llawrydd unigol.

**Diogelu rolau gwirfoddolwyr**

7.32 Roedd y broses ymgeisio ar gyfer Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn gofyn i sefydliadau ddarparu manylion am nifer y gwirfoddolwyr a oedd yn cynorthwyo eu darpariaeth. Darparodd cyfanswm o 304 o sefydliadau fanylion a oedd gyda'i gilydd yn cefnogi 23,916 o wirfoddolwyr, yn cwmpasu amrywiaeth o rolau (e.e. cyfleoedd gwirfoddoli untro mewn digwyddiadau cyfranogi ar raddfa fawr a gwirfoddolwyr tymor hwy).

7.33 Er na chafodd y data hwn ei gasglu ar gyfer Cylch 1 y Gronfa, gan ddefnyddio'r nifer cyfartalog o wirfoddolwyr a gefnogir fesul sefydliad (79) a chyfanswm nifer y sefydliadau unigryw sy'n derbyn cyllid ar draws y ddau gylch, amcangyfrifir bod tua 77,000 o rolau gwirfoddolwyr wedi'u diogelu drwy'r Gronfa.[49]

7.34 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid y rôl ganolog y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn y sector diwylliannol, gan alluogi sefydliadau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau i gyfranogwyr, defnyddwyr a chynulleidfaoedd ledled Cymru. Nid oedd modd i lawer o'r gwirfoddolwyr hyn barhau yn eu rolau gwirfoddol blaenorol oherwydd y pandemig.

7.35 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod gan sefydliadau tua 28 o wirfoddolwyr ar gyfartaledd cyn y pandemig a bod hyn wedi gostwng i 22 erbyn cynnal yr arolwg. Fodd bynnag, roedd y sefydliadau'n obeithiol o ran eu gallu i ailadeiladu eu sylfaen o wirfoddolwyr.

7.36 Yn fwy cyffredinol, mae'r broses o ddiogelu sefydliadau diwylliannol hefyd wedi helpu i ddiogelu'r cyfleoedd gwirfoddoli hyn sydd, yn eu tro, yn darparu ystod o ganlyniadau cadarnhaol i'r gwirfoddolwyr eu hunain a'r cymunedau y maent yn eu cefnogi.

7.37 Mae gwirfoddoli wedi'i nodi yn un o'r dangosyddion o fewn nod llesiant 5 'Cymru o gymunedau cydlynol' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[50] Mae hyn yn dangos cyfraniad uniongyrchol y Gronfa Adferiad Diwylliannol at gefnogi ymdrechion i gynyddu gwirfoddoli ledled Cymru.

---

[49] Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys gwybodaeth gan sefydliadau celfyddydol a dderbyniodd arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru am na chafodd y data hwn ei gasglu yn y broses ymgeisio. Mae'r gwir nifer ar draws y rhaglen yn debygol o fod yn uwch.

[50] Llywodraeth Cymru (2021) - 'Llesiant Cymru: 2021'. Adroddiad am y cynnydd mae Cymru yn ei wneud tuag at wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

7.38 Mae’r arian wedi galluogi sefydliadau i gadw mewn cysylltiad â'u sylfaen gwirfoddolwyr i helpu i liniaru colli capasiti gwirfoddolwyr a fyddai, i lawer o sefydliadau, yn sail i'w gallu i ailagor.

7.39 Un o'r meysydd allweddol o ansicrwydd i sefydliadau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr i gefnogi eu darpariaeth yw i ba raddau y mae eu gwirfoddolwyr yn hyderus ac yn barod i ddychwelyd i'w rolau wrth i'r genedl ddod allan o'r pandemig. Mae hyn yn arbennig o ansicr i sefydliadau sydd â phroffiliau gwirfoddolwyr hŷn a allai fod â gofynion parhaus i warchod eu hunain am resymau iechyd personol a/neu gyfrifoldebau gofalu.

> 'Roedd yn rhaid i ni wneud penderfyniad polisi i dorri'n ôl ar ein holl wirfoddolwyr; roeddem yn teimlo na allem eu gwneud yn agored i risgiau'r pandemig drwy fod ar y safle a dod i gysylltiad â'r cyhoedd.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Treftadaeth)

> 'Rydym yn dechrau ailgychwyn ein rhaglenni gwirfoddolwyr. Roeddem wedi'u cau yn ystod y cyfnod clo gan fod ein gwirfoddolwyr yn tueddu i fod yn y grŵp sydd mewn risg pe baent yn dal COVID-19. Roedd y gronfa'n caniatáu i ni gadw staff i weithio a oedd yn caniatáu i ni ddechrau cael grwpiau bach o wirfoddolwyr yn ôl i wneud gweithgareddau garddio.' (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Treftadaeth)

7.40 Gallai hyn amlygu'r angen i ganfod gallu sefydliadau diwylliannol i gadw a/neu ehangu eu sylfaen o wirfoddolwyr wrth i gyfyngiadau iechyd y cyhoedd gael eu codi.

7.41 Dylid ystyried datblygu ymgyrch i hyrwyddo rolau gwirfoddoli yn y sector diwylliannol i helpu i weithredu a rheoli llawer o wasanaethau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys gwaith cydgysylltiedig gyda phlatfform Gwirfoddoli Cymru.

*Gweithwyr llawrydd*


7.42 Mewn adolygiad a gynhaliwyd gan y Ganolfan Gwerth Diwylliannol o ymatebion polisi diwylliannol yn y DU, canfuwyd tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg bod yr argyfwng wedi gwaethygu anghydraddoldebau yn y sector diwylliannol a'r gymdeithas ehangach.[51] Mae'r adolygiad yn cyfeirio at ansicrwydd i artistiaid llawrydd a

[51] Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol (Hydref 2020)- ‘Policy review: Cultural policy responses to COVID-19 in the UK’. Hydref 2020.

gweithwyr diwylliannol, wrth i'r pandemig amlygu cymhlethdodau'r ffordd y mae unigolion yn cynhyrchu incwm drwy waith portffolio a chontractau tymor byr.

7.43 Yn seiliedig ar y data monitro a gasglwyd gan awdurdodau lleol, cafodd chwech o bob 10 gweithiwr llawrydd gymorth gan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) hefyd, ond mae eu hadborth mewn cyfweliadau manwl wedi tynnu sylw at y cyfraniad pwysig y mae'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi'i wneud i ddiogelu rolau gweithwyr llawrydd. Yr effaith a ragwelwyd amlaf yn absenoldeb y Gronfa Gweithwyr Llawrydd oedd gweithwyr llawrydd yn mynd i ddyled (Ffigur 7.6), a nodwyd gan tua chwech o bob 10 o ymatebwyr yr arolwg. Nododd tua thraean y byddent wedi gorfod ymestyn eu gorddrafft a nododd un o bob 10 y byddent wedi gorfod cael benthyciad.

**Ffigur 7.6 Effeithiau a ragwelir yn absenoldeb y Gronfa Gweithwyr Llawrydd**




Arolwg Wavehill o weithwyr llawrydd 2021. N=397

7.44 Gwnaeth y cyfweliadau manwl a gynhaliwyd gyda gweithwyr llawrydd amlygu pryderon ynghylch eu sefyllfa ariannol ac yn sylfaenol yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar eu creadigrwydd a'u cynhyrchiant yn ogystal â'u lles meddyliol.

7.45 Cyfeiriodd gweithwyr llawrydd hefyd at yr effaith andwyol y byddai hyn yn ei chael ar eu teulu, gan dynnu sylw at yr effeithiau ehangach sy'n gysylltiedig ag incwm aelwydydd, yn enwedig i'r rhai â dibynyddion.

7.46 Er bod llawer o weithwyr llawrydd yn dweud eu bod wedi mynd i ddyled oherwydd y pandemig, mae'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi helpu i leihau lefel y ddyled ac felly cynyddu hyfywedd canfyddiedig eu hymarfer llawrydd yn y dyfodol y tu hwnt i'r pandemig.

> 'Byddai wedi bod yn drychineb a byddwn wedi gorfod benthyg arian gan y teulu. Dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi bod mor greadigol, ac efallai na fyddwn i wedi arallgyfeirio.' (Wrecsam. Dylunio, y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau)

> 'Fyddwn i byth wedi rhoi'r gorau iddi, ond byddwn wedi bod mewn hyd yn oed mwy o ddyled nag wyf eisoes. Gallai wir fod wedi fy ngwthio dros y dibyn.' (Abertawe. Ffilm a Theledu, Theatr)

7.47 Dywedodd tua thraean (32 y cant) o weithwyr llawrydd y byddent wedi gadael y sector yn llwyr yn absenoldeb yr arian, a nododd cyfran debyg y byddent wedi dod o hyd i gyflogaeth arall dros dro y tu allan i'r sector (Ffigur 7.6 uchod)

7.48 Yn ymarferol, dim ond un o bob saith a ddaeth o hyd i swydd arall, gan awgrymu bod yr arian wedi helpu i atal nifer rhag gadael y sector.

> 'Byddwn wedi gorfod ystyried o ddifrif chwilio am fath gwahanol o waith. Rwy'n dibynnu ar yr arian. Byddai'n drueni gan fy mod wedi bod yn ei wneud ers cymaint o amser, ac rwy'n mwynhau'r gwaith.' (Abertawe. Adloniant)

> 'Byddwn wedi cymryd y swydd amser llawn a gynigiwyd i mi yn Tesco ac wedi gadael y diwydiant. Mae mor syml â hynny.' (Rhondda Cynon Taf. Ffilm a Theledu, y Celfyddydau Perfformio, Radio, Theatr, Fideo)

7.49 Dywedodd bron pob un (99 y cant) o’r gweithwyr llawrydd fod y gronfa wedi cyfrannu at ddiogelu eu sefydliad, gyda chwech o bob 10 yn dweud bod hyn yn wir i raddau helaeth, ond gwelwyd lefelau uchel o briodoli yn sectorau’r Celfyddydau Perfformio, Dawns, y Celfyddydau Gweledol ac Adloniant.

7.50 Ychydig iawn o weithwyr llawrydd a nododd y byddent wedi gallu parhau heb gael eu heffeithio lawer yn absenoldeb dyfarniad eu grant.

> 'I bob pwrpas, fe wnaeth achub fy musnes a'm hachub i rhag mynd i ddyled.' (Rhondda Cynon Taf. Adloniant, Digwyddiadau, Cerddoriaeth)

> 'Roeddwn i'n gallu aros yn fy swydd oherwydd y gronfa ac rwyf mor ddiolchgar. Roeddwn i'n gallu talu'r morgais a chadw'r tŷ a rhoi bwyd ar y bwrdd i fy nheulu

nes i'r gwaith ddechrau dod yn ôl. Mae gen i waith ar gyfer mis Ionawr, felly mae pethau'n dechrau.' (Gwynedd. Dylunio, Ffilm a Theledu)

7.51 Nododd 58 y cant o'r rhai a gafodd gymorth gan y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn eu hymateb i'r arolwg ei fod yn hanfodol i oroesiad eu hymarfer. Mae hyn yn cyfateb i 2,194 o rolau cyfwerth ag amser llawn yn y sector.[52]

7.52 Ni fyddai tua 32 y cant o weithwyr llawrydd wedi gallu gweithredu drwy gydol y pandemig heb y cymorth a ddarparwyd. Mae 38 y cant yn awgrymu y byddent wedi ceisio gwaith dros dro y tu allan i'r sector a byddai 32 y cant wedi gadael y sector yn llwyr.

7.53 Er bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi helpu i ddiogelu llawer o rolau llawrydd ledled Cymru, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch faint o weithwyr llawrydd na lwyddodd i gael cymorth o ystyried y darparwyd yr arian ar sail y cyntaf i'r felin.

7.54 Amlygodd y pandemig natur simsan ac ansicr gwaith llawrydd, yn ogystal â phwysleisio'r rôl annatod a hanfodol y mae gweithwyr llawrydd yn ei chwarae yng ngweithrediad y sector diwylliannol.

7.55 Wrth symud ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol yn y sector ystyried opsiynau i gynyddu amlygrwydd gweithwyr llawrydd creadigol a chefnogaeth iddynt yn ogystal ag archwilio'n fwy sylfaenol i ba raddau y gellir annog sefydliadau diwylliannol i symud eu modelau gweithredu i gynnig mwy o sicrwydd swyddi i'r sector llawrydd.

**Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach y grantiau**

7.56 Gwelir gwerth llawn y sectorau diwylliant a chelfyddydol drwy eu heffeithiau ehangach. Mae gweithgarwch y sectorau hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig, trawsbynciol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

7.57 Mae ymchwil wedi dangos bod gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan wrth ragweld a fydd rhywun yn nodi lefel uchel o lesiant, gan fod y rhai sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol 23 y cant yn fwy tebygol o nodi lefel uchel o foddhad bywyd.[53] Mae sefydliadau diwylliannol hefyd yn helpu i

[52] Yn seiliedig ar 58 y cant o 3,783 o dderbynwyr grantiau unigryw.
[53] Browne Gott, H. (2020)- 'Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 15/2020

adeiladu cyfalaf cymdeithasol,[54] cefnogi gwirfoddolwyr,[55] gweithredu fel canolfannau addysg a darparu sesiynau dysgu ffurfiol,[56] a hefyd yn cefnogi'r system cyfiawnder troseddol.[57]

7.58 Mae gwaith y celfyddydau cyfranogol[58] yng Nghymru yn rhan hanfodol o sector y celfyddydau, ac mae'r arfer yn draddodiadol yn dibynnu ar ddarpariaeth wyneb yn wyneb. Er bod newid i weithredu ar-lein drwy'r pandemig wedi bod yn broses ddysgu enfawr i'r sector, mae llawer o sefydliadau ac artistiaid wedi dod o hyd i ystod eang o ddulliau gweithredu gan gynnwys dosbarthiadau celfyddydol ar-lein ar draws ffurfiau celf, darparu pecynnau creadigol o ansawdd uchel ar garreg y drws, galwadau ffôn wythnosol, a chardiau post i'r rhai sy'n ynysu'n gymdeithasol neu i bobl heb fynediad i'r rhyngrwyd.

7.59 Mae sector y celfyddydau cyfranogol yn gynhwysol ac yn gefnogol yn ôl ei natur, a threuliwyd llawer o oriau ar gymorth i gael pobl ar-lein a'u cadw mewn cysylltiad. Ar ôl eu sefydlu, mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn achubiaeth i bobl ifanc, oedolion hŷn ac i'r rhai a warchodir sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.[59]

7.60 Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at y ffaith bod y Gronfa wedi cyfrannu'n uniongyrchol at alluogi'r sectorau creadigol a diwylliannol i gefnogi unigolion a chymunedau drwy'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau ar-lein, lledaenu adnoddau creadigol a phecynnau teuluol a chynnal cysylltiadau â gwirfoddolwyr. Er nad y manteision ehangach hyn yw prif ffocws y gwerthusiad hwn, mae adborth gan randdeiliaid wedi amlygu eu pwysigrwydd o ran cefnogi lles meddyliol a mynd i'r afael ag ynysigrwydd ac unigrwydd sy'n effeithio ar lawer o bobl drwy'r pandemig.

> 'Rydym wedi siarad â phobl yn y gymuned a ddywedodd wrthym nad oedd gan rai teuluoedd unrhyw lyfrau a dechreuodd hynny ar gynllun helpu eich cymydog... gwnaethom gysylltu â banc bwyd lleol a rhoi llyfrau yn eu bocsys' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Creadigol)

---

[54] Wavehill (2021)-'The Contribution of Events to Scotland's Wellbeing'. Adroddiad i Visit Scotland.
[55] Taylor, P. et al (2015)- 'A review of the Social Impacts of Culture and Sport'.
[56] Llywodraeth Cymru (2016)- 'Spotlite ar Amgueddfeydd 2016'.
[57] Cyngor Celfyddydau Lloegr (2018)- 'Arts and culture in health and wellbeing and in the criminal justice system: A summary of evidence'.
[58] Mae gwaith y celfyddydau cyfranogol yn cwmpasu'r canlynol i gyd: Y Celfyddydau Cymunedol; Celfyddydau Ieuenctid; Y Celfyddydau ac Iechyd; Y Celfyddydau â Phobl Hŷn; Y Celfyddydau sy'n Ymgysylltu'n Gymdeithasol.
[59] ArtWorks Cymru (2020)- 'Covid-19 Impact on Participatory Arts in Wales'. Tystiolaeth ysgrifenedig

'Chwaraeodd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ran fawr yn y gwaith o fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol drwy ganiatáu i ni barhau i ymgysylltu â phobl sy'n agored i niwed.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant a Chreadigol: y Gadwyn Gyflenwi)

7.61 Dywedodd llawer o sefydliadau eu bod wedi dymuno gwneud mwy i ymgysylltu â chymunedau a'u cefnogi drwy'r pandemig ond lleihawyd eu gallu i wneud hynny oherwydd gostyngiad yn nifer eu gwirfoddolwyr ac am fod staff a gwirfoddolwyr yn teimlo'n anghyfforddus yn ymgymryd â rolau wyneb yn wyneb â chwsmeriaid neu'r cyhoedd yn ystod y pandemig.

7.62 I rai sefydliadau, mae troi eu gweithgareddau darparu i gefnogi cymunedau lleol drwy'r pandemig wedi eu galluogi i ddatblygu cysylltiadau newydd a dyfnhau eu cysylltiadau â grwpiau lleol. Nododd sawl sefydliad y byddai'r cysylltiadau hyn yn cael eu meithrin ymhellach wrth iddynt ailddechrau eu darpariaeth graidd, gan ganiatáu iddynt gryfhau eu cyfraniad at amcanion cymdeithasol a lles ehangach.

'Newidiodd ein gwasanaethau i'r gymuned. Gwnaethom lawer o alwadau Zoom, galwadau ffôn, i allu cadw mewn cysylltiad i helpu gydag iechyd meddwl a lles. Gwnaethom lwyddo i gael iPads i'w rhoi i'r gymuned er mwyn cadw mewn cysylltiad. Fe ddechreuon ni weithgareddau ar-lein hefyd. Nid gor-ddweud yw dweud ein bod wedi bod yn achub bywydau, ac mae iechyd meddwl a lles yn rhan fawr. Rydym yn darparu bwyd, yn ymdrin â llawer o golled a galar yn y gymuned gyda'r rhai sydd wedi cael profedigaeth a heb allu treulio amser gyda nhw ar y diwedd'. (Derbynnydd Grant Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant)

7.63 Un o'r materion a godwyd yn ystod ymgynghoriadau â rhanddeiliaid oedd y rôl bwysig y mae'r Gronfa wedi'i chwarae o ran diogelu asedau diwylliannol, gan gynnwys adeiladau a chasgliadau allweddol.

7.64 Roedd adroddiad ym mis Awst 2020 gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu[60] yn amlygu pryderon ynglŷn â sut mae’r pandemig yn crebachu'r rhwydwaith o amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth ledled Cymru, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig sy'n rhoi hwb hanfodol i'r economi leol.

---

[60] Senedd Cymru (2020)- ‘Effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau.’ Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Awst 2020.

7.65 Byddai colli'r asedau hyn yn lleihau'r seilwaith diwylliannol yn sylweddol ledled Cymru ac yn cael effaith ganlyniadol uniongyrchol ar nifer y swyddi (rolau staff a gweithwyr llawrydd) a rolau gwirfoddol sy'n cael eu cefnogi gan y sector. Byddai hefyd yn lleihau lefel ac ystod y digwyddiadau a'r gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn adferiad cymdeithas o'r pandemig.

> 'Mae gan amgueddfeydd ac orielau adeiladau a chasgliadau i'w cynnal. Mae'r costau hyn yr un fath p'un a yw adeilad ar agor neu ar gau. Mae colli incwm drwy ymwelwyr, manwerthu, caffis yn creu diffyg cronnol a allai olygu nad ydynt yn sefydliadau hyfyw. Os felly, gallai casgliadau gael eu gwerthu'n breifat a gallai'r genedl a chenedlaethau'r dyfodol eu colli.' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

7.66 O'r herwydd, mae cymorth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol nid yn unig wedi galluogi llawer o sefydliadau i weithredu gwasanaethau cymorth yn y gymuned drwy gydol y pandemig ond mae hefyd wedi diogelu nifer o leoliadau cymunedol a diwylliannol ledled Cymru. Wrth wneud hynny, mae'r Gronfa wedi sicrhau y gall y sector diwylliannol chwarae rhan ganolog wrth alluogi cymunedau ledled Cymru i adfer o'r pandemig a pharhau i gyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), yn fwyaf nodedig yn achos nod 6 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cynnal niferoedd ymwelwyr, gwylwyr a chynulleidfaoedd**

7.67 Mae dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan sefydliadau sy'n croesawu ymwelwyr ac a dderbyniodd arian drwy ddau gylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn dangos bod y sefydliadau hyn yn ymgysylltu â nifer fawr o ymwelwyr, gwylwyr a chynulleidfaoedd. Fel y nodwyd ganddynt hwy eu hunain yn eu ceisiadau i'r System Cyfrifon Busnes, gyda'i gilydd mae hyn yn cyfateb i ychydig o dan 22 miliwn o ymwelwyr, gwylwyr neu aelodau o gynulleidfa. Pe na bai'r 57 y cant o'r sefydliadau yr oedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn hanfodol i'w diogelu wedi goroesi, byddai colled gyfatebol o 12 miliwn o ymwelwyr, gwylwyr neu aelodau cynulleidfa.

7.68 Er nad yw'n bosibl amcangyfrif beth fyddai cyfanswm y golled i Gymru, gan y byddai unigolion yn dewis gweithgareddau eraill yn eu lle, mae'n debygol y byddai wedi lleihau gwariant yng Nghymru.

7.69 Gan edrych yn benodol ar ymwelwyr, yn 2019 (y data mwyaf addas cyn y pandemig), roedd 87.3m o ymweliadau dydd domestig yng Nghymru, gan

gynhyrchu gwariant o £3.5 biliwn neu £39.40 yr ymweliad.[61] Daeth ymweliadau domestig dros nos â £2 biliwn i mewn o 10.7 miliwn o ymweliadau neu £187 yr ymweliad, a chafwyd dros filiwn o ymweliadau rhyngwladol gyda gwariant o £515 miliwn neu £503 yr ymweliad.

7.70 Mae dadansoddiad o'r System Cyfrifon Busnes yn awgrymu bod 84 y cant o ymwelwyr, gwylwyr neu gynulleidfaoedd yn rhai domestig ac felly gan ddefnyddio cyfradd gwariant yr ymweliadau dydd domestig o £39.40 a'i chymhwyso at y golled gyfatebol o ymwelwyr, gwylwyr neu aelodau cynulleidfa ar gyfer y sefydliadau a fyddai wedi cau, gallai'r gwariant a ddiogelwyd fod yn £471 miliwn. Hyd yn oed pe bai hanner y rhain yn cael eu disodli gan weithgareddau eraill, heb y Gronfa Adferiad Diwylliannol gallai fod gostyngiad o £235 miliwn mewn gwariant pan fyddai cyfyngiadau'r pandemig yn dod i ben.

7.71 O ystyried y modd y mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn diogelu llawer o sefydliadau ymwelwyr a'r cyfraniad sylweddol y mae'r economi ymwelwyr yn ei wneud i'r economi genedlaethol, dylid parhau i gyfeirio ymdrechion yn y dyfodol at ailadeiladu niferoedd ymwelwyr, gwylwyr a chynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol fel rhan o ymgyrch dwristiaeth gydgysylltiedig dan arweiniad Croeso Cymru.

**Hyder a rhagolygon**


*Sefydliadau diwylliannol*

7.72 Nododd ychydig o dan hanner (47 y cant) y sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg o dderbynwyr grantiau a gynhaliwyd yn 2021[62] eu bod yn hyderus iawn y byddai eu sefydliad yn goroesi'r 12 mis nesaf a dywedodd yr un gyfran eu bod rywfaint yn hyderus.[63] Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol o ystyried yr ansicrwydd sylweddol ac mor agored i niwed oedd y sector drwy gydol y pandemig.

[61] Perfformiad Twristiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, 2020.
[62] Lansiwyd yr arolwg ar 29ain Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 1 Medi 2021.
[63] Noder y lansiwyd yr arolwg ar 29ain Gorffennaf 2021 ac y daeth i ben ar 1 Medi 2021. Mae'n bosibl nad yw'r lefelau hyder ar adeg llunio'r adroddiad hwn o anghenraid yr un peth â'r hyn a nodwyd pan oedd yr arolwg yn fyw.

7.73 Sefydliadau yn y sectorau Digwyddiadau a Diwylliant oedd y lleiaf hyderus yn eu gallu i oroesi'r 12 mis nesaf (Ffigur 7.7), sy'n amlygu cyflymder gwahanol o adferiad sydd wedi’i ddylanwadu gan ganllawiau iechyd y cyhoedd a’r ffaith bod cyfyngiadau’n cyfyngu ar allu pobl i ymgynnull.

**Ffigur 7.7 Hyder yn y gallu i oroesi’r 12 mis nesaf (yn ôl sector)**





Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o dderbynwyr grantiau’r Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=148

7.74 Mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen cymorth pellach wedi'i dargedu i sicrhau nad yw’r enillion a gyflawnwyd hyd yma drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cael eu colli a bod sefydliadau sydd wedi goroesi hyd yma yn cael eu diogelu ymhellach hyd at bwynt lle mae lefelau gweithredu a/neu fasnachu yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

7.75 Mae cyfweliadau â sefydliadau diwylliannol yn amlygu’r ffaith bod yr heriau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfyngiadau pellach ar sail iechyd y cyhoedd yn flaenaf a chanolog ym meddyliau’r derbynwyr grantiau ac yn dylanwadu ar eu barn am hyder a rhagolygon i’r dyfodol. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlygu cyfle i Lywodraeth Cymru a chyrff sector gefnogi meysydd eraill gan gynnwys recriwtio, datblygu sgiliau a buddsoddi cyfalaf (Ffigur 7.8).

**Ffigur 7.8 Ffactorau sy'n effeithio ar ragolygon a hyder ar gyfer yr 1-3 blynedd nesaf**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=195

'Ar hyn o bryd, y ffaith nad oes yna 'dyna ddiwedd COVID' clir. Mae cymaint o amrywiadau y mae pobl yn siarad amdanynt ac o bosibl yn dal i fod o gwmpas, fel bod y rheini'n bethau rwy'n poeni ychydig amdanynt. Unwaith y byddaf yn gwybod ein bod ni'n ddiogel, mae'n debygol y byddaf i'n fwy hyderus i fwrw ymlaen â chynlluniau eraill'. (Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Digwyddiadau)

'Brexit, teithio rhyngwladol a pha mor hawdd fydd hynny ac effaith gyffredinol COVID a hyder busnesau yn gyffredinol'. (Cylch 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Treftadaeth)

7.76 Bydd cael lefel o sicrwydd ynghylch pa gymorth parhaus sydd ar gael (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i drydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022) yn sbardun allweddol ar gyfer hyder sefydliadol wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig. Bydd cadw llinellau cyfathrebu ar agor rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff sector yn helpu i fagu mwy o hyder, a allai yn ei dro ddatgloi buddsoddiad ac annog y sector diwylliannol i dyfu'n gryfach.

*Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd*

7.77 Mae'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd (91 y cant) a ymatebodd i'r arolwg ar-lein yn dweud eu bod yn hyderus y byddai eu hymarfer yn goroesi'r 12 mis nesaf, ac mae dau o bob pump yn dweud eu bod yn hyderus iawn. Gweithwyr llawrydd yn yr is-sectorau Animeiddio, Fideo a Ffilm a Theledu oedd y rhai mwyaf hyderus ynglŷn â'u goroesiad dros y 12 mis nesaf, a'r rhai yn yr is-sectorau Cyhoeddi, Radio, Cerddoriaeth a Dawns oedd y rhai lleiaf hyderus. Mae hyn eto'n amlygu cyflymder gwahanol yr adferiad ar draws y sector diwylliannol oherwydd dylanwadau parhaus yn sgil y pandemig, tueddiadau defnyddwyr a rhagolygon ariannol.

7.78 Mae dadansoddiad o lefelau hyder yn ôl nodweddion proffil yn dangos bod gweithwyr llawrydd iau (16-49 oed) yn fwy tebygol o fod yn hyderus o'u goroesiad na grwpiau oedran hŷn (50+). Roedd gweithwyr llawrydd sydd ag unrhyw gyflyrau corfforol, synhwyraidd, dysgu neu iechyd meddwl, neu afiechydon sydd wedi para, neu y disgwylir iddynt bara, 12 mis neu fwy, hefyd yn dweud eu bod yn llai hyderus am eu goroesiad, gydag un o bob chwech yn nodi nad oeddent yn hyderus o gwbl, mwy na dwbl cyfradd y gweithwyr llawrydd nad oedd wedi nodi unrhyw gyflyrau iechyd neu hirdymor.

7.79 Mae hyn yn amlygu maes i Lywodraeth Cymru a chyrff sector allweddol ei archwilio'n fanylach o ystyried y pryderon cynyddol bod y pandemig wedi gwaethygu a chyflymu anghydraddoldebau presennol ar draws y sector celfyddydol a diwylliannol[64] a allai arwain yn anghymesur at unigolion a chymunedau sydd eisoes wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu diwylliannol yn gadael swyddi diwylliannol.

7.80 Mae adborth gan weithwyr llawrydd yn dangos y pwysau parhaus sy'n wynebu'r sector. Er bod ymdeimlad bod effeithiau gwaethaf y pandemig ar ben, mae angen cymorth parhaus ar lawer o weithwyr llawrydd hyd nes y gallant weithredu eu hymarfer yn llawn.

> 'Llawer o anghenion, anghenion hyfforddi, anghenion ariannol i barhau i ddarparu a chefnogi'r rhwydwaith.' (Dawns, Adloniant, Digwyddiadau, y Celfyddydau Perfformio, Theatr, Syrcas)

---

[64] Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol (2022)- 'Culture in Crisis: Impacts of COVID-19 on the UK cultural sector and where we go from here'.

7.81 Un pryder ehangach a godwyd yn yr ymgynghoriadau â gweithwyr llawrydd oedd y crebachiad yn y seilwaith cymunedol traddodiadol y mae llawer o weithwyr llawrydd yn gweithredu ynddo. Gallai hyn leihau maint cyffredinol y farchnad lawrydd wrth i lawer o leoliadau a mannau cymunedol gau gan leihau'r galw am ymarferwyr creadigol.

> 'Rwy'n credu mai dyna un o'r pethau sy'n fy mhoeni rywfaint yw faint o orielau, canolfannau cymunedol, theatrau ac ati na fydd yn ailagor... arddangosfeydd, cyngherddau, theatr, yr holl bethau hynny, os ydyn nhw'n diflannu oherwydd diffyg cyllid, rwy'n credu bod hynny'n golled anfesuradwy.' (Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau)

> 'Efallai ei fod yn edrych fel ei fod wedi mynd yn ôl i normalrwydd, yn enwedig os edrychwch ar y sefydliadau mawr yn unig, ond i fusnesau bach mae'n dal i fod yn frwydr wirioneddol ac mae'r cyfan yn ansicr iawn.' (Ffotograffiaeth)

7.82 Dylai Llywodraeth Cymru ar yr un pryd ystyried effaith y pandemig ar y lleoliadau a'r mannau cymunedol ledled Cymru a'r goblygiadau i natur y gwaith yn y gymuned o weithwyr llawrydd diwylliannol.

### Anghenion cymorth yn y dyfodol


*Sefydliadau diwylliannol*

7.83 Gwnaeth cyfweliadau manwl â sefydliadau diwylliannol amlygu ystod o anghenion cymorth sy'n cael eu rhagweld yn y dyfodol i'w galluogi i adfer o'r pandemig. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd cymorth ariannol pellach, yn aml i gydnabod y bwlch rhwng codi cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a'u gallu i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig a ffrydiau incwm / masnachu cysylltiedig (Ffigur 7.9 dros y dudalen).

7.84 Cyfeiriwyd yn yr adborth hefyd at bwysau ar gostau gweithredu sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni cynyddol, costau cyflenwyr uwch a chwyddiant cyffredinol, ar adeg lle'r oedd llawer o sefydliadau'n teimlo nad oeddent mewn sefyllfa gystal i ymdopi â'r rhain oherwydd gostyngiad mewn ffrydiau incwm a lefelau'r cronfeydd ariannol wrth gefn.

7.85 Nododd tua un o bob pum sefydliad y byddai unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus pellach sy'n gysylltiedig ag amrywiolion newydd posibl sy'n peri pryder yn dylanwadu'n gryf ar eu hanghenion cymorth yn y dyfodol. Yn hyn o beth, mynegodd sefydliadau awydd am ddeialog barhaus rhwng cyrff sector a Llywodraeth Cymru ac, os yw'n bosibl, sicrwydd y bydd cymorth ar gael pe bai unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn parhau neu'n dychwelyd.

**Ffigur 7.9 Anghenion cymorth sefydliadau diwylliannol yn y dyfodol**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Wavehill â derbynwyr grantiau Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol. N=199

7.86 Mewn gwaith ymchwil diweddar gan y Ganolfan Gwerth Diwylliannol,[65] amlygwyd bod rhai sectorau'n adfer yn arafach nag eraill. Mae'r ymchwil yn nodi bod y celfyddydau perfformio a gweledol ac amgueddfeydd ac orielau yn dychwelyd i 'normal' yn arafach.

7.87 Gan ddefnyddio'r data diweddaraf o'r Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau (BICS)1, ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2020 i fis Awst 2021, canfu'r ymchwil gan y Ganolfan Gwerth Diwylliannol, pan oedd ffyrlo yn dod i ben, fod gan y celfyddydau perfformio bron i 30 y cant a chan amgueddfeydd ac orielau dros 10 y cant o'r gweithlu ar ffyrlo, hyd yn oed wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio a phan

[65] Brook, O. O'Brien, D. ac M. Taylor (2022)- 'COVID, furlough and creative businesses.' Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol.

ddaethant i ben, ac mai dim ond dau y cant o'r gweithlu oedd ar ffyrlo mewn sectorau eraill.

7.88 Nid dyma'r unig sectorau yr effeithiwyd arnynt. Er bod effaith y pandemig ar ffilm a theledu a chyhoeddi yn llai sylweddol nag ar gyfer y celfyddydau perfformio a gweledol ac amgueddfeydd, roedd cyfraddau ffyrlo ar gyfartaledd yn dal i fod yn uwch na gweddill yr economi.

> 'Rwy’n gobeithio bod y cyllid am barhau gan fod y pandemigau a COVID ymhell o fod ar ben. Hoffwn weld Cylch 3 gan nad oeddwn yn gwybod bod ail gylch y byddwn yn bendant wedi gwneud cais amdano pe bawn wedi gwybod amdano. Rwy'n cael e-byst bob yn awr ac yn y man gan y Llywodraeth ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynnwys i’r rhain felly hoffwn bod gwybodaeth fwy penodol am ariannu'n cael ei anfon allan'. (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Creadigol)

> 'Mae angen rhywfaint o gefnogaeth barhaus arnom gan Gyngor y Celfyddydau i'n cael ni'n ôl mewn sefyllfa gynaliadwy. Credaf fod hynny'n gymysgedd o gymorth ariannol tymor byr ychwanegol, nid yn y tymor hir o reidrwydd, ond bydd y tymor byr yn rhoi cyfle inni ailystyried y sefydliad. (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Diwylliant)

7.89 Mae cyrff sector fel Cymdeithas yr Amgueddfeydd wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch y nifer cynyddol o ddiswyddiadau yn eu sector.[66] Mae hyn yn dangos bod effeithiau'r pandemig yn dal i gael eu teimlo ryw ddwy flynedd ers i'r cyfyngiadau i reoli lledaeniad y feirws gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020. Y cwestiwn sy'n wynebu llawer o sefydliadau yn y sector, gan fod y cynllun ffyrlo wedi dod i ben ac wrth i'r sector diwylliannol wynebu elfennau newydd o ansicrwydd, yw a fydd y swyddi a ddiogelwyd drwy’r cynllun yn dal i fod yn ddiogel.[67]

7.90 Ar y llaw arall, mynegodd tua un o bob deg sefydliad diwylliannol awydd am gymorth i'w helpu i recriwtio a thyfu wrth iddynt adfer o'r pandemig. Un o'r heriau a godwyd gan sefydliadau diwylliannol oedd eu gallu i recriwtio, gan fod rhai yn ei chael yn anodd llenwi swyddi gwag a denu pobl â'r sgiliau cywir.

---

66 Gweler Traciwr Diswyddiadau Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

67 Brook, O. O’Brien, D. ac M. Taylor (2022)- ‘Covid, furlough and creative businesses’. Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol.

7.91 Gall sefydliadau diwylliannol ac is-sectorau sy'n fwy dibynnol ar ddefnyddio gweithwyr llawrydd fod yn gyfyngedig o ran eu gallu i adfer eu ffrydiau refeniw i lefelau cyn y pandemig am na allant recriwtio i rolau llawrydd.

> 'Hoffwn gael cymorth a chyngor ynglŷn â chyflogi a recriwtio staff newydd mewn marchnad swyddi gystadleuol iawn.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Digwyddiadau)

7.92 Maes arall a godwyd gan sefydliadau diwylliannol oedd awydd am ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo'r sector ac yn annog pobl i ddychwelyd fel ymwelwyr, aelodau cynulleidfa, cyfranogwyr a gwirfoddolwyr. Roedd sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel i ddychwelyd, gan gynnwys grwpiau agored i niwed, yn bwysig o ran dod â hyder ac incwm yn ôl i'r sector.

7.93 Mae hyder defnyddwyr a chynulleidfaoedd i ddychwelyd i ddigwyddiadau, lleoliadau a gweithgareddau diwylliannol hefyd yn ansicr. Efallai na fydd sefydliadau diwylliannol sy'n fwy dibynnol ar ymwelwyr tramor yn gweld adferiad yn eu sylfaen o ymwelwyr craidd am nifer o flynyddoedd. Mae lleoliadau dan do a digwyddiadau awyr agored yn debygol o gael eu dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys unrhyw ofynion cadw pellter cymdeithasol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chynnydd lleol neu genedlaethol mewn cyfraddau COVID-19 neu pe byddai'n orfodol i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cael eu brechu, er enghraifft pàs COVID.

7.94 I lawer o sefydliadau diwylliannol sy'n seiliedig mewn lleoliad, mae'r penderfyniad ynghylch sut a phryd i ailagor a chychwyn rhaglennu neu ddigwyddiadau byw yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan ystyriaethau ynghylch capasiti a'r defnydd o seddau.

> 'Mae angen i ni gael pobl drwy'r drysau, a chredaf fod y rhan fwyaf o'r amgueddfeydd a'r orielau yn yr un sefyllfa; mae angen help arnom i sicrhau bod pobl yn hyderus i ddod yn ôl i atyniadau ymwelwyr'. (Derbynnydd Grant Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Diwylliant: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd)

7.95 Roedd yr adborth hefyd yn amlygu awydd am fwy o gyfleoedd i'r sector diwylliannol rwydweithio, gan eu galluogi i archwilio cyfleoedd i gydweithio, rhannu syniadau, trafod arferion gorau ac yn gyffredinol i gefnogi ymdrechion i feithrin cydnerthedd ar y cyd ar draws y sector.

> 'Prin yw'r cyfleoedd i rwydweithio, felly hoffwn weld mwy o gyfleoedd i wneud hyn – fy nghanfyddiad i yw nad yw cyfleoedd i rwydweithio a rhwydweithiau yng Nghymru yn gyffredinol yn dda iawn – byddai'n dda datblygu rhai rhwydweithiau sector lle gallwn rannu gwybodaeth a dealltwriaeth.' (Derbynnydd Grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, Sector Creadigol)

7.96 I gydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu llawer o sefydliadau, ym mis Ionawr 2022 cyhoeddwyd cronfa o £15.4 miliwn i gefnogi sectorau celfyddydol a diwylliannol Cymru, fel rhan o drydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Nod y gronfa yw cefnogi'n benodol sefydliadau a effeithiwyd gan y mesurau Lefel Rhybudd 2 a roddwyd ar waith gan Weinidogion ddiwedd Rhagfyr i helpu i reoli lledaeniad cyflym amrywiolyn omicron.[68] Mae cronfa sefydlogrwydd y gaeaf a gyhoeddwyd yn flaenorol[69] wedi'i chyfuno â'r trydydd cylch hwn o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol er mwyn sicrhau ei bod yn cydweddu â'r cymorth ariannol sydd ar gael. Mae'r cyllid hefyd yn rhoi cymorth i fusnesau a sefydliadau cymwys nad ydynt wedi cael cymorth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol hyd yma ac sy'n bodloni meini prawf y gronfa.

7.97 Bydd cyflawni Cylch 3 y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn sicr yn helpu i ddiogelu llawer o sefydliadau sydd wedi cael cymorth grant yn y ddau gylch cyntaf ac sydd wedi'u heffeithio'n benodol gan Lefel Rhybudd 2 ac wrth wneud hynny bydd yn cyfrannu at eu goroesiad a'u hadferiad parhaus wrth i Gymru a'r DU yn ehangach ddod allan o'r pandemig yn ystod gwanwyn 2022.

7.98 Yn fwy cyffredinol, mae'r pandemig wedi amlygu'r angen i Lywodraethau'r DU a Chymru weithio gyda chyrff sector i fynd i'r afael â'r bylchau a'r annhegwch sy'n amlwg mewn amrywiaeth o gynlluniau cymorth sy'n cael eu gweinyddu mewn ymateb i'r pandemig. Mae angen i hyn symud y tu hwnt i ymateb y llywodraeth i ddigwyddiadau digynsail fel COVID-19, er mwyn cydnabod yn fwy sylfaenol wendidau strwythurol yn y sector a'r rôl ganolog y mae gweithwyr llawrydd yn ei chwarae yn y sector creadigol a diwylliannol yng Nghymru a phwysigrwydd gwella diogelwch gwaith a chymorth.

7.99 Amlygodd rhanddeiliaid a sefydliadau diwylliannol ansicrwydd ynghylch cyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol a gostyngiad disgwyliedig yng nghyllidebau

---

[68] Gweler cyhoeddiad ariannu Llywodraeth Cymru.

[69] Gweler manylion Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf.

diwylliannol awdurdodau lleol a fyddai yn ei dro yn rhoi pwysau ar lawer o amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. O'r herwydd, er bod llawer o'r rhain wedi'u cynorthwyo drwy gael mynediad i'r Gronfa, ystyriwyd bod eu cynaliadwyedd yn y dyfodol ymhell o fod yn ddiogel. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr angen am fodelau darparu newydd a allai helpu i ddiogelu amrywiaeth o asedau a gwasanaethau diwylliannol rhag toriadau yn y gyllideb yn y dyfodol.

## 8. Gwersi allweddol

8.0 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno'r gwersi allweddol o werthusiad y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

8.1 Er bod nifer o wersi wedi'u hawgrymu gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, yn fwyaf nodedig a chyson, fodd bynnag, roedd y gwersi a ddysgwyd yn ymwneud â'r berthynas a ddatblygwyd rhwng y sector a'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus. Nododd sawl rhanddeiliad fod cyflawni'r gronfa wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu a dyfnhau ei dealltwriaeth o'r sector diwylliannol. Mae gan hyn y potensial i hwyluso deialog a gwaith partneriaeth cryfach fel rhan o ymdrechion parhaus i gefnogi adferiad y sector o'r pandemig.

> 'Mae darparu'r gronfa wedi helpu i wella deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector diwylliannol, ac oddi mewn i'r sector. Mae gan hyn botensial i gefnogi arloesedd a modelau newydd o weithio wrth symud ymlaen fel rhan o'r cyfnod adfer o'r pandemig. (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

8.2 Roedd rhai cyfweleion hefyd yn teimlo bod y pandemig a'r Gronfa wedi datblygu gwerthfawrogiad nid yn unig o'r cysylltiadau oddi mewn i'r sector / rhwng y sector a sectorau eraill, ond hefyd rhwng y sector a chymunedau.

8.3 Mae'n amlwg bod effeithiau pandemig COVID-19 ar yr economi wedi bod yn wahanol ar draws sectorau. Soniodd rhanddeiliaid mewn rhai sectorau am yr effaith tymor hwy neu barhaus ar gynllunio a pharatoi sy'n rhan annatod o'u gwaith. Mae digwyddiadau mawr, er enghraifft, yn dibynnu ar gyfnodau cynllunio a datblygu hirdymor. Mae ansicrwydd ynghylch mesurau ymbellhau cymdeithasol yn y dyfodol a hyder y cyhoedd i fynychu digwyddiadau yn parhau i greu heriau mawr.

8.4 Awgrymodd sectorau sy'n dibynnu ar fannau ffisegol, fel llyfrgelloedd neu amgueddfeydd, y bydd ansicrwydd ynghylch hyder y cyhoedd i ymweld â digwyddiadau dan do a'u mynychu yn parhau i effeithio ar eu refeniw i'r dyfodol – o bosibl gan golygu bod angen cymorth parhaus neu ledaenu'r cymorth dros nifer o flynyddoedd a gweithgarwch eiriolaeth neu ymgyrchu posibl ar lefel genedlaethol. Mae diwydiannau eraill wedyn yn rhagweld newid mewn tueddiadau defnyddwyr a'r defnydd o wasanaethau. Wrth i gymdeithas symud i gyfnod adfer, mae sawl her yn debygol o barhau.

> 'Mae canlyniadau tymor hwy yn gysylltiedig â thueddiadau defnyddwyr. Mae sinemâu yn buddsoddi mewn gwella seddi, sain a phrofiad ehangach y cwsmer. Bu anhawster hefyd o ran ffilmiau, am fod llai o ffilmiau'n cael eu rhyddhau i'w dosbarthu yn y cyfnod o ailagor ar ddiwedd y cyfnod clo cyntaf sy'n effeithio ar ffrydiau refeniw sinemâu. Mae hyn yn gwella ond nid yw hyd yma wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Ar hyn o bryd, mae wedi dod yn fwy dibynnol ar y ffilmiau mawr sy'n cael eu rhyddhau ac mae llai o amrywiaeth am fod ffilmiau maint canolig a llai yn cael eu dal yn ôl o gael eu rhyddhau am fod ar y dosbarthwyr ofn colli incwm (llai o archebion).' (Cyfweliad â Rhanddeiliaid, 2021)

8.5 O'r herwydd, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru a chyrff sector ystyried defnyddio polisi ac ymateb ariannu wedi'i dargedu'n well i fynd i'r afael â'r heriau hyn ar gyfer sectorau penodol fel rhan o gyfnod adfer ac ailadeiladu.

> 'Er bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi bod yn bwysig o ran cynorthwyo busnesau mor bell â hyn, bydd busnesau sy'n darparu digwyddiadau treftadaeth a diwylliannol ar gyfer Grwpiau Twristiaeth Rhyngwladol yn parhau i ddioddef am amser hir i ddod a bydd angen cymorth pwrpasol arnynt. Ni all busnes ddychwelyd cyn Gwanwyn 2022, ac mae llawer yn rhagweld effeithiau am flynyddoedd i ddod. Yn anffodus, nid yw'r gwaith ar ben. (Derbynnydd grant Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, 2021)

8.6 Mae adborth gan randdeiliaid wedi amlygu amrywiaeth o faterion a heriau sy'n debygol o ddylanwadu ar allu sefydliadau diwylliannol ledled Cymru i oroesi yn y tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys colli sgiliau a phrofiad wrth i staff neu weithwyr llawrydd symud o'r sector i swyddi yr ystyrir eu bod yn fwy diogel neu'n talu'n well.

8.7 Ar y llaw arall, cyfeiriodd rhanddeiliaid at heriau y mae amrywiaeth o sefydliadau diwylliannol yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth ailagor am na allant lenwi swyddi neu gomisiynu isgontractwyr (gan gynnwys mewn cadwyni cyflenwi sy'n cefnogi gwasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol). Mae hyn hefyd yn ymestyn i'r angen i gynorthwyo sefydliadau diwylliannol i ailadeiladu eu sylfaen o wirfoddolwyr.

8.8 Gall momentwm o ran gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth sy'n amlwg yn nyluniad a chyflawniad dau gylch cyntaf y Gronfa Adferiad Diwylliannol helpu i lywio ymateb polisi yn y dyfodol i gynorthwyo a chynnal y sector. Mae'r pandemig wedi amlygu materion strwythurol dyfnach yn y sector diwylliannol yng Nghymru y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau’r modd y mae’n agored i unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol ynghyd â chryfhau ei gyfraniad sydd eisoes yn sylweddol i'r saith nod llesiant a gyflwynwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8.9 Mae hyn yn cynnwys cefnogi sefydliadau yn y sector diwylliannol i ddod yn fwy gwydn a datblygu modelau darparu newydd gan gynnwys sefydlu ffrydiau refeniw newydd i'w diogelu rhag amgylchedd ariannu heriol yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol. Mae gan y Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd y potensial i hwyluso dysgu rhwng cymheiriaid ac arloesi pellach ar draws y sector i hybu cydnerthedd yn ogystal â galluogi sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd i gryfhau eu cyfraniad i feysydd polisi ehangach.

## 9. Casgliadau

9.0 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canfyddiadau'r gwerthusiad o broses ac effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol 2020-2021. Yr hyn a fu'n amlwg drwy gydol y broses o gynnal y gwerthusiad yw bod yr heriau sy'n deillio o'r pandemig wedi esblygu. O'r herwydd, effeithiwyd ar natur y cymorth a gallu sefydliadau a gweithwyr llawrydd i ddychwelyd i ryw fath o amodau gweithredu arferol.

9.1 O ganlyniad, er bod y gwerthusiad wedi archwilio gweithrediad ac effeithiau uniongyrchol y cymorth grant a ddarparwyd drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn erbyn amcanion allweddol sy'n ymwneud â goroesiad sefydliadol a diogelu swyddi, mae heriau'n parhau, ac mae'r effeithiau tymor hwy yn dal yn aneglur. I lawer o dderbynwyr grantiau, mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi darparu pont i'w galluogi i lywio'r ffordd drwy'r pandemig, ac eto mae'r dirwedd y mae llawer o sefydliadau a gweithwyr llawrydd yn ei chyrraedd yn parhau'n wahanol iawn i'r un cyn dechrau COVID-19 ar ddechrau 2020.

9.2 Fodd bynnag, mae adborth gan dderbynwyr grantiau wedi amlygu'r ffaith bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi helpu ac yn helpu i liniaru effeithiau negyddol y pandemig. Mae'r arian wedi diogelu cronfeydd ariannol wrth gefn ac incwm, wedi galluogi a hwyluso arloesedd, datblygu a chryfhau rhwydweithiau a chydweithio a chynorthwyo sefydliadau a gweithwyr llawrydd fel ei gilydd i gynnal hyder yn eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol wrth i Gymru ddod allan o COVID-19.

**Effaith y pandemig**

9.3 Un o nifer o nodweddion llechwraidd pandemig COVID-19 fu'r effaith anghymesur ar grwpiau a sectorau penodol o fewn yr economi. Mae gweithgareddau amrywiol, o berfformiadau byw a chynyrchiadau theatr i arddangosfeydd ac orielau, wedi gweld eu refeniw'n gostwng yn sylweddol wrth i leoliadau gau eu drysau ac wrth i bobl gael eu gwahardd rhag ymgynnull er mwyn cadw pellter cymdeithasol.

9.4 Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am y Gronfa Adferiad Diwylliannol ym mis Gorffennaf 2020, a'r hysbysiad dilynol am gylch ariannu pellach ym mis Tachwedd 2021, wedi darparu cyfanswm o £63.7 miliwn i gynorthwyo sefydliadau diwylliannol, cadwyni cyflenwi a gweithwyr llawrydd ledled Cymru. Mae natur ddigynsail y pandemig wedi golygu bod y prosesau a'r amserlenni arferol ar gyfer datblygu a

gweinyddu cymorth grant wedi bod yn anymarferol, ac felly roedd angen cynllunio a darparu dulliau cyflawni newydd ar gyfer cymorth grant.

**Dyluniad y Gronfa a dulliau cyflawni**

9.5 Ni ddylid bychanu lefel y gwaith oedd ei angen i roi Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar waith ychydig fisoedd yn unig ar ôl dechrau'r pandemig ac mae cyflymder yr ymateb ar draws tair elfen y rhaglen wedi'i gydnabod a'i groesawu'n gyffredinol ar draws y sector.

9.6 Mae dyluniad a chyflawniad y Gronfa wedi llwyddo i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwneud yn siŵr bod cyllid yn cael ei ddarparu'n gyflym o ystyried yr argyfwng ariannol a wynebai lawer o sefydliadau a diogelu'r pwrs cyhoeddus ar yr un pryd. Mae cyflawni hyn, ynghyd â sicrhau hefyd bod y ffurflen gais a'r broses yn parhau i fod mor ysgafn â phosibl, wedi golygu bod angen ymagwedd bragmatig gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Chyngor Celfyddydau Cymru.

9.7 Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid yr un farn ag ymgeiswyr, a chredwyd ar y cyfan bod y Gronfa wedi'i dylunio'n dda, a’i bod yn darparu eglurder a mynediad hwylus. Teimlwyd bod cyflymder darparu'r cyllid wedi bod yn gryfder allweddol. At hynny, credwyd bod yr ymgysylltu rhwng y sector, cyrff cyhoeddus a'r Llywodraeth wedi bod yn ganlyniad annisgwyl ond cadarnhaol arall. Mae gan y lefel hon o ymgysylltu a chydweithredu bellach y potensial i ganolbwyntio ar anghenion cymorth tymor hwy a strwythurol yn y sector diwylliannol yng Nghymru wrth i'r genedl symud i gyfnod adfer ac ailadeiladu.

9.8 Er bod rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn cefnogi'r dyheadau y tu ôl i'r Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd, mae angen arweiniad a chymorth pellach i sicrhau bod y dyheadau a'r amcanion sy'n sail i'w datblygiad yn cael eu gwireddu'n llawn. Ac eto, mae arwyddion cadarnhaol bod rhai sefydliadau diwylliannol sy'n derbyn arian o’r Gronfa Adferiad Diwylliannol eisoes wedi gwneud newidiadau i'r model busnes i gefnogi twf cynhwysol, llesiant ac amcanion amgylcheddol. Roedd gweithwyr llawrydd hefyd yn cefnogi cysyniad yr Adduned ac roedd llawer yn canmol Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â hyn. Mae gan hyn y potensial i greu gwaddol i'r sector diwylliannol a'r gymdeithas ehangach ledled Cymru.

**Proffil ymgeiswyr a derbynwyr y grantiau**

9.9 Ar draws Cylch 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, derbyniwyd cyfanswm o 2,013 o geisiadau ac mae 1,211 o sefydliadau wedi sicrhau cymorth grant. Dyfarnwyd cyfanswm o £71.6 miliwn ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol o £100.5 miliwn y gwnaeth sefydliadau diwylliannol gais amdano. Mae hyn yn fwy na chyllideb wreiddiol y gronfa o £63.7miliwn. Gan adlewyrchu'r cyfrannau uwch o ficrofusnesau yn y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru, dyfarnwyd 90 y cant o geisiadau cymeradwy ar draws y ddau gylch i ficrofusnesau.

9.10 Mae'r data gweinyddol o ddau gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod tua 3,783 o weithwyr llawrydd unigryw wedi cael cymorth ar draws dau gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, a bod 995 wedi derbyn grant yn y ddau gylch. Dyfarnwyd cyfanswm gwerth ychydig dros £10 miliwn o grantiau. I'r rhan fwyaf o'r rhai a dderbyniodd gymorth, eu hymarfer llawrydd oedd eu gwaith amser llawn ac felly nid ydynt wedi gallu ennill cyflog neu incwm o waith nad yw'n ymwneud â'r sector diwylliannol i wrthbwyso’r incwm a gollwyd ganddynt. Mewn geiriau eraill, nid oedd y rhan fwyaf o weithwyr llawrydd yn gallu dibynnu ar ffynonellau eraill i’w cefnogi eu hunain drwy'r pandemig.

**Ymateb derbynwyr grantiau i'r pandemig**

9.11 Mae sefydliadau wedi defnyddio eu cyllid grant i dalu biliau, talu gorbenion a chyflogau staff. Fodd bynnag, defnyddiodd ychydig dros hanner y sefydliadau a dderbyniodd yr arian a gawsant hefyd i adolygu eu model busnes neu eu gwasanaethau neu fuddsoddi mewn offer. Mae adborth gan weithwyr llawrydd wedi cyflwyno darlun tebyg gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio'r arian i dalu biliau a gorbenion yn ogystal â bod yn ffynhonnell incwm.

9.12 Mae ychydig dros hanner y sefydliadau diwylliannol wedi datblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd mewn ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn darparu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg bod y Gronfa wedi cynorthwyo a galluogi sefydliadau diwylliannol i arloesi, o bosibl gan ddatblygu meysydd newydd o fusnes a ffrydiau refeniw a gwella cydnerthedd i ymdrin ag amhariadau a chyfyngiadau gweithredol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Dywedodd pedwar o bob 10 gweithiwr llawrydd hefyd eu bod wedi addasu eu gweithgareddau a'u gwasanaethau mewn ymateb i'r pandemig gydag ychydig dros chwarter yn datblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd.

9.13 Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod cyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi galluogi llawer o sefydliadau i gyfeirio buddsoddiad mewn gwahanol feysydd o'u busnes, gan gynnwys costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu offer newydd neu gynnal a chadw ased sefydlog, yn ogystal â chostau hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Gyda'i gilydd, mae hyn wedi galluogi'r Gronfa i gefnogi gallu llawer o sefydliadau i oroesi yn y dyfodol agos yn ogystal â'u hyfywedd yn y tymor hwy. Nododd llawer o weithwyr llawrydd fod yr arian wedi rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer creadigol a nodi cyfleoedd i'r dyfodol.

**Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr grantiau**

9.14 I lawer o sefydliadau yn y sector diwylliannol, nid yw eu gallu i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig yn hysbys eto. O'r herwydd, efallai na fydd effaith lawn y Gronfa o ran diogelu sefydliadau a swyddi yn gwbl amlwg am beth amser ar ôl codi'r cyfyngiadau a dychwelyd i amodau gweithredu cyn y pandemig.

9.15 Nododd ychydig dros hanner y derbynwyr grantiau y byddent wedi cau eu sefydliad yn absenoldeb y Gronfa Adferiad Diwylliannol, gydag effaith ehangach ar allu'r sector i gefnogi cymunedau fel rhan o'r cyfnod adfer o'r pandemig. Byddai ychydig o dan hanner wedi gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn eu sefydliadau, gan eu rhoi mewn sefyllfa weithredu fwy ansicr o bosibl, a byddai tua phedwar o bob 10 wedi diswyddo staff.

9.16 Roedd y rhai a oedd yn derbyn cyllid yn cyfrif am 4,777 o staff cyfwerth ag amser llawn, sef 0.27 y cant o gyfanswm cyflogaeth Cymru. O ystyried bod 57 y cant o'r ymatebwyr wedi nodi bod y cymorth a gawsant gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn hanfodol i oroesiad eu sefydliad, byddai hyn yn cyfateb i ddiogelu 2,700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Cyfanswm nifer y rolau llawrydd contractiol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau diwylliannol a dderbyniodd gymorth ariannol yw 21,396. Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos maint yr effaith y mae'r gronfa wedi'i chael o ran diogelu swyddi a bywoliaeth ar draws y sector diwylliannol yng Nghymru.

9.17 Amcangyfrifir bod y broses o ddiogelu sefydliadau diwylliannol hefyd wedi helpu i ddiogelu 77,000 o rolau gwirfoddolwyr sydd, yn ei dro, yn darparu amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r gwirfoddolwyr eu hunain a'r cymunedau y maent yn eu cefnogi.

9.18 Mae’r gwaith ymgynghori â gweithwyr llawrydd wedi canfod y byddai tua thraean wedi gadael y sector yn llwyr yn absenoldeb cymorth ariannol ac roedd cyfran debyg yn nodi y byddent wedi dod o hyd i swydd arall dros dro y tu allan i'r sector. Yn ymarferol, dim ond un o bob saith a ddaeth o hyd i swydd arall, gan awgrymu bod y cyllid wedi helpu i atal nifer rhag gadael y sector.

9.19 Mae dadansoddiad o sefydliadau ymwelwyr a dderbyniodd gymorth ariannol drwy ddau gylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn dangos bod nifer fawr o ymwelwyr, gwylwyr ac aelodau cynulleidfa yn cael eu croesawu gan y derbynwyr grantiau hyn. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cyfateb i ychydig o dan 22 miliwn o ymwelwyr, gwylwyr ac aelodau cynulleidfa. Yn absenoldeb y Gronfa, mae'n ddichonadwy na fyddai llawer o sefydliadau ymwelwyr wedi goroesi gan olygu colled gyfatebol o 12 miliwn o ymwelwyr, gwylwyr neu aelodau cynulleidfa. Byddai hyn wedi arwain at ostyngiad o £235 miliwn mewn gwariant pan fyddai cyfyngiadau'r pandemig yn dod i ben.

9.20 Yn olaf, mae cymorth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi galluogi llawer o sefydliadau i weithredu gwasanaethau cymorth yn y gymuned drwy gydol y pandemig ac mae hefyd wedi diogelu nifer o leoliadau cymunedol a diwylliannol ledled Cymru. Wrth wneud hynny, mae'r Gronfa wedi sicrhau y gall y sector diwylliannol chwarae rhan ganolog wrth alluogi cymunedau ledled Cymru i adfer o'r pandemig a pharhau i gyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

9.21 I gydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu llawer o sefydliadau, ym mis Ionawr 2022 cyhoeddwyd cronfa o £15.4 miliwn i gynorthwyo sectorau celfyddydol a diwylliannol Cymru, fel rhan o drydydd cylch y Gronfa Adfer Diwylliannol. Bydd darparu'r trydydd cylch hwn o gymorth yn sicr o helpu i ddiogelu llawer o sefydliadau sydd wedi cael cymorth grant yn y ddau gylch cyntaf ac wrth wneud hynny bydd yn cyfrannu at eu goroesiad a'u hadferiad parhaus wrth i Gymru a'r DU yn ehangach ddod allan o'r pandemig yn ystod gwanwyn 2022.

## 10. Ystyriaethau polisi

10.0 Caiff nifer fach o ystyriaethau polisi eu cyflwyno isod mewn ymateb i ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020-2021.

**Ystyriaeth 1**

10.1 Gall momentwm o ran gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth sy'n amlwg yn nyluniad a chyflawniad dau gylch cyntaf y Gronfa Adferiad Diwylliannol helpu i lywio ymateb polisi yn y dyfodol i gynorthwyo a chynnal y sector. Mae'r pandemig wedi amlygu materion strwythurol dyfnach yn y sector diwylliannol yng Nghymru y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau'r modd y mae'n agored i unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol ynghyd â chryfhau ei gyfraniad sydd eisoes yn sylweddol i'r saith nod llesiant a gyflwynwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff sector allweddol sicrhau bod yr adferiad o COVID-19 yn cael ei ystyried a'i gynnwys wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliant genedlaethol. Dylai hyn ganolbwyntio ar helpu'r sector i symud o gam goroesi i gam ffynnu.

**Ystyriaeth 2**

10.2 Gan nad oes unrhyw ddata dibynadwy ar broffil y gweithlu llawrydd ar draws y sector diwylliannol yng Nghymru, nid yw'n bosibl nodi a yw unrhyw grwpiau penodol yn cael eu tangynrychioli ym mhroffil y rhai sy'n derbyn grantiau. Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector perthnasol ystyried gwneud gwaith i fapio a phroffilio maint a chyfansoddiad y gymuned o weithwyr llawrydd ledled Cymru fel rhan o waith parhaus i gefnogi ac ymgysylltu â gweithlu sy'n rhan annatod o weithrediad llawer o sefydliadau diwylliannol.

**Ystyriaeth 3**

10.3 Er bod rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn cefnogi'r dyheadau y tu ôl i'r Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd, mae adborth wedi amlygu'r angen am fwy o arweiniad a chefnogaeth. Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector gynhyrchu adnoddau pellach a sefydlu cymuned ymarfer i alluogi i botensial y Contract a'r Adduned gael ei gyflawni.

**Ystyriaeth 4**

10.4 Gallai Llywodraeth Cymru ystyried buddsoddi mewn ymgyrch bwrpasol i hyrwyddo rolau gwirfoddoli yn y sector diwylliannol i helpu i weithredu a rheoli llawer o wasanaethau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys gwaith cydgysylltiedig gyda phlatfform Gwirfoddoli Cymru.

**Ystyriaeth 5**

10.5 Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector perthnasol ystyried opsiynau i gynyddu amlygrwydd gweithwyr llawrydd creadigol a chefnogaeth iddynt, yn ogystal ag archwilio'n fwy sylfaenol i ba raddau y gellir annog sefydliadau diwylliannol i addasu eu modelau gweithredu i gynnig mwy o sicrwydd swyddi i'r sector llawrydd.

**Ystyriaeth 6**

10.6 O ystyried y modd y mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn diogelu llawer o sefydliadau ymwelwyr a'r cyfraniad sylweddol y mae'r economi ymwelwyr yn ei wneud i'r economi genedlaethol, bydd parhau â'r ymgyrch dwristiaeth gydgysylltiedig sy'n cael ei harwain drwy Croeso Cymru yn helpu i ailadeiladu nifer yr ymwelwyr domestig a rhyngwladol.

**Ystyriaeth 7**

10.7 Gallai Llywodraeth Cymru asesu effaith y pandemig ar hyfywedd a chynaliadwyedd lleoliadau cymunedol ledled Cymru yn y dyfodol o ystyried eu rôl annatod fel mannau i sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd ymgysylltu â chynulleidfaoedd, cyfranogwyr a chymunedau a'u cefnogi.

**Adran Gyfeiriadau**


Arts Index (2020) a gyhoeddwyd gan The National Campaign for the Arts (NCA)

ArtWorks Cymru (2020)- ‘COVID-19 Impact on Participatory Arts in Wales’. Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan ArtWorks Cymru.

Brook, O. O’Brien, D. ac M. Taylor (2022)- ‘COVID, furlough and creative businesses.’ Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol

Browne Gott, H. (2020). Archwilio’r berthynas rhwng diwylliant a llesiant. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 15/2020

Caerdydd Creadigol (2020)- ‘Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19: Sut fydd hyn yn helpu gweithwyr llawrydd y diwydiannau creadigol yng Nghymru?’

Cyngor Celfyddydau Lloegr (2018)- ‘Arts and culture in health and wellbeing and in the criminal justice system: A summary of evidence’.

DCMS Sectors Economic Estimates 2018: Regional GVA

DCMS Sectors Economic Estimates 2019: Employment

Dirnad Economi Cymru (2019)- ‘Busnesau canolig eu maint a strwythur busnesau Cymru’.

Llywodraeth Cymru (2016) ‘Spotlite ar Amgueddfeydd 2016.’

Llywodraeth Cymru (2020) ‘Datganiad Ysgrifenedig: Y Gronfa Adferiad Diwylliannol – cyllid ychwanegol’. 11 Tachwedd 2020.

Llywodraeth Cymru (2021) ‘Adolygiad Mewnol: Gwersi a Ddysgwyd o’r Gronfa Adferiad Diwylliannol’. 9fed Mawrth 2021.

Llywodraeth Cymru (2021) ‘Llesiant Cymru: 2021’. Adroddiad am y cynnydd mae Cymru yn ei wneud tuag at wella llesiant cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol.’

OECD (2020)- ‘Culture shock: COVID-19 and the cultural and creative sectors.’ Ymatebion Polisi yr OECD i’r Coronafeirws (COVID-19). 7 Medi 2020.

Oxford Economics (16 July 2020) The Projected Economic Impact of COVID-19 on the UK Creative Industries, tudalen 21

Perfformiad Twristiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, 2020

Senedd Cymru (2020) ‘Effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau.’ Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Awst 2020.

Senedd Cymru (2020) ‘Effaith yr achosion COVID-19 ar y diwydiannau creadigol.’ Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Gorffennaf 2020.

Taylor, P. et al (2015)- ‘A review of the Social Impacts of Culture and Sport’.

Croeso Cymru (2020)- ‘Arolwg o’r effeithiau ar y diwydiant digwyddiadau a busnesau yn y gadwyn gyflenwi COVID-19: 12 Tachwedd i 8 Rhagfyr 2020’.

Wavehill (2021) ‘The Contribution of Events to Scotland’s Wellbeing’. Adroddiad i Visit Scotland.

Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol (2022)- ‘Culture in Crisis: Impacts of COVID-19 on the UK cultural sector and where we go from here’.

Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol (Hydref 2020)- ‘Policy review: Cultural policy responses to COVID-19 in the UK’. Hydref 2020.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ‘Monthly gross domestic product by gross value added’, 12 Awst 2020. Noder: Dylid darllen yr ystadegau yn unol â’r cafeatau a ddarperir yn y set ddata wreiddiol.

## Atodiad A: Dulliau ymchwil

### Gwybodaeth Fonitro

Yn achos Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru, roedd y wybodaeth fonitro a ddarparwyd i'r gwerthuswyr yn cynnwys cofnodion ceisiadau Cronfa'r System Cyfrifon Busnes, cofnodion ceisiadau Cronfa Cyngor Celfyddydau Cymru a ddarparwyd drwy eu System Rheoli Grantiau a gwybodaeth am geisiadau gan arweinwyr sector unigol yn Llywodraeth Cymru. Dadansoddwyd y data yma i nodi nifer y cofnodion a gasglwyd, y broses ymgeisio a pha wybodaeth a gasglwyd. O ystyried pa mor gynhwysfawr yw'r data, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r dadansoddiad o gyfuniad o gofnodion y System Cyfrifon Busnes a chofnodion Cyngor Celfyddydau Cymru lle’r oedd y meysydd a ddefnyddiwyd yn y ddau yn weddol gyson.

Defnyddiwyd y cofnodion hyn i lunio set ddata o ymgeiswyr unigryw yn seiliedig ar faes Rhif Cyfeirnod Unigryw’r Busnesau yng nghofnodion y System Cyfrifon Busnes ac enwau sefydliadau yng nghofnodion CCC. Dadansoddwyd y set ddata hon i ddeall tueddiadau yn y 2,103 o sefydliadau a wnaeth gais ac i bennu'r effaith y mae'r gronfa wedi'i chael ar y sector ar gyfer y 1,211 o fusnesau.

Ar gyfer Cylch 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, darparwyd 21 o daenlenni unigol i'r tîm gwerthuso gan awdurdodau lleol a ddosbarthodd yr arian. Darparodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad blaenorol o ddata Cylch 1 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd i'r tîm gwerthuso. Cafodd y rhain eu cydgrynhoi a'u glanhau er mwyn darparu dadansoddiad o'r 3,425 o weithwyr llawrydd a gynorthwywyd.

### Arolwg Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Roedd yr ymatebwyr yn dewis eu sectorau eu hunain ac yn yr arolwg roedd modd iddynt ddewis sawl sector i adlewyrchu eu gweithrediadau. Cynhaliwyd dadansoddiad gan ddefnyddio'r categorïau amlddewis hyn, ond roedd y sefydliadau wedyn yn cael eu codio i un sector i asesu pa mor gynrychioliadol oedd y sampl yn erbyn Gwybodaeth Fonitro.

**Arolwg Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol – Sectorau'r Ymatebwyr**

| | N | Arolwg | Gwybodaeth Fonitro |
|---|---|---|---|
| Diwylliant – Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 15 | 10% | 33% |
| Treftadaeth | 33 | 21% | 16% |
| Digwyddiadau | 34 | 22% | 24% |
| Creadigol a'r Celfyddydau | 75 | 48% | 26% |
| Diwylliant a Chreadigol: Y Gadwyn Gyflenwi | 2 | 1% | 0.48% |
| Cyfanswm | 157 | | |

Cafodd yr ymatebion i'r data eu dadansoddi yn ôl sector er mwyn deall unrhyw effeithiau gwahanol.

### Arolwg Derbynwyr Grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd

Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis is-sectorau lluosog er mwyn casglu eu meysydd gwaith a chaiff eu dewisiadau eu cyflwyno isod.

**Arolwg Derbynwyr Grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd – Sectorau'r Ymatebwyr**

| Sector | N | % |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 157 | 36% |
| Y Celfyddydau Perfformio | 107 | 25% |
| Adloniant | 104 | 24% |
| Theatr | 100 | 23% |
| Ffilm a Theledu | 97 | 22% |
| Digwyddiadau | 90 | 21% |
| Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau | 75 | 17% |
| Ffotograffiaeth | 49 | 11% |
| Fideo | 49 | 11% |
| Dylunio | 44 | 10% |
| Dawns | 30 | 7% |
| Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Orielau a Threftadaeth | 24 | 6% |
| Cyhoeddi | 25 | 6% |
| Radio | 23 | 5% |
| Animeiddio | 7 | 2% |
| Arall | 37 | 9% |
| | 434 | |

### Cyfweliadau Manwl ag Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Cafodd data ansoddol ei ddadansoddi a'i godio i ganfod themâu allweddol yn y cyfweliadau. Roedd y cofnodion cyswllt a ddarparwyd i'r gwerthusiad yn cynnwys gwybodaeth am y sector a ddewiswyd gan ymatebwyr yn y cais ac roedd y wybodaeth hon wedi'i chysylltu â'u hymatebion i'r arolwg.

**Cyfweliadau Manwl ag Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol – Sectorau'r Ymatebwyr**

| Sector | N | % |
|---|---|---|
| Digwyddiadau | 48 | 23% |
| Creadigol | 49 | 23% |
| Diwylliant | 53 | 25% |
| Treftadaeth | 36 | 17% |
| Diwylliant a Chreadigol: Y Gadwyn Gyflenwi | 24 | 11% |
| Cyfanswm | 210 | |

**Cyfweliadau Manwl y Gronfa Gweithwyr Llawrydd**

Cafodd data ansoddol ei ddadansoddi a'i godio i ganfod themâu allweddol yn y cyfweliadau. Dewiswyd cysylltiadau ar gyfer yr arolwg hwn o ymatebion i Arolwg Derbynwyr Grantiau'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd a oedd yn cynnwys y sectorau gwaith a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain.

**Cyfweliadau Manwl y Gronfa Gweithwyr Llawrydd – Sectorau'r Ymatebwyr**

| Sector | N | % |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 38 | 39% |
| Ffilm a Theledu | 23 | 24% |
| Digwyddiadau | 17 | 18% |
| Theatr | 17 | 18% |
| Y Celfyddydau Gweledol a Chrefftau | 16 | 16% |
| Y Celfyddydau Perfformio | 16 | 16% |
| Dylunio | 12 | 12% |
| Ffotograffiaeth | 11 | 11% |
| Cyhoeddi | 9 | 9% |
| Radio | 8 | 8% |
| Dawns | 7 | 7% |
| Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Orielau a Threftadaeth | 5 | 5% |
| Adloniant | 2 | 2% |
| Animeiddio | 2 | 2% |
| Syrcas, Cerddoriaeth ac Adrodd Storïau | 1 | 1% |
| Curadur / Cyfarwyddwr Gwyliau | 1 | 1% |
| Cyfanswm | 97 | |

## Atodiad B: Canllaw Trafod y Rhanddeiliaid

# Gwerthusiad o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2020–21: cyfweliadau gyda rhanddeiliaid

**[Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael | This document is available in English]**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol 2020-21. Pwrpas y gronfa refeniw yw darparu cefnogaeth hanfodol i sefydliadau yn y sector, gan gynnwys lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, digwyddiadau a'u darparwyr cefnogaeth dechnegol, a sinemâu annibynnol sydd oll wedi gweld colled enfawr mewn refeniw o ganlyniad i'r pandemig. Y nod yw helpu i amddiffyn sefydliadau cynaliadwy a chymaint â phosib o swyddi yn y sector diwylliannol er mwyn sicrhau bod y sector yn goroesi'r argyfwng COVID-19 ac yn parhau'n fywiog, yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn 2021 ac yn y dyfodol.

Bydd y gwerthusiad yn dadansoddi effaith y cyllid ar y sefydliadau ac unigolion a gefnogir, ac yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd nod craidd y Rhaglen, sef gwella goroesiad busnes ac amddiffyn swyddi. Bydd y gwerthusiad hefyd yn archwilio a nodi'r effeithiau ehangach, annisgwyl.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, a bydd yn gwneud y data amrwd yn ddienw, cyn ei rannu gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn Wavehill ar gyfer yr ymchwil hwn yw Andy Parkinson

Cyfeiriad e-bost: andy.parkinson@wavehill.com

Rhif ffôn: 01545 571711

Am fwy o fanylion, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd drwy glicio yma.

## Cwestiynau i'w trafod

### Cyflwyniad

1. Fel cyflwyniad, rhowch amlinelliad o'ch rôl a natur eich ymgysylltiad â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol neu â'r sector diwylliannol yng Nghymru yn ehangach.

### Sail Resymegol, Nodau a Chynllun Rhaglen

2. Pa heriau mae'r pandemig COVID-19 wedi ei greu ar gyfer y sector diwylliannol?
3. Yn eich barn chi, beth yw'r sail resymegol ar gyfer y Gronfa? Beth mae hi'n ceisio ei gyflawni?
4. O ran y cyd-destun polisi ehangach, sut mae'r Gronfa yn alinio gyda chefnogaeth cyllid grantiau COVID-19 ehangach? Oes yna unrhyw ddyblygiad?
5. Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r Contract Diwylliannol a/neu'r Adduned Llawrydd? Pa mor eang y deellir hyn ledled y sector diwylliannol?
6. Beth, yn eich barn chi, yw cryfderau a gwendidau'r Gronfa *fel y'i cynlluniwyd?*
    a. *Diffiniad y meini prawf diwylliant/cymhwysedd*
    b. *Lefel y cyllid sydd ar gael*
    c. *Amodau cyllid grant*
7. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw sefydliadau neu sectorau diwylliannol sydd wedi methu a chael cefnogaeth drwy'r Gronfa (h.y. oherwydd nad ydynt yn gymwys neu nad yw eu hanghenion cyllid yn cael eu cynnwys)?

### Cyflawniad ac effaith

8. Pa mor dda ydych chi'n credu mae'r Gronfa wedi cael ei hyrwyddo?
9. Beth yw eich barn chi ar y lefel o gyfarwyddyd a ddarparwyd i ymgeiswyr?
10. At ei gilydd, beth yw eich canfyddiadau chi ar effeithioldeb y Gronfa wrth gefnogi a chynnal y sector yn wyneb yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig COVID-19?
11. Pa elfennau o gyflawniad y Gronfa sydd wedi gweithio'n dda?
12. Fyddai hi wedi bod yn bosib gwella unrhyw beth?
13. Beth fyddai effaith y pandemig wedi bod ar eich sector yng Nghymru pe na bai'r Gronfa'n bodoli? Beth yw'r problemau mae eich sector yn/wedi eu hwynebu?

### Rhwystrau, Hwyluswyr, Risgiau a Chyfleon

14. Oes unrhyw ffactorau o fewn eich sector sydd o bosib wedi effeithio ar gyflawniad y Gronfa a/neu effeithio ar y deilliannau?
15. Oes unrhyw ffactorau allanol sydd o bosib wedi effeithio ar y cyflawniad a deilliannau?
16. Beth yn eich barn chi yw anghenion cefnogaeth y sector diwylliannol nawr ac yn y dyfodol?

### Gwerthusiad

17. Beth yn eich barn chi yw'r gwersi allweddol o gyflawniad y Gronfa hyd nawr?
18. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu argymhellion ar gyfer cynllunio cronfeydd cefnogaeth yn y dyfodol?
19. A oes unrhyw beth nad ydym wedi ei drafod yn y cyfweliad hwn yr ydych chi'n credu ei fod yn bwysig i ni ei ystyried yn y cam cyntaf hwn o'r gwerthusiad?

## Atodiad C: Rhestr o'r sefydliadau sy'n rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy

Archifau Morgannwg

Bectu

Cadw

Canolfan Ffilm Cymru

Croeso Cymru

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Llyfrau Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ddinbych

Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru

Cymru Greadigol

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru

Ffilm Cymru

Grŵp Cynghori Diwydiant Digwyddiadau Cymru

Llawryddion Celfyddydol Cymru

UK Cinema Association

Y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru

## Atodiad D: Arolwg Ymgeiswyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Start of Block: Default Question Block

Q1 **Arolwg o'r Gronfa Adfer Diwylliannol (Rownd 1)**

Mae Wavehill yn cynnal gwerthusiad o'r Gronfa Adfer Diwylliannol ar ran Llywodraeth Cymru. Defnyddir y wybodaeth a gesglir i helpu Llywodraeth Cymru a'u partneriaid i asesu effaith y Gronfa a darparu tystiolaeth i helpu i wella'r modd y mae'n cael ei darparu yn y dyfodol.

Fel sefydliad sydd wedi gwneud cais am gefnogaeth gan y Gronfa Adfer Diwylliannol, byddem yn gwerthfawrogi ichi ddarparu ymatebion ar eich canfyddiadau o'r broses ymgeisio, a wnaethoch chi gais am gymorth cyllid arall a sut y gwnaethoch ddefnyddio'r cyllid.

**Mae'r arolwg hwn ar wahân i'ch adroddiad terfynol ac mae'n ymwneud yn bennaf â'ch profiadau cyn ac wrth wneud cais o'r Gronfa Adfer Diwylliannol. Hefyd, bydd holiadur ansoddol ar wahân o Wavehill a fydd yn canolbwyntio ar eich profiadau ar ôl cyrraedd diwedd y proses.**

Bydd yr arolwg yn cymryd tua 10-15 munud i'w gwblhau, yn dibynnu ar eich atebion.

I gael mwy o wybodaeth am yr arolwg a sut y bydd y data'n cael ei ddefnyddio, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn: https://www.wavehill.com/culturalrecoveryfundgrantapplicants

---

Ydych chi'n hapus i barhau gyda'r arolwg? Sylwch y gallwch chi roi'r gorau i lenwi'r holiadur ar unrhyw adeg os penderfynwch nad ydych chi am barhau.

○ Ydw (1)

○ Nac ydw (2)

---

Page Break

*Display This Question:*

*If Are you happy to continue with the survey? Please note you can stop completing the questionnaire... = No*

JS

Q5

**Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn,  gaewch y tab yma yn eich porwr.**

Page Break

Q6 A allwch roi'r wybodaeth ganlynol i ni:

*Gadewch unrhyw feysydd yn wag sydd dim yn berthnasol*

- ○ Enw'r sefydliad (1) ________________________________________________
- ○ Awdurdod Lleol (2) ________________________________________________
- ○ Cod post (3) ________________________________________________
- ○ Rhif TAW (4) ________________________________________________
- ○ Rhif Cofrestru'r Cwmni (5) ________________________________________________
- ○ Rhif Elusennol (6) ________________________________________________

Page Break

Q7 Ym mha un o'r sectorau canlynol y mae eich sefydliad yn gweithredu?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ☐ Diwylliant - Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (1)
- ☐ Creadigol a'r Celfyddydau (2)
- ☐ Digwyddiadau (3)
- ☐ Treftadaeth (4)

Page Break

Q8 Ym mha un o'r is-sectorau canlynol y mae eich sefydliad yn gweithredu?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Lleoliadau comedi (1)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Sinemâu Annibynnol (2)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Lleoliadau Cerdd (3)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Sefydliadau cyhoeddi (4)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Stiwdios recordio ac ymarfer cerddoriaeth (7)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Events*

☐ Cyflenwr i Ddigwyddiadau (9)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Culture – Museums, Archives and Libraries*

☐ Llyfrgell Gymunedol (12)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Culture – Museums, Archives and Libraries*

☐ Archif Achrededig Annibynnol neu'n gweithio tuag at statws achrededig (13)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Culture – Museums, Archives and Libraries*

☐ Amgueddfa Achrededig Annibynnol neu'n gweithio tuag at statws achrededig (14)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Culture – Museums, Archives and Libraries*

☐ Llyfrgell Annibynnol (15)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Events*

☐ Digwyddiadau - Busnes (16)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Events*

☐ Digwyddiadau - Diwylliannol (17)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Events*

☐ Digwyddiadau - Chwaraeon (18)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Heritage*

☐ Sefydliadau archeolegol (19)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Heritage*

☐ Atyniadau treftadaeth (20)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Heritage*

☐ Mae safleoedd neu adeiladau hanesyddol fel arfer ar agor i'r cyhoedd am 28 diwrnod neu fwy (21)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Heritage*

☐ Sefydliadau sy'n cyflwyno gweithgareddau treftadaeth cyfranogol (22)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Heritage*

☐ Sefydliadau sy'n arbenigo mewn cadwraeth asedau hanesyddol (23)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Theatrau, canolfannau celfyddydol a neuaddau cyngerdd (24)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Orielau (25)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Sefydliadau sy'n cynhyrchu ac yn teithio gweithgareddau celfyddydol (26)

*Display This Choice:*

*If Which of the following sectors does your organisation operate in? Tick all that apply = Creative and Arts*

☐ Sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau celfyddydau cyfranogol (27)

---

Page Break

Q11 Sawl rownd o gyllid y gwnaethoch chi geisio amdano o'r Gronfa Adfer Diwylliannol (CRF)?

◯ Ymgeisiwyd am (1) ________________________________________________

◯ Wedi cael cais llwyddiannus (2) ________________________________________________

---

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

Q10 Faint o arian a gawsoch o'r Gronfa Adfer Diwylliannol?

*Os nad ydych chi'n gwybod y rhaniad, rhowch y cyfanswm yn y blwch ar gyfer Rownd 1*

◯ Rownd 1 (4) ________________________________________________

◯ Rowndiau eraill (5) ________________________________________________

---

Page Break

Q12 Beth yw statws cyfredol eich sefydliad?

◯ Yn gweithredu'n llawn (1)

◯ Yn gweithredu'n rhannol (rhai staff ar furlough, llai o wasanaethau ac ati) (2)

◯ Yn segur ar hyn o bryd (mae'r holl staff neu'r mwyafrif o staff ar furlough a dim gwasanaethau na gweithgareddau'n cael eu darparu) (3)

◯ Ar gau (4)

---

*Display This Question:*

*If What is the current status of your organisation? = Closed*

Q13 Pryd wnaeth y sefydliad gau?

◯ Mis (1) ________________________________________________

◯ Blwyddyn (2) ________________________________________________

---

Page Break

Q14 Pa gamau a gymerwyd gan eich sefydliad mewn ymateb i'r pandemig?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ☐ Staff wedi'i rhoi ar Furlough (1)
- ☐ Gwneud diswyddiadau (2)
- ☐ Wedi lleihau oriau gwaith (3)
- ☐ Gadael adeilad presennol (4)
- ☐ Wedi lleihau'r nifer o weithgareddau neu wasanaethau (5)
- ☐ Wedi addasu Gweithgareddau a gwasanaethau (6)
- ☐ Datblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd (unrhyw beth newydd a gyflwynwyd) (7)
- ☐ Arall (8)

---

*Display This Question:*

*If What actions were taken by your organisation in response to the pandemic? Tick all that apply = Other*

Q15 Dywedwch wrthym pa gamau eraill a gymerwyd gan eich sefydliad mewn ymateb i'r pandemig.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

*Display This Question:*

*If What actions were taken by your organisation in response to the pandemic?  Tick all that apply = Adapted activities and services*

Q16 Esboniwch sut gwnaethoch chi addasu'ch gwasanaethau.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

*Display This Question:*

*If What actions were taken by your organisation in response to the pandemic?  Tick all that apply = Developed new activities or services (anything novel that was introduced)*

Q17 Dywedwch wrthym am y gweithgareddau / gwasanaethau newydd a ddatblygwyd gennych

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

Rydyn ni nawr yn mynd i ofyn rhai cwestiynau am eich cais efo'r Gronfa Adfer Diwylliannol.

Q21 Sut daethoch chi'n ymwybodol o'r Gronfa Adfer Diwylliannol?

- ◯ Ar lafar gwlad (1)
- ◯ Hysbysebu ar-lein (4)
- ◯ Hysbysebu mewn print (5)
- ◯ Yn cael ei hysbysu trwy grŵp aelodaeth neu gysylltiad (6)
- ◯ Cyswllt uniongyrchol (7)
- ◯ Gan fy Awdurdod Lleol (8)
- ◯ Methu cofio (9)
- ◯ Arall (10)

*Display This Question:*

*If How did you become aware of the Cultural Recovery Fund? = Other*

Q23 Dywedwch wrthym sut arall y daethoch yn ymwybodol o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol?

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

Q25 Sgoriwch y prosesau canlynol o'r cais ar raddfa o 1 i 5 lle mae 5 yn golygu rydych yn cytuno'n gryf ac 1 yn golygu rydyc yn anghytuno'n gryf.

*Display This Choice:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the CRF? Successfully received Is Equal to 0*

*Display This Choice:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the CRF? Successfully received Is Greater Than 0*

| | 1 - anghytuno'n gryf (1) | 2 (2) | 3 (3) | 4 (4) | 5 - cytuno'n gryf (5) | Dim yn berthnasol NA (6) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddwyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn dda, a dywedwyd wrthym yn brydlon. (1) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Roedd y gwiriwr cymhwysedd (eligibility checker) yn glir ac yn ddefnyddiol (10) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Roedd y ffurflen gais yn glir ac yn hawdd ei chwblhau. (4) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Roedd y meini prawf cymhwysedd yn glir ac yn hawdd eu deall. (5) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Roedd y gofynion tystiolaeth yn syml ac yn rhwydd i'w darparu. (6) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Roedd y penderfyniadau ar gyfer y cyllid yn gyflym. (7) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| *Display This Choice: If If How many rounds of funding did you apply for from the CRF? Successfully received Is Equal to 0* Roedd y rheswm pam nad oedd y cais yn llwyddiannus yn glir ac yn ddealladwy. (8) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| *Display This Choice: If If How many rounds of funding did you apply for from the CRF? Successfully received Is Greater Than 0* Trosglwyddwyd yr arian yn brydlon. (9) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Q27 Pa welliannau, os o gwbl, fyddech chi'n eu gwneud i'r broses ymgeisio?

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Equal to 0*

Q29 Pan wnaethoch chi gais am y cyllid, beth oeddech chi'n bwriadu defnyddio'r Cyllid Adfer Diwylliannol am?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ☐ Cadw staff (2)
- ☐ Cadw adeilad (3)
- ☐ Hyfforddi staff (4)
- ☐ Buddsoddi mewn offer newydd (5)
- ☐ Datblygu gwasanaethau, cynhyrchion neu gynnig newydd (6)
- ☐ Gwella adeilad (7)
- ☐ Rhywbeth arall (8)

---

*Display This Question:*

*If When you applied for the funding, what were you intending to use the Cultural Recovery Funding fo... = Something else*

Q31 Dywedwch wrthym beth arall yr oeddech yn bwriadu defnyddio'r cyllid am.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

---

Page Break

Q33 A ydych wedi gwneud cais i unrhyw un o'r cronfeydd Covid-19 canlynol?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- [ ] Grant Trethi Busnes (25k) (1)
- [ ] Grant Trethi Busnes (10k) (2)
- [ ] Cynllun Cadw Swydd Coronavirus (3)
- [ ] Cynllun Benthyciad Torri ar draws Busnes (Busines Interruption Loan Scheme) (4)
- [ ] Cymorth Tâl Salwch Statudol (5)
- [ ] Banc Datblygu Cymru (6)
- [ ] Cefnogaeth i'r Hunangyflogedig (7)
- [ ] Cronfeydd Gwydnwch Economaidd (8)
- [ ] Grantiau WCVA (9)
- [ ] Grantiau Cronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri (10)
- [ ] Grant Sefydliad Moondance (11)
- [ ] Cronfa Datblygu Digidol Brys (14)
- [ ] Cronfa Datblygu Teledu Brys (15)
- [ ] Cronfa Rhyddhad Cerddoriaeth ar lawr gwlad (Grassroots Music Relief Fund) (16)
- [ ] Arall (17)
- [ ] ⊗Dim un o'r uchod (18)

---

*Display This Question:*

*If Have you applied to any of the following Covid-19 Relief funds? Tick all that apply = Other*

Q34 Dywedwch wrthym pa gronfa (gronfeydd) eraill y gwnaethoch gais amdanynt.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

*Display This Question:*

*If Have you applied to any of the following Covid-19 Relief funds? Tick all that apply != None of the above*

Q36 Fel amcangyfrif, faint o arian a gawsoch o'r cronfeydd hyn?

*Peidiwch â chynnwys cyllid a dderbyniwyd o'r Gronfa Adfer Diwylliannol*

________________________________________________________________

Page Break

Q37 A ydych hefyd wedi gwneud cais am unrhyw un o'r canlynol?

- ☐ Cyfleuster gorddrafft banc (1)
- ☐ Morgais masnachol (2)
- ☐ Cardiau credyd (3)
- ☐ Cyllid Ecwiti, ee lle mae cyfran o'r busnes yn cael ei werthu i fuddsoddwyr neu bobl eraill (4)
- ☐ Ffactorio / disgowntio anfonebau (5)
- ☐ Prydlesu neu hurbwrcasu (6)
- ☐ Benthyciad gan fanc, cymdeithas adeiladu neu sefydliad ariannol arall (7)
- ☐ Benthyciad gan deulu / ffrind (8)
- ☐ Benthyciad gan bartner / cyfarwyddwyr / perchennog busnes (9)
- ☐ Benthyciad o blatfform cyfoedion-i-gymar (10)
- ☐ Cyllid arall (11)
- ☐ ⊗Dim un o'r rhain (12)

---

*Display This Question:*

*If Have you also applied for any of the following? = Other finance*

Q39 Dywedwch wrthym pa gyllid arall y gwnaethoch gais amdano.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

Q40 Ar gyfer beth wnaethoch chi ddefnyddio'r cyllid o'r Gronfa Adfer Diwylliannol?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ▢ Talu biliau / gorbenion (1)
- ▢ Cyflogau staff (2)
- ▢ Adolygu model busnes, gweithgareddau neu wasanaethau'r sefydliad (3)
- ▢ Hyfforddi staff (4)
- ▢ Buddsoddi mewn offer (5)
- ▢ Buddsoddi mewn adeilad (6)
- ▢ Rhywbeth arall (7)

---

*Display This Question:*

*If What did you use the Cultural Recovery Funding for? Please tick all that apply = Something else*

Q41 Dywedwch wrthym beth arall y gwnaethoch chi ddefnyddio'r cyllid amdano.

________________________________________________________________

---

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

Q64 A oedd unrhyw beth arall yr hoffech chi wedi defnyddio'r Cyllid o'r Gronfa Adfer Diwylliannol ar ei gyfer?

Page Break

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

*And If*

*What is the current status of your organisation? = Fully operating*

*Or What is the current status of your organisation? = Partially operating (some staff on furlough, reduced services etc.)*

*Or What is the current status of your organisation? = Currently dormant (all or the majority of staff on furlough and no services or activities are being delivered)*

A wnaeth y cyllid o'r Gronfa Adfer Diwylliannol a dderbyniwyd eich galluogi i barhau i weithredu trwy gydol y pandemig?

- ◯ Fe wnaeth yr arian fy helpu i barhau i weithredu'n llawn trwy gydol y pandemig (10)
- ◯ Fe wnaeth yr arian fy helpu i barhau i weithredu'n rhannol trwy gydol y pandemig (11)
- ◯ Na, cefnogwyd y cyllid fi tra bod y busnes / sefydliad ar gau (12)

---

*Display This Question:*

*If Did the Cultural Recovery Funding received enable you to continue to operate throughout the pande... = The funding helped us to operate full services throughout the pandemic*

*Or Did the Cultural Recovery Funding received enable you to continue to operate throughout the pande... = The funding helped us to operate partial services throughout the pandemic*

Q37 Pe na baech wedi derbyn yr arian, a fyddech wedi gallu gweithredu yn ystod y pandemig?

- ◯ Ni fyddem wedi gallu gweithredu trwy gydol y pandemig (17)
- ◯ Mae'n annhebygol y byddem wedi gallu gweithredu trwy gydol y pandemig (18)
- ◯ Byddem wedi gallu parhau i weithredu trwy gydol y pandemig, ond i raddau llai (19)
- ◯ Byddem wedi gallu parhau i weithredu ar y lefel hon heb y cyllid o'r Gronfa Adfer Diwylliannol (20)

---

Page Break

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

Q39 Pe na baech wedi derbyn yr arian, pa effeithiau eraill y gallech fod wedi'u disgwyl?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ☐ Wedi'i dynnu ar gronfeydd wrth gefn y sefydliad (23)
- ☐ Wedi symud adeilad (24)
- ☐ Gohirio buddsoddiadau (25)
- ☐ Wedi Diswyddo staff (26)
- ☐ Wedi cau'r sefydliad (27)
- ☐ Arall (28)

*Display This Question:*

*If If you had not received the funds, what impacts might you have expected? Tick all that apply = Other*

Q65 Pa effeithiau eraill y gallech fod wedi'u disgwyl?

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Page Break

*Display This Question:*

*If If How many rounds of funding did you apply for from the Cultural Recovery Fund? Text Response Is Greater Than 0*

*And If*

*What is the current status of your organisation? = Fully operating*

*Or What is the current status of your organisation? = Partially operating (some staff on furlough, reduced services etc.)*

*Or What is the current status of your organisation? = Currently dormant (all or the majority of staff on furlough and no services or activities are being delivered)*

Q43 I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y Gronfa Adfer Diwylliannol wedi diogelu'ch sefydliad?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- ◯ I raddau helaeth, roedd y cyllid yn hanfodol i oroesiad y sefydliad / busnes (23)
- ◯ I ryw raddau, roedd yn un o sawl mecanwaith cymorth a helpodd i'r sefydliad i oroesi (24)
- ◯ I raddau llai, cyfrannodd ychydig tuag at oroesiad y sefydliad (25)
- ◯ Dim o gwbl (26)
- ◯ Ddim yn gwybod (27)

Page Break

Q44 Faint o weithwyr llawn amser (30 awr yr wythnos neu fwy) a dalwyd roedd efo eich sefydliad **cyn yr bandemig Covid-19 (Mawrth 2020)**?

________________________________________________________________

*Display This Question:*

*If What is the current status of your organisation? != Closed*

Q45 Faint o weithwyr llawn amser (30 awr yr wythnos neu fwy) sydd gan eich sefydliad ar **hyn o bryd** ?

________________________________________________________________

Page Break

JS

Q47 Faint o weithwyr rhan-amser taledig (<30 awr yr wythnos) oedd gan eich sefydliad **cyn yr bandemig Covid-19 (Mawrth 2020)** a pha oriau oeddent yn gweithio yn fras?

| | Nifer y gweithwyr rhan amser | Oriau'n cael eu gweithio bob wythnos |
|---|---|---|
| | (1) | (1) |
| (1) | | |
| (5) | | |
| (6) | | |
| (7) | | |
| (8) | | |

Page Break

*Display This Question:*

*If What is the current status of your organisation? != Closed*

*And And How many paid full time (30 hours per week or more) employees does your organisation have currently? Text Response Is Displayed*

JS

Q46 Faint o weithwyr rhan-amser taledig (<30 awr yr wythnos) sydd gan eich sefydliad ar **hyn o bryd** a tua pha oriau maen nhw'n eu gweithio?

| | Nifer o weithwyr rhan amser | Oriau'n cael eu gweithio bob wythnos |
|---|---|---|
| | (1) | (1) |

| | | |
|---|---|---|
| (1) | | |
| (5) | | |
| (6) | | |
| (7) | | |
| (8) | | |

Page Break

*

Q48 Faint o wirfoddolwyr oedd gan eich sefydliad **cyn yr bandemig Covid-19 (Mawrth 2020)**?

________________________________________________________________

*Display This Question:*

*If What is the current status of your organisation? != Closed*

*

Q49 Faint o wirfoddolwyr sydd gan eich sefydliad ar **hyn o bryd** ?

________________________________________________________________

Page Break

Q50 Ydych chi'n defnyddio unrhyw weithwyr llawrydd (freelancers) taledig i gefnogi'ch gweithgareddau?

◯ Ydyn (1)

◯ Nac ydyn (2)

---

*Display This Question:*

*If Do you use any paid freelancers or contractors to support your activities? = Yes*

JS

Q51 Faint o weithwyr llawrydd a ddefnyddiodd eich sefydliad **cyn yr bandemig Covid-19 (Mawrth 2020)** ? Mewn blwyddyn nodweddiadol tua sawl diwrnod y cafodd gweithwyr llawrydd gontract ar eu cyfer?

| | Nifer o weithwyr llawrydd | Diwrnodau dan gontract |
|---|---|---|
| | (1) | (1) |

| | | |
|---|---|---|
| (1) | | |
| (5) | | |
| (6) | | |
| (7) | | |
| (8) | | |

*Display This Question:*

*If Do you use any paid freelancers or contractors to support your activities? = Yes*

JS

Q52 Faint o **weithwyr llawrydd** mae eich sefydliad yn defnyddioar **hyn o bryd**? Yn eich barn chi tua sawl diwrnod bydd y gweithwyr llawrydd yn cael eu contractio dros y flwyddyn nesaf?

| | Nifer o weithwyr llawrydd | Diwrnodau dan gontract |
|---|---|---|

